Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi ar y cyd gan yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod am Gymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i mae darpariaethau'r Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), a gyflwynwyd gennyf fi ar 2 Mawrth 2009, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dr Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

3 Tachwedd 2009

Cynnwys

Adran 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

1. Disgrifiad
2. Y cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Adran 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6. Rhan 1 Pennod 1: Dileu tlodi plant (Adrannau 1 – 5A)
6.1 Opsiynau
6.2 Costau a Manteision
6.3 Asesu'r Gystadleuaeth

7. Rhan 1 Pennod 1: Dileu Tlodi Plant (Adrannau 6-9);
Rhan 1 Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan (Adrannau 9A a 9B); a
Rhan 1 Pennod 3: Arolygu, Canllawiau a Chyfarwyddiadau (Adrannau (9C-F, 10 ac 11)
7.1 Opsiynau
7.2 Costau a Manteision
7.3 Asesu'r Gystadleuaeth

8. Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant (Adrannau 13 – 48)

9. Rhan 3:Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd – TICID (Adrannau 49 – 58 ac Adran 59)
9.1 Opsiynau
9.2 Costau a Manteision
9.3 Asesu'r Gystadleuaeth
9.4 Adolygu ar ôl gweithredu

Adran 3: Nodiadau Esboniadol

Adran 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

1. Disgrifiad

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 23.18. Mae'n gosod y cefndir i'r amcanion polisi, darpariaethau'r Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), ac mae'n esbonio ei gwmpas.

Mae'r Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) yn gwneud darpariaeth statudol i fynd ati i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran tlodi plant, ac i fynd ati i weithredu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed drwy ddwyn ymlaen ddeddfwriaeth i ddarparu mwy o gymorth i deuluoedd sydd, o bosibl, â phlant mewn perygl, a gorfodaeth reoleiddiol gryfach mewn lleoliadau gofal plant.

Mae'r Mesur yn waith trawsbynciol gyda'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae pob adran o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i rhannu'n bedair:

- Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chymryd Rhan
- Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant
- Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Rhan 4: Amrywiol a Chyffredinol

1.1. Rhan 1 - Tlodi Plant, Chwarae a Chymryd Rhan

Rhan 1, Pennod 1: Dileu Tlodi Plant

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cymreig gyfrannu at ddileu tlodi plant a dangos eu hymrwymiad i hynny.

Diben Rhan 1 y Mesur yw cyflwyno fframwaith deddfwriaethol sy'n pennu:

- ystod o nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant;
- dyletswydd ar 'awdurdodau Cymreig' i lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru;
- manylion sy'n gymwys i Weinidogion Cymru o ran eu strategaeth; gan gynnwys trefniadau i fod yn gyson â darpariaethau Mesur Tlodi Plant y DU;
- manylion sy'n gymwys i awdurdodau lleol o ran eu strategaeth;
- diwygiadau i adran 26 o Ddeddf Plant 2004 i glymu dyletswydd yr awdurdod lleol i fod â strategaeth yn rhan o'r ddyletswydd o dan yr adran honno i lunio cynllun;
- darpariaeth am y strategaethau i'w llunio gan awdurdodau Cymreig heblaw Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol;

- yr awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan Adran 2 o'r Mesur.
- dyletswydd i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau gofal plant di-dâl yn unol â rheoliadau a chanllawiau;
- pŵer i awdurdodau lleol sicrhau gwasanaethau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd;
- gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu mathau penodol o wasanaethau cymorth i rieni lle bo'n ofynnol gan reoliadau;
- gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu mathau penodol o wasanaethau cymorth iechyd lle bo'n ofynnol gan reoliadau.

Rhan 1, Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan

- dyletswydd i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn ei ardal;
- dyletswydd i awdurdod lleol sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant, a mynediad i'r cyfleoedd hynny;
- dyletswydd i awdurdod lleol wneud trefniadau i sicrhau fod plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt.

Rhan 1, Pennod 3: Arolygu, Canllawiau a Chyfarwyddiadau

- pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer arolygu arfer swyddogaethau gan awdurdod lleol o dan Adrannau 6-9B ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau o'r arolygiadau;
- pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol am y camau i'w cymryd i hybu'r nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant ac arfer swyddogaethau o dan Adrannau 1 i 9B;
- pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod Cymreig i gymryd unrhyw gam i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adrannau perthnasol lle mae awdurdod Cymreig yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd o dan adrannau 2, 6, 9, 9A neu 9B neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â hi.

1.2. Rhan 2 – Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant

Ar hyn o bryd, caiff gwarchodwyr plant ac eraill sy'n darparu gofal ar gyfer plant dan 8 oed yng Nghymru eu rheoleiddio gan Ran 10A ac Atodlen 9A o Ddeddf Plant 1989. Mae Rhan 2 arfaethedig y Mesur yn diddymu Rhan 10A o Ddeddf Plant 1989 ynghyd ag Atodlen 9A ac mae'n gwneud darpariaethau newydd er mwyn gwella cydlyniant ac eglurder, ac mae hefyd yn gwneud darpariaeth newydd i wella pwerau rheoleiddio a gorfodi AGGCC er mwyn darparu ar gyfer:

- y gallu i osod amodau cofrestru mewn argyfwng;
- rhoi hysbysiadau cosbau penodedig i bersonau cofrestredig, ac
- ymestyn y terfyn amser ar gyfer erlyniadau o chwe mis i ddeuddeg mis.

1.3. Rhan 3 – Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICID)

Hefyd, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICID) i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd lle mae yno blant mewn angen neu blant sy'n derbyn gofal a lle mae hynny'n gysylltiedig â rhyw fath ar angen (ee dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau) ar ran yr oedolion sy'n gofalu amdanynt. Mae hefyd yn rhoi dyletswyddau ar y Bwrdd Iechyd Lleol i helpu'r awdurdod lleol i sefydlu TICID a rhoi adnoddau iddo fel y gall awdurdod lleol gyflawni'i ddyletswyddau.

Mae'r darpariaethau'n cynnwys swyddogaethau, staff (aelodau craidd y tîm, safonau proffesiynol a galwedigaethol, a'r gofynion cofrestru) a'r trefniadau i sefydlu TICID a rhoi adnoddau iddynt, gan gynnwys cyfeiriad strategol gan Fwrdd TICID sydd â dyletswyddau statudol penodol mewn perthynas â'r TICID.

Timau amlasiantaethol fydd y TICID a'u swyddogaeth fydd darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn uniongyrchol i deuluoedd lle mae yno blant mewn perygl o ddatblygu anawsterau hirdymor, neu ddioddef diffyg dilyniant sylweddol yn eu magwraeth a allai olygu fod y plentyn yn cael ei dderbyn i ofal. Hefyd, bydd y TICID yn cynorthwyo i aduno plant sydd wedi derbyn gofal yn wirfoddol. Bydd gan y TICID rôl hyfforddi o ran darparu hyfforddiant dan oruchwyliaeth i staff eang sy'n gweithio gyda theuluoedd mewn awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar amryw o dechnegau i ymgysylltu â theuluoedd cymhleth a darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

1.4. Rhan 4: Amrywiol a Chyffredinol

Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaeth ehangach am wasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd. Rhaid i awdurdodau lleol ddynodi swyddog i fod yn Swyddog Safonau Gwaith Cymdeithasol Teuluol yn yr awdurdod.

Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion plant wrth asesu anghenion gofal cymunedol oedolion sy'n rhieni neu oedolion sydd â chyfrifoldebau rhianta. Yna rhaid i'r awdurdod lleol dalu sylw i'r ystyriaeth honno mewn unrhyw benderfyniad a wneir ganddo am ddarparu gwasanaethau gofal cymunedol i'r oedolyn dan sylw.

Yn yr un modd mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar gyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol wneud y trefniadau hynny y mae'n barnu sy'n gweddu i sicrhau, lle darperir gwasanaethau iechyd penodedig, y rhoddir ystyriaeth i effaith unrhyw anghenion iechyd sydd gan yr oedolyn ar unrhyw blentyn y mae'r person hwnnw yn gofalu amdano ac a oes angen ei atgyfeirio i wasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol ai peidio.

Swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r TICID ac yn Rhan 4 yw swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

2. Y cefndir deddfwriaethol

Yn yr adran hon ceir tystiolaeth i gefnogi Rheol Sefydlog 23.18(i).

Ceir y cyd-destun cyfansoddiadol i'r cynnig hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae darpariaeth yn y Ddeddf i gryfhau pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad (23.1 a 23.2) yn darparu ar gyfer Mesur arfaethedig i'w gyflwyno gan aelod o'r llywodraeth fel 'Mesur a gynigir gan y llywodraeth'.

Ar 10 Rhagfyr 2008, cafodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 Gymeradwyaeth Frenhinol. Mae'n estyn Materion 15 ac 16 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2006 a roddodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y Mesur Cynulliad hwn ar gyfer Lles Cymdeithasol, ac mewn ffordd fwy cyfyngedig, chwaraeon a hamdden ar gyfer diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.18(i) ac i gefnogi'r datganiad fod darpariaethau'r Mesur arfaethedig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ceir y pwerau i wneud Mesur o'r fath ym Materion 5.8, 5.18, 15.2, 15.5, 15.6 a 15.7 a 16.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2006, fel y'i mewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008.

Yn benodol:

Maes 5: addysg a hyfforddiant

Mater 5.8

Darpariaeth am ddarparu gwasanaethau y bwriedir iddynt annog, galluogi neu helpu pobl -

(a) cymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,

(b) manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, neu

(c) cymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymunedau.

Mater 5.18

Darparu unrhyw rai o'r canlynol ar gyfer plant a phobl ifanc -

(a) cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant cymdeithasol neu gorfforol;

(b) gweithgareddau addysgiadol.

Yn y mater hwn yr un ystyr sydd i “plant” a “pobl ifanc” ag ym Maes 15.

Maes 15: Iles cymdeithasol

Mater 15.2

Swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â:

(a) diogelu plant rhag niwed ac esgeulustod;

b) diogelu a hyrwyddo llesiant plant agored i niwed;

(c) lleihau anghydraddoldebau o ran llesiant rhwng plant a phobl ifanc.

Mae'r mater hwn yn berthnasol i swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus y mae eu prif swyddogaethau yn ymwneud ag un neu ragor o'r meysydd yn y Rhan hon.

Mae Mater 15.2(b) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud â diogelu a hyrwyddo llesiant plant agored i niwed. Diffinnir 'plant agored i niwed' yn y fath fodd fel ei fod yn cynnwys pob un 'mewn angen' o dan y diffiniad o adran 17 o Ddeddf Plant 1989. Mae Mater 15.2(c) yn rhoi cymhwysedd i ddeddfu'n ehangach na gwasanaethau gofal cymdeithasol neu 'blant agored i niwed' o ran lleihau anghydraddoldebau rhwng plant neu bobl ifanc.

Mae cwmpas Mater 15.2 yn mynd tu hwnt i'r cysyniad o 'wasanaethau cymdeithasol' ac mae'n rhoi cymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas â swyddogaethau'r holl awdurdodau lleol y mae eu prif swyddogaethau yn ymwneud ag un neu ragor o faterion Atodlen 5. Felly, mae'r mater hwn yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â swyddogaethau cyrff mewn meysydd datganoledig fel iechyd o ran Materion 15.2.

Mater 15.5

Gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer unrhyw rai o'r canlynol -

(a) plant;

(b) personau sy'n gofalu am blant, neu sydd ar fin gofalu amdanynt;

(c) pobl ifanc;

(d) personau y gofalwyd amdanynt o'r blaen -

(i) sydd wedi cyrraedd 25 oed, a

(ii) sydd, yn union cyn cyrraedd yr oedran hwnnw, wedi bod yn dilyn addysg neu hyfforddiant, neu'n bwriadu gwneud hynny.

Mae Mater 15.5 yn rhoi cymhwysedd mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac mae'n gymwys mewn perthynas â phlant, eu gofalwyr neu

ddarpar ofalwyr a hefyd mewn perthynas â phobl ifanc. Yn y diffiniad o wasanaethau gofal cymdeithasol cynhwysir gwasanaethau fel gofal plant a hyfforddiant i ofalwyr mewn rhianta, ac mae'n cynnwys 'cyngor' a 'chymorth o unrhyw fath'.

Mater 15.6

Cydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bobl ifanc.

Mae'r mater hwn yn gymwys i gydweithredu gan, a threfniadau sy'n cael eu gwneud gan y canlynol -

(a) awdurdodau cyhoeddus y mae eu prif swyddogaethau'n ymwneud ag unrhyw un neu fwy o'r meysydd yn y rhan hon;

(b) awdurdodau heddlu a phrif swyddogion yr heddlu ar gyfer ardaloedd yr heddlu yng Nghymru;

(c) Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

(d) byrddau prawf lleol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;

(e) yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Tramgwyddwyr 2007, neu unrhyw ddarparydd gwasanaethau prawf o dan drefniadau a wnaed o dan adran 3(2) o'r Ddeddf honno;

(f) timau troseddau ieuenctid ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;

(g) llywodraethwyr carchardai, sefydliadau tramgwyddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru (neu, yn achos carchardai, sefydliadau tramgwyddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddi diogel sydd wedi'u contractio allan neu rannau o sefydliadau o'r fath, a'r rhannau hynny wedi'u contractio allan, eu cyfarwyddwyr);

(h) personau ac eithrio awdurdodau cyhoeddus sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llesiant plant neu bobl ifanc.

Mae hyn yn ymwneud â chydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bobl ifanc gan gyrff cyhoeddus penodol ac eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n berthnasol i lesiant plant neu bobl ifanc.

Mater 15.7

Cynllunio gan awdurdodau lleol ar gyfer cyflawni'u swyddogaethau sy'n gysylltiedig â llesiant plant neu bobl ifanc.

Mae hyn yn ymwneud â chynllunio gan awdurdodau lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â llesiant plant neu bobl ifanc.

Maes 16: chwaraeon a hamdden

Mater 16.1

Darparu cyfleusterau a gweithgareddau hamdden ar gyfer plant neu bobl ifanc.

Yn y mater hwn yr un ystyr sydd i “plant” a “pobl ifanc” ag ym Maes 15.

Y Mesur Tlodi Plant a'i effaith ar y Mesur arfaethedig

Ar 11 Mehefin 2009, cyflwynwyd y Mesur Tlodi Plant i'r Senedd gan Lywodraeth y DU.

Bydd y Mesur Tlodi Plant, wedi iddo gael ei ddeddfu, yn cynnwys mewn deddfwriaeth ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'n diffinio llwyddiant o ran dileu tlodi plant ac mae'n sefydlu fframwaith atebolrwydd i symud ymlaen tuag at nod 2020 ar lefel genedlaethol a lleol. Bwriedir i'r Mesur greu fframwaith ar gyfer y DU gyfan i fynd i'r afael â thlodi plant ac adrodd ar gynnydd. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Gweinidogion Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Mesur, a golyga hynny fod dealltwriaeth glir na ddylid torri ar draws y setliad datganoli wrth fynd i'r afael â thlodi plant ar lefel y DU. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ledled y DU ar y Mesur yn pwysleisio ei bod yn bwysig gweithredu'n gydlynus i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddileu tlodi plant ar draws y DU ond roedd cydnabyddiaeth hefyd mai'r Gweinyddiaethau Datganoledig sydd yn y lle gorau i benderfynu sut i fynd i'r afael â thlodi plant yn eu hardaloedd eu hunain yn ôl eu hamgylchiadau penodol hwy. Mae'r ddeddfwriaeth yn y DU ac yng Nghymru wedi'i drafftio mewn modd sy'n adlewyrchu hyn.

Nid yw'r Mesur Tlodi Plant yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth tlodi plant. Y rheswm am hynny yw bod y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 2 Mawrth 2009 yn rhoi dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi, ac adolygu strategaeth tlodi plant ar gyfer Cymru. Mae Rhan 1 o'r Mesur arfaethedig yn rhoi dyletswydd debyg ar ‘awdurdodau Cymreig’ penodol eraill.

Mewn perthynas â Chymru mae darpariaethau canlynol y Mesur (fel y'i cyflwynwyd) yn gymwys:

- Mae Cymal 7 yn sefydlu Comisiwn Tlodi Plant y DU a rhoddir mwy o fanylion yn Atodlen 1. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth i aelod o'r Comisiwn gael ei benodi gan Weinidogion Cymru;

- Mae Cymal 8 yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant y DU a'i gosod gerbron y Senedd cyn pen 12 mis wedi'r Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur. Mae Is-adran 3 yn gwneud darpariaeth i strategaeth y DU gyfeirio at gynigion Gweinidogion Cymru. Mae Is-adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol bod strategaeth ddiwygiedig y DU yn disgrifio'r camau a gymerwyd yn unol â strategaeth flaenorol y DU neu'r camau a gymerwyd yn unol â strategaeth Cymru.

- Mae Cymal 9 yn pennu rôl y Comisiwn Tlodi Plant o ran rhoi cyngor i Lywodraeth y DU ac mae'n pennu'r rhai y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â hwy wrth baratoi strategaethau ar gyfer y DU. Mae Is-adran 4(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Mae Is-adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth i gynnwys unrhyw strategaeth tlodi plant ar gyfer Cymru.

- Mae Cymal 13 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i lunio adroddiadau blynyddol a'u gosod gerbron y Senedd. Mae Is-adran 4 yn darparu bod yn rhaid i'r adroddiad ddisgrifio'r camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â'u strategaeth eu hunain ar dlodi plant. Hefyd, rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch cynnwys yr adroddiad sydd i'w osod gerbron y Senedd.

Caiff unrhyw gyfeiriadau at gynnwys y Mesur Tlodi Plant a'i oblygiadau i Gymru eu gwneud gyda'r ddealltwriaeth nad yw'r Mesur wedi gorffen ei daith drwy broses Seneddol y DU a'i bod yn bosibl y caiff ei ddiwygio ymhellach gan welliannau a wnaed gyda chytundeb y Senedd.

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

3.1. Diben y Ddeddfwriaeth sydd Eisoes yn Bod

3.1.1. Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chymryd Rhan

Rhan 1, Pennod 1: Dileu Tlodi Plant

Y prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â'r agenda tlodi plant yw Deddf Plant 2004.

Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd y rhan arweiniol wrth hyrwyddo cydweithredu â phartneriaid 'perthnasol' a chyrff eraill sydd, yn nhyb yr awdurdod lleol, yn briodol er mwyn gwella llesiant plant yn ardal pob awdurdod lleol.

Mae Adran 26 o Ddeddf Plant 2004 a'r rheoliadau a ddaw o dan yr adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid i lunio Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI) sy'n amlinellu eu gweledigaeth strategol ar y cyd ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn ogystal â'u blaenoriaethau a'u targedau.

Mae'r Ddeddf Plant (fel y'i diwygiwyd) yn diffinio partneriaid perthnasol yr awdurdod lleol fel a ganlyn:

- yr awdurdod heddlu a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal;
- y bwrdd prawf lleol;
- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;
- ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- Llywodraeth y Cynulliad i'r graddau y bo'n cyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Yn y diffiniad o blant a phobl ifanc cynhwysir pob un hyd at 19 mlwydd oed, a'r rheini dros 19 oed ac sy'n derbyn gwasanaethau o dan Adrannau 23C i 23D o Ddeddf Plant 1989 (pobl sy'n gadael gofal) neu wasanaethau cymorth ieuenctid o fewn ystyr Adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae Adran 26 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol dalu sylw dyledus i'r canllawiau a roddwyd iddynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ceir y canllawiau cynllunio yng Nghylchlythyr Rhif 31/2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau'. Hefyd, dylid nodi'r hyn sydd yn Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007.

O 2008 ymlaen, mae'n ofynnol i bob ardal awdurdod lleol feddu ar Gynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n ymdrin â'r holl wasanaethau ar gyfer y rhai 0-25 oed a gwasanaethau mamolaeth.

Nid yw deddfwriaeth sy'n debyg i Ddeddf Plant 2004 yn gymwys ar hyn o bryd i'r cyrff sy'n bartneriaid nac i asiantaethau cyhoeddus eraill megis yr

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol neu gyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru.

Rhan 1, Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan

Mae Adran 26 o Ddeddf Plant 2004 a'r rheoliadau o dan yr adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI). Mae Canllawiau'r CPPI 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau' yn nodi y dylai awdurdodau lleol gynllunio gyda'u partneriaid i ddarparu neu sicrhau cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc. Dylai'r adran berthnasol o'r Cynllun, o dan Nod Craidd 4, gynnwys:

- Strategaethau chwarae, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer chwaraeon antur wedi'u staffio;
- Gofal plant y tu allan i oriau ysgol a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau;
- Camau i hyrwyddo gweithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol;
- Llwybrau cerdded a beicio i'r ysgol a mannau chwarae sy'n integreiddio'n briodol ac yn ddiogel gyda dulliau eraill o gludiant.

Bydd y canlyniadau sy'n flaenoriaeth a'r mesurau ar gyfer Nod Craidd 4 yn adlewyrchu'r egwyddor y dylai 'Pob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan mewn chwarae sy'n briodol i'w oed.'

Mae'r cyfarwyddyd a'r canllawiau ar gyfer 'Ymestyn Hawliau - Cynorthwyo Pobl Ifanc o 11 i 25 Oed yng Nghymru' o dan adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithio gyda'u partneriaid i gynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac ym mywyd eu cymunedau.

3.1.2. Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant

Ers i'r angen am reoleiddio gwarchodwyr plant ac eraill sy'n darparu gofal ar gyfer plant dan 8 oed gael ei gyflwyno yn Neddf Plant 1989, mae rheoliadau cynhwysfawr a safonau gofynnol cenedlaethol wedi'u llunio sy'n nodi'r gofynion o ran cofrestru ac arolygu. Cyflwynwyd Rhan 10A o'r Ddeddf Plant gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, a drosglwyddodd y cyfrifoldeb am gofrestru gofal plant o awdurdodau lleol i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2008, yn cynnwys pwerau newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru (a bennir yn Atodlen 5 i'r Ddeddf, sy'n diwygio Deddf Safonau Gofal 2000). Mae'r pwerau newydd canlynol yn gymwys yn achos personau sydd wedi cofrestru gyda Gweinidogion Cymru mewn perthynas â sefydliadau neu asiantaethau o dan Ran II o Ddeddf Safonau Gofal 2000:

- Pŵer newydd i amrywio/gosod neu ddiddymu amodau cofrestru ar frys;

- Pŵer newydd i gyflwyno hysbysiad o gosb lle mae person wedi cyflawni tramgwydd o dan y Ddeddf ;
- Estyniad i'r terfyn amser yn adran 29 o'r Ddeddf ar gyfer dwyn achos am dramgwydd o 6 mis i 12 mis.

Yn ogystal â'r darpariaethau yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Deddf Gorfodaeth a Sancsiynau Rheoleiddiol 2008. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf honno yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno fframwaith estynedig newydd ar gyfer sancsiynau rheoleiddiol drwy alluogi Gweinidogion i roi pwerau sancsiynu sifil newydd ar reoleiddwyr mewn perthynas â thramgwyddau penodol.

Yng Nghymru, mae'r pwerau gorfodi rheoleiddiol newydd hyn yn gymwys i'r holl wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan AGGCC o dan Ran II o Ddeddf Safonau Gofal 2000, gan gynnwys cartrefi plant, cartrefi gofal i oedolion, canolfannau preswyl i deuluoedd, asiantaethau gofal cartref a gofal iechyd annibynnol. I'r asiantaethau a'r lleoliadau hynny sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf Safonau Gofal yn unig y mae'r pwerau gorfodi rheoleiddiol newydd hyn yn gymwys ac nid ydynt yn cwmpasu gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd a reoleiddir o dan Ran 10A o Ddeddf Plant 1989.

Cynigir darparu pŵer newydd i roi hysbysiad o gosb pan fydd person wedi cyflawni tramgwydd ag iddi gosb benodedig o dan y Ddeddf ac estyniad i'r terfyn amser ar gyfer dwyn achos am dramgwydd, o 6 mis i 12 mis. Hefyd, bydd y Mesur yn cynnwys darpariaeth fel bod modd gosod amodau ar bersonau cofrestredig mewn argyfwng lle mae gan Weinidogion Cymru achos rhesymol dros gredu fod plentyn y darperir gwasanaethau gwarchod plant neu ofal dydd ar ei gyfer neu y bwriedir darparu gwasanaethau gwarchod plant neu ofal dydd ar ei gyfer gan berson cofrestredig, yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Ar hyn o bryd Ynad Heddwch yn unig a all osod amodau ar frys.

3.2. Diben y Ddeddfwriaeth Newydd

Mae'r adran hon yn unol â Rheol Sefydlog 23.18(ii) a 23.18(v).

3.2.1. Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chymryd Rhan

Rhan 1, Pennod 1: Dileu Tlodi Plant

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn ceisio dileu tlodi erbyn 2020 a gwella cyfleoedd bywyd plant difreintiedig yng Nghymru. Mae'r Mesur hwn yn adeiladu ar yr ymrwymiad sydd yn y ddogfen *Cymru'n Un* sef, 'Byddwn yn deddfu i sefydlu dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i gyfrannu at ddod â thlodi ymhlith plant i ben ac i arddangos hynny.'

Dileu Tlodi Plant

Ar 11 Mehefin 2009 cyflwynodd Llywodraeth y DU Fesur Tlodi Plant gerbron y Senedd a oedd yn cynnwys y targedau canlynol i fesur llwyddiant ar draws y DU:

- **Lleihau'r gyfran o blant mewn teuluoedd incwm cymharol isel i 5-10 y cant erbyn 2020.** Golyga hyn y bydd y cynnydd yn incwm teuluoedd yn gyson â gweddill cymdeithas. Mae'r ystod hwn gyda'r gorau yn Ewrop ac yn adlewyrchu'r ffaith na fydd yn dechnegol bosibl cyrraedd sero drwy ddull arolwg. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu natur ddeinamig incwm isel.

- **Lleihau'r gyfan o blant mewn amddifadedd perthnasol ynghyd ag incwm isel i lefel sy'n agosáu at sero erbyn 2020**. Golyga hyn safonau byw digonol ar gyfer pob plentyn.

- **Gwneud cynnydd parhaus ar dlodi cyson i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn dioddef tlodi am gyfnodau hir**. Bydd Mesur y DU yn mesur canran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol am dair o bob pedair blynedd. Caiff yr union darged ei osod cyn diwedd 2014 gan nad oes data ar gael ar hyn o bryd.

Felly, caiff y nod o ddileu tlodi ei gyflawni pan fydd llai nag un o bob deg plentyn yn byw mewn cartref incwm isel ar unrhyw adeg; pan na fydd unrhyw blentyn yn dioddef incwm isel a safonau byw sy'n is na lefelau a ddisgwylir; a phan fydd unrhyw incwm isel a brofir yn rhai byr dymor yn unig. O'u rhoi gyda'i gilydd bydd y camau hyn yn sicrhau fod gweithredu ar dlodi plant yn cael effaith sylweddol a pharhaus ar fywydau plant. Byddai hyn yn gwneud safiad y DU ar dlodi plant yn un o'r gorau yn Ewrop.

Caiff unrhyw gyfeiriadau at gynnwys y Mesur Tlodi Plant a'i oblygiadau i Gymru eu gwneud gyda'r ddealltwriaeth nad yw'r Mesur wedi gorffen ei daith drwy broses Seneddol y DU a'i bod yn bosibl y caiff ei ddiwygio ymhellach gan welliannau a wnaed gyda chytundeb y Senedd.

Yr amcanion polisi ar gyfer Rhan 1, Pennod 1 y Mesur yw:

- ei gwneud yn ofynnol fod strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant yn cael eu llunio a'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru, a bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi sy'n cynnwys asesiad o'r graddau y bodlonwyd yr amcanion yn y strategaeth;
- ei gwneud yn ofynnol fod awdurdodau lleol yn llunio strategaethau;
- ei gwneud yn ofynnol fod awdurdodau Cymreig eraill yn llunio strategaethau;
- pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, drwy reoliadau, sicrhau bod gofal plant o ddisgrifiad rhagnodedig ar gael yn ddi-dâl ar gyfer pob plentyn o oed rhagnodedig yn ei ardal (gyda disgresiwn i wneud hyn mewn ardaloedd penodol yn yr awdurdod lleol);
- pŵer i awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaethau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd;
- pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau mathau penodol ar wasanaethau cymorth i rieni a chymorth iechyd (gyda disgresiwn i wneud hyn mewn ardaloedd penodol yn yr awdurdod lleol);
- pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i bob un o'r awdurdodau Cymreig a bennir mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Mesur a gweithredu ar dlodi plant yn fwy cyffredinol;
- pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lle maent yn fodlon ei fod yn methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ran 1.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

Rhan 1, Pennod 1, Adran 1: Y nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant

Nid yw Adran 1(1) yn gosod dyletswyddau. Mae'n nodi gwahanol feysydd o weithgarwch a fynegir fel 'nodau eang' yr ystyrir eu bod yn cyfrannu fwyaf at ddileu tlodi plant, ac mae'n gyfeirbwynt ar gyfer pennu amcanion a chamau gweithredu eraill yn unol â'r adrannau sy'n dilyn.

Yn Is-adran (2) mae disgrifiad o'r nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant ac mae is-adran (8) yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio'r nodau eang.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 2: Strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant

Diben y ddeddfwriaeth newydd yw sicrhau bod gan bob awdurdod perthnasol yng Nghymru ddyletswydd ddeddfwriaethol i lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Bydd y strategaeth yn pennu'r amcanion a ddewiswyd gan yr awdurdod a'r camau i'w cymryd a'r swyddogaethau i'w harfer gan yr awdurdod.

Rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol ddewis ystod o amcanion sy'n berthnasol i bob un o'r nodau eang i ddileu tlodi plant, a rhaid i

awdurdodau Cymreig eraill ddewis amcanion sy'n berthnasol i un neu ragor o'r nodau eang, gan ddibynnu ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Rhaid i Weinidogion Cymru ddewis hefyd amcanion sy'n berthnasol i'w pwerau i ddarparu cyllid i unrhyw berson sy'n hybu'r nodau eang i ddileu tlodi plant.

Caiff Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, bennu amcanion ar gyfer awdurdod Cymreig os yw'r amcanion yn berthnasol i un neu ragor o'r nodau eang a gall yr awdurdod Cymreig fynd i'r afael â'r amcan wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Rhaid i awdurdod Cymreig gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion yn ei strategaeth.

Yn Adran 5a mae rhestr o awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 3: Strategaethau a lunnir gan Weinidogion Cymru

Bwriedir ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn llunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru yn unol ag Adran 2. Bydd y strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewisir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phob un o'r nodau eang a nodir yn Adran 1. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu strategaeth gyntaf yn 2010 ac adolygu'r strategaeth yn gyson, a'i hail-lunio neu ei diwygio o dro i dro.

Cyn y gall Gweinidogion Cymru lunio, ail-lunio neu ddiwygio eu strategaeth, rhaid iddynt ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a'r cyfryw bersonau eraill ag sy'n briodol yn eu barn hwy.

Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth pan fyddant yn ei llunio neu'n ei hail-lunio. Os byddant yn adolygu'r strategaeth, rhaid iddynt gyhoeddi naill ai'r diwygiadau neu'r strategaeth fel y'i diwygiwyd.

Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi strategaeth neu ddiwygiadau, rhaid iddynt osod copi o'r strategaeth neu'r diwygiadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn 2013, ac ym mhob trydedd flwyddyn ar ôl 2013, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion yn y strategaeth. Os na chyflawnwyd un o'r amcanion, rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcan hwnnw. Rhaid gosod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 4: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau lleol

Bwriedir y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru yn unol ag Adran 2. Bydd y strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewisir gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â phob un o'r nodau eang yn Adran 1.

Bwriedir y dylai'r amcanion y bydd awdurdod lleol yn eu pennu mewn perthynas â chymorth rhianta (Adran 1(2)(f) a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd (Adran 1(2)(g)) a chymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a'r gymuned yn ogystal â helpu pobl ifanc fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd i gael cyflogaeth (Adran 1(2)(k-m)) gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy grant penodol Cymorth a chaiff canllawiau eu llunio i'r perwyl hwn. Mae'r ddarpariaeth hon yn un o'r dulliau a ddefnyddir i gynnal lefel gyfredol y ddarpariaeth mewn perthynas â gweithgareddau Cymorth. Ymdrinnir ag eraill mewn perthynas â Rhan 1, Adrannau 7-9 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Bydd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru o dan Adran 2(1) wedi'i chyflawni pan fydd yr awdurdod yn cyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan Adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

Nid oes rheidrwydd i gyhoeddi ar wahân o dan Adran 2 ac yn y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 5: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau Cymreig eraill

Bwriedir y bydd yn ofynnol i awdurdodau Cymreig lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru yn unol ag Adran 2. Bydd y strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewisir gan yr awdurdod Cymreig mewn perthynas â phob un o'r nodau eang yn Adran 1. Yn adran 5a mae rhestr o awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon, ac eithrio Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol.

Gwneir darpariaeth fydd yn golygu fod y ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth wedi'i chyflawni os yw'r strategaeth yn rhan annatod o Gynllun Plant a Phobl Ifanc.

Mae'n ofynnol i awdurdodau Cymreig nad ydynt wedi ymrwymo mewn trefniant ag awdurdodau lleol o dan Adran 25 o Ddeddf Plant 2004, lunio a chyhoeddi eu cynlluniau eu hunain.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 5A: Awdurdodau Cymreig

Ceir diffiniad o awdurdodau Cymreig yn Adran 5A, ac mae hefyd yn nodi'r cyrff cyhoeddus hynny sydd â dyletswydd o dan Adran 2 o'r Mesur. Mae darpariaeth i'r rhestr gael ei diwygio a darpariaeth i ymgynghori â chorff cyhoeddus yr effeithir arno cyn i'r rhestr gael ei diwygio.

Rhan 1, Pennod 1, Adrannau 6-9

Mae'r darpariaethau hyn yn gosod y gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd drwy raglen grant Dechrau'n Deg mewn cyd-destun statudol. Darperir yn Adrannau 7-9 hefyd ddau o'r dulliau yn y Mesur hwn y gall awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru eu defnyddio yng nghyd-destun y gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd drwy grant penodol Cymorth, yn benodol bwerau awdurdodau lleol i sicrhau y darperir gwasanaethau a phwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y darperir y gwasanaethau hynny.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 6: Dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael yn ddi-dâl

Caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau yn yr adran hon i wneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant di-dâl i blant rhwng dwy a thair oed mewn ardaloedd penodol.

Yn y ddogfen 'Cymru'n Un' mae ymrwymiad i fynd ati i ddarparu gofal plant llawn amser o'r radd flaenaf ar gyfer plant dwy oed mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf am y gofal hwnnw. Ar hyn o bryd, darperir yr ymrwymiad hwn drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg, ac mae'r lleoedd gofal plant a ddarperir ar hyn o bryd mewn ardaloedd difreintiedig penodol yn cael eu hategu gan gymorth ymwelwyr iechyd sydd â llwyth gwaith isel, mynediad at raglenni rhianta a werthuswyd yn dda a rhaglenni iaith a chwarae.

Er nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i newid trefniadau cyllido'r rhaglen hon, mae pwerau newydd Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, i awdurdodau lleol sicrhau bod gofal plant ar gael yn ddi-dâl yn dangos ymrwymiad hirdymor Gweinidogion Cymru i'r rhaglen sy'n cefnogi'r ymrwymiad yn Cymru'n Un i ddarparu gofal yn ddi-dâl i blant dwy flwydd oed mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf am y gofal hwnnw.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

Mae'r adran hon yn caniatáu rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y darperir gofal plant di-dâl mewn ardaloedd penodol. Yr ysgogiad ar gyfer y ddyletswydd fydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a fyddai'n pennu'r math o ddarpariaeth i'w sicrhau, am ba hyd y gwneir y ddarpariaeth, pwy fyddai'n gymwys amdani a'r ardal lle cynigir darpariaeth o'r fath. Ni chaiff rheoliadau o'r fath eu gwneud oni wneir penderfyniad i symud y cyllid sydd ar hyn o bryd yn gysylltiedig â Dechrau'n Deg i'r Grant Cynnal Refeniw. Byddai'r rheoliadau a'r canllawiau hefyd yn lliwio'r math o ddarpariaeth sydd i'w chynnig. Bydd pob is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Ni fydd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal plant o ddisgrifiad rhagnodedig yn ddi-dâl mewn ardaloedd penodol yn rhoi unrhyw feichiau newydd ar awdurdodau lleol heblaw'r rheini sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r rhaglen Dechrau'n Deg ar y lefelau cyfredol.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 7: Gwasanaethau cymorth i rieni

Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol sicrhau y darperir gwasanaethau neu ddarparu gwasanaethau a ariennir ar hyn o bryd gan raglenni grant Cymorth a Dechrau'n Deg, mewn perthynas â rhianta.

Mae gweithgareddau rhianta Dechrau'n Deg yn cydnabod mai'r rhieni, ym mhob achos o'r bron, yw'r dylanwad allanol cyntaf a phwysicaf ar y ffordd y mae babanod a phlant bach yn datblygu. Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n cael perthynas gynnes, sicr a chariadus gydag o leiaf un prif ofalwr yn fwy tebygol o ffynnu a bod yn gryf yn wyneb unrhyw anawsterau yn y dyfodol, na'r rhai sydd heb berthynas o'r fath. Mae'r modd y mae rhieni ac eraill sy'n rhoi gofal yn trin plant, yn cynnal perthynas â hwy ac yn ymateb i'w hanghenion corfforol ac emosiynol yn medru dylanwadu ar eu llesiant a'u hymddygiad, a bydd y dylanwad hwnnw'n parhau drwy eu plentyndod, drwy gyfnod y glasoed a phan fyddant yn oedolion.

Nod Thema A Cymorth - Cymorth i deuluoedd - yw sicrhau bod teuluoedd yn medru cael gafael ar gymorth a fydd yn meithrin perthynas gadarnhaol rhwng rhieni a phlant. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Nodau Craidd er mwyn: 'Sicrhau bod pob plentyn yn cael dechrau da mewn bywyd a'r sylfeini gorau posibl ar gyfer ei dwf a'r datblygiad yn y dyfodol', a; 'Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio'.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol ddarparu neu sicrhau gwasanaethau cymorth i rieni. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch arfer y swyddogaeth hon. Gosodwyd y pwerau hyn yng nghyd-destun Rhan 1 er mwyn pwysleisio y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu swyddogaethau yng nghyd-destun eu dyletswydd i roi cyfrif am sut y maent wedi cyflawni eu hamcanion o ran tlodi plant.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 8: Gwasanaethau cymorth iechyd

Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol sicrhau neu ddarparu gwasanaethau a ariennir ar hyn o bryd gan yr elfennau hynny o raglenni grant Cymorth a Dechrau'n Deg sy'n ymdrin â chymorth iechyd a gwasanaethau ataliol.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cydnabod y gall cynyddu'r cymorth ymwelwyr iechyd ddod â manteision i deuluoedd sydd angen y cymorth hwnnw. Mae crynhoad uwch o adnoddau sydd wedi'u targedu at blant agored i niwed a'u teuluoedd yn helpu yn y frwydr yn erbyn anfantais gymdeithasol ac economaidd.

Nod Thema B Cymorth - Hybu Iechyd - yw hybu datblygiad iach plant (gan gynnwys cyn iddynt gael eu geni) a phobl ifanc drwy ddarparu cymorth iechyd cymunedol mwy dwys neu chwalu'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cael gwasanaethau iechyd prif ffrwd. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r Nod Craidd, sef 'sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio'.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol sicrhau neu ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd, a chaiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â hwy. Gosodwyd y pwerau hyn yng nghyd-destun Rhan 1 er mwyn pwysleisio y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu swyddogaethau yng nghyd-destun eu dyletswydd i roi cyfrif am sut y maent wedi cyflawni eu hamcanion o ran tlodi plant.

Rhan 1, Pennod 1, Adran 9: Rheoliadau ynghylch gwasanaethau i fynd i'r afael â thlodi plant

Mae'r adran hon yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, drwy reoliadau, sicrhau bod mathau penodol ar wasanaethau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd ar gael yn ddi-dâl mewn ardaloedd a bennir naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdodau lleol yn unol â chanllawiau.

Mae hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, drwy reoliadau, sicrhau bod y cyfryw wasanaethau ar gael yn ddi-dâl mewn ardaloedd a bennir naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdodau lleol yn unol â rheoliadau a chanllawiau.

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu ardaloedd lle y dylid targedu gwasanaethau o dan y swyddogaethau newydd. Caiff y rheoliadau bennu fod y darpariaethau i'w cymhwyso i ran neu rannau o ardal awdurdod lleol, neu cânt ddarparu fod yr awdurdod lleol ei hun yn pennu ardaloedd.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

Caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau a roddir iddynt yn yr Adran hon i wneud rheoliadau ac i gyhoeddi canllawiau a fydd yn adlewyrchu'r gweithgarwch a gyflawnir ar hyn o bryd yn y cyd-destun hwn o dan grant penodol Dechrau'n Deg. Gallant hefyd eu defnyddio i wneud rheoliadau mewn perthynas â gweithgareddau'n gysylltiedig â rhaglen Cymorth ond nid dyma'r bwriad pennaf.

Bwriedir y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau hyn i bennu ardaloedd lle caiff y dyletswyddau yn adran 6 a 9(1)(a) a (b) (rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gofal plant ar gael yn ddi-dâl; gwasanaethau cymorth i rieni; gwasanaethau cymorth iechyd) eu cyflawni. Mae darpariaeth

hefyd i wneud rheoliadau fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu ardaloedd targed, ac os felly caiff canllawiau eu cyhoeddi ynghylch y materion y dylent eu hystyried wrth wneud hynny. Yng nghyd-destun gweithgarwch Dechrau'n Deg, yn enwedig, mae'r penderfyniadau ar y ffordd ymlaen o ran targedu yn destun adolygiad yng ngoleuni canlyniad yr ymarfer ymgynghori hwn, y gwerthusiad sydd ar y gweill o Cymorth a Dechrau'n Deg, a thrafodaethau gyda phartneriaid lleol.

Nid yw'n fwriad defnyddio'r pŵer i roi unrhyw feichiau newydd ar awdurdodau lleol heblaw'r rheini sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r elfennau perthnasol o raglenni Cymorth a Dechrau'n Deg.

Rhan 1, Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan

Rhan 1, Pennod 2, Adran 9A : Dyletswyddau awdurdod lleol mewn perthynas â gweithgareddau chwarae i blant

Mae'r dyletswyddau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn enwedig Erthygl 31.1. sy'n datgan fel a ganlyn: "State Parties recognise the right of the child to rest and leisure, to engage in play and recreational activities appropriate to the age of the child and to participate freely in cultural life and the arts." a hefyd Erthygl 31.2 sy'n datgan fel a ganlyn "State Parties shall respect and promote the right of the child to participate fully in cultural and artistic life and shall encourage the provision of appropriate and equal opportunities for cultural, artistic, recreational and leisure activity". Caiff yr ymrwymiad hwn ei adlewyrchu mewn gweithgareddau a wneir yng nghyd-destun Thema Cymorth sef Chwarae, Hamdden a Chyfoethogi ac yn nogfen Llywodraeth y Cynulliad sef *Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae.*

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

Mae'r dyletswyddau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardal yn unol â rheoliadau a chanllawiau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i sicrhau mynediad digonol i gyfleoedd chwarae ar gyfer plant a chynnwys hynny yn yr asesiad.

Caiff y rheoliadau ddarparu ynghylch y dyddiad erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi ei asesiad cyntaf o ddigonolrwydd, a chânt hefyd ddarparu ar gyfer adolygu a chyhoeddi asesiadau. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd hon. Bwriedir y bydd ystod y canllawiau hyn yn cynnwys yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, Canllawiau Cymorth a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer y ddarpariaeth chwarae maes o law.

Rhan 1, Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan

Rhan 1, Pennod 2, Adran 9B: Plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod lleol

Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn enwedig Erthygl 12.1. sy'n datgan fel a ganlyn "State Parties shall assure to the child which is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child, the views of the child being given due weight in accordance with the age and maturity of the child".

Mae'r ddyletswydd yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod sy'n effeithio arnynt. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi a diweddaru'r wybodaeth am eu trefniadau i gymryd rhan, sy'n adlewyrchu'r Strategaethau Cyfranogiad Lleol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda grant Cymorth.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

Yr effaith y bwriedir i'r adran hon ei chael yw y bydd fframwaith statudol ar gyfer parhau â'r Strategaethau Cyfranogiad Lleol a ddatblygwyd gyda chyllid Cymorth, yn ogystal â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Bwriedir atgyfnerthu hyn mewn canllawiau a gyhoeddir mewn perthynas â'r swyddogaeth newydd hon.

Rhan 1, Pennod 3: Arolygu, Canllawiau a Chyfarwyddiadau

Adrannau 9C- 9F: Arolygu arfer swyddogaethau gan awdurdod lleol yn adrannau 6 - 9B

Mae Adran 9C yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer arolygu'r modd y caiff y swyddogaethau yn adran 6-9B eu harfer gan awdurdod lleol ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. Caiff y rheoliadau ddarparu y bydd yr arolygiadau yn cael eu trefnu naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan Estyn neu gan unrhyw berson arall o dan drefniadau a wnaed gyda Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau ddarparu at ddibenion cyfraith difenwi bod unrhyw adroddiad a gyhoeddir o dan y rheoliadau yn 'freintiedig' oni ddangosir bod y cyhoeddiad wedi'i wneud yn faleisus.

Mae Adran 9D yn darparu ar gyfer pwerau mynediad ar unrhyw adeg resymol i unrhyw fangre sydd ym mherchenogaeth neu o dan reolaeth awdurdod lleol neu fangre a ddefnyddir gan berson arall mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau neu gyfleusterau o dan drefniadau gydag awdurdod lleol sy'n arfer y swyddogaethau perthnasol o dan y rhan hon.

Mae Adran 9E yn pennu pwerau arolygu person sy'n mynd i mewn i fangre at y diben hwnnw. Mae'n cynnwys pwerau i gymryd a symud oddi yno ddogfennau ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol i arfer y swyddogaethau dan sylw. Mae hefyd yn cynwys pwerau i gael mynediad at gofnodion neu ddogfennau a gedwir ar gyfrifiadur. Mae unrhyw berson sy'n rhwystro arolygydd rhag arfer pwerau mynediad neu bwerau arolygu neu sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad gan arolygydd yn euog o dramgwydd.

Mae Adran 9F yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu unrhyw berson y mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo mewn trefniadau gydag ef wrth iddo arfer y swyddogaethau o dan adrannau 6-9B roi iddynt unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r swyddogaethau. Mae'r pŵer yn cynnwys i unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddibenion eu swyddogaethau o dan y Rhan hon.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau hyn ei chael yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol a chymesur mewn perthynas ag arfer dyletswyddau gan awdurdodau lleol yn achos:

- lleoedd gofal plant di-dâl
- gwasanaethau cymorth i rieni
- gwasanaethau cymorth iechyd
- cyfleoedd chwarae digonol
- trefniadau mewn perthynas â chymryd rhan

Rhan 1, Adran 10: Canllawiau

Bwriedir y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol am y camau i'w cymryd i hybu'r nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant ac arfer swyddogaethau o dan adrannau 1 i 9B.

Rhan 1, Adran 11: Cyfarwyddiadau

Bwriedir y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod Cymreig i gymryd unrhyw gam i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adrannau perthnasol os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni fod yr awdurdod Cymreig yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd o dan adrannau 2, 6, 9, 9A a 9B, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â hi.

3.2.1 Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant

Diben Rhan 2 y Mesur yw diddymu ac ailddeddfu Rhan 10A o Ddeddf Plant 1989 ynghyd ag Atodlen 9A er mwyn gwella cydlyniant ac eglurder, a hefyd gwneud darpariaeth newydd i roi gwell pwerau rheoleiddio a gorfodi i AGGCC.

Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau o dan Ran 2 y Mesur arfaethedig yn dechnegol eu natur ac yn adlewyrchu'n agos y ddarpariaeth gyfredol a wneir o

dan y ddeddfwriaeth ar gyfer gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd a gofrestrwyd yn unol â Deddf Plant 1989. Ac eithrio'r darpariaethau gorfodi uwch, mae'r Mesur yn ailddatgan ac yn addasu'r gyfraith mewn modd mwy cydlynus ac nid yw'n rhoi unrhyw feichiau sylweddol ar warchodwyr plant na darparwyr.

Mewn perthynas ag adran 13 o'r Mesur, mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud addasiadau i'r cynlluniau deddfwriaethol ar gyfer cofrestru. Mae disgresiwn i gadw'r diffiniadau cyfredol o warchod plant a gofal dydd yn Rhan 10A o Ddeddf Plant 1989, neu i wneud newidiadau drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y pŵer i wneud gorchmynion, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae hefyd yn hyrwyddo nod hirdymor Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cydgrynhoi'r gyfraith sy'n ymwneud â phlant ac mae'n manteisio ar y cyfle i ddefnyddio Mesur priodol i gyflawni'r nodau ehangach hyn.

Effaith bellach Rhan 2 yw sicrhau bod yr ystod o opsiynau gorfodi rheoleiddiol ar gael i'r holl sefydliadau ac asiantaethau a reoleiddir gan Weinidogion Cymru (drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru):

- Adran 29 - Amddiffyn plant mewn argyfwng: newidiadau i amodau - caiff AGGCC gyfle i amrywio neu dynnu i ffwrdd amodau presennol, neu ychwanegu amodau newydd ar frys lle mae gan Weinidogion Cymru achos rhesymol dros gredu fod plentyn y darperir gwasanaethau gwarchod plant neu ofal dydd ar ei gyfer neu y bwriedir darparu gwasanaethau gwarchod plant neu ofal dydd ar ei gyfer gan y person cofrestredig hwnnw, yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Mae darpariaeth ar gyfer apelio yn erbyn cam o'r fath i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.
- Adran 39 - Hysbysiadau o gosb. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer rhoi hysbysiadau cosb benodedig ar bersonau cofrestredig pan fydd y rheolydd yn fodlon fod person wedi cyflawni tramgwydd ac iddi gosb benodol. Mae'r cynnig i roi hysbysiad o gosb yn gyfle i berson cofrestredig dalu cosb lle penderfynir ei fod wedi mynd yn groes i'r hyn sy'n ofynnol, a thrwy hynny osgoi achosion llys hirfaith o bosibl. Bydd yr opsiwn rheoleiddiol newydd hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym ac yn gymesur i dramgwydd o dan y rheoliadau, a fydd hefyd yn lleihau'r baich ar y llys troseddol o ran mân droseddau.
- Adran 41 - Terfyn amser ar gyfer achosion troseddol. Bydd ymestyn yr amser ar gyfer dwyn achos am dramgwydd o 6 mis i 12 mis yn helpu Gweinidogion Cymru yn eu swyddogaethau erlyn drwy roi mwy o amser iddynt ymchwilio i dramgwyddau posibl.

Bydd y darpariaethau uchod yn sicrhau bod arferion gorfodi AGGCC yn gyson ar draws pob lleoliad ac asiantaeth a reoleiddir.

Gwnaed diwygiadau eraill i:

- Adran 24 - Rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau. Mae'r adran hon yn mewnosod darpariaeth newydd yn is-adran (2)(f) y caiff y rheoliadau ymdrin â'r gweithdrefnau i drafod cwynion ac yn (2)(g) y

caiff y rheoliadau ymdrin â goruchwylio staff. Mae hyn yn rhoi arferion da ar dir ffurfiol a bydd, er enghraifft, yn helpu i fynd i'r afael â phryder AGGCC na ddylai cynorthwywyr gwarchod plant gael eu gadael wrthynt eu hunain i ofalu am blant. Caiff mwy o fanylion am hyn eu cynnwys yn y rheoliadau ac yn yr ymgynghori fydd yn dilyn y rheoliadau hynny.

- Adran 25 Diddymu cofrestriad - mewnosodir darpariaeth newydd yn is-adran (5) y caiff Gweinidogion Cymru ragnodi amgylchiadau eraill pan geir diddymu cofrestriad person. Bydd hyn yn rhoi pŵer i AGGCC ddiddymu cofrestriad person os daw i'r amlwg er enghraifft fod y person hwnnw wedi'i gofrestru ond nad yw wedi darparu gwasanaethau gwarchod plant am gyfnod estynedig.
- Adran 26 Atal cofrestriad – mewnosodir darpariaeth newydd yn is-adran (2) (c) y caiff rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch atal cofrestriad ar gais y person cofrestredig. Caiff hyn gynnwys atal cofrestriad person yn wirfoddol, er enghraifft i gael seibiant gyrfa, i fynd ar absenoldeb mamolaeth etc.
- Adran 33 Canlyniadau anghymhwyso. Yn adran 33(2) caiff darparwyr gofal dydd eu gwahardd rhag cyflogi person a anghymhwyswyd (i ddarparu gofal dydd neu i fod yn warchodwr plant) mewn perthynas â darparu gofal dydd. Mae'r Mesur yn ymestyn y gwaharddiad i warchodwyr plant i'w gwahardd rhag cyflogi person a anghymhwyswyd i'w cynorthwyo. Mae hyn yn cywiro hepgoriad yn y ddarpariaeth wreiddiol yn adran 4(5) o "Atodlen 9A Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant" o Ddeddf Plant 1989.
- Adran 48 Marwolaeth person cofrestredig. Mae adran 35 o'r Ddeddf Safonau Gofal yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i barhau â gwasanaeth mewn sefyllfa lle mae'r unig berson cofrestredig wedi marw. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth o'r fath yn Rhan 10A o'r Ddeddf Plant. Bydd y gofyniad newydd yn mynd i'r afael â hyn mewn perthynas â gofal dydd.

3.2.2. Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Yn Rhan 3 o'r Mesur mae fframwaith cyfreithiol i gyflwyno timau integredig cymorth i deuluoedd newydd er mwyn cryfhau'r cymorth i blant agored i niwed a'u teuluoedd. Datblygwyd y polisi hwn ar sail toreth o dystiolaeth a ddeilliodd o waith ymchwil academaidd a chan waith ymarferol. Mae'n ymateb i'r pryderon nad yw'r gwasanaethau'n diwallu'n ddigonol anghenion rhai plant o deuluoedd sydd â phroblemau cymhleth fel camddefnyddio sylweddau, a/neu broblemau neu salwch iechyd meddwl, anableddau dysgu a cham-drin domestig. Mae'n cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Cymru'n Un i ddiwygio'r gyfraith i wella'r gwasanaethau a gyflenwir a chanlyniadau ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd. Gwneir hyn drwy wneud trefniadau ar y cyd i ailwampio'r gwasanaethau fel bod y cymorth yn cael ei dargedu'n fwy effeithiol ac yn cael ei ddarparu gan dimau amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol medrus dros ben er mwyn cael canlyniadau gwell ar gyfer plant ac oedolion fel y gallant gyd-fyw'n ddiogel fel uned deuluol.

Mae'r cynnydd cyson yn y boblogaeth a chanlyniadau gwael ar gyfer plant mewn gofal yn peri cryn bryder i'r Llywodraeth yn genedlaethol ac yn lleol. Yn yr un modd, mae'n pryderu am les a gofal cymdeithasol ehangach plant a theuluoedd mewn angen. Ers 2001 bu cynnydd o 34% yn nifer y bobl mewn gofal yng Nghymru o gymharu â 6% yn Lloegr, a bu cynnydd o 89% yng nghost gofal yng Nghymru o gymharu â chynnydd o 70% yng nghost y gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae Cymru ymhlith y 5 gwlad uchaf o ran ei chyfradd o blant mewn gofal, ac mae'n gwario llai y pen ar wasanaethau cymorth i deuluoedd. Awgryma hyn fod Cymru wedi canolbwyntio ar glustnodi a rheoli risg yn hytrach nag ar ganfod ffactorau amddiffyn a allai atal problemau rhag datblygu. Dywed Prif Arolygydd yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol fod amrywiaeth eang o ffactorau cymhleth yn golygu ein bod yn y sefyllfa hon.

Mewn oddeutu traean o'r holl achosion gwaith cymdeithasol sy'n ymwneud â gofal plant mae'r rhieni yn camddefnyddio sylweddau. Ond gall fod problemau eraill hefyd fel iechyd meddwl, anableddau dysgu a cham-drin domestig. Yn ôl y dystiolaeth, awgrymir fod rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau yn achosi problemau i tua 60% o blant sy'n destun gorchmynion gofal. Dyma rieni sydd â phroblemau personol difrifol yn ceisio ymdopi â phlant, sydd efallai â phroblemau eu hunain, mewn sefyllfaoedd cymdeithasol sy'n gwaethygu'r problemau hynny. Dengys y dystiolaeth hefyd nad yw'r rhieni hyn yn gofyn am help a'u bod yn llai tebygol o ymwneud â rhaglenni fel Dechrau'n Deg neu Cymorth sydd wedi'u hanelu at grwpiau o deuluoedd mewn ardaloedd penodol ac nid at deuluoedd ag anghenion penodol.

Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Prif nodau'r Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd yw:

- Gwella ansawdd y gwasanaeth (a'r canlyniadau) y bydd plant a theuluoedd yn ei brofi pan fyddant yn cwrdd â gweithwyr proffesiynol. Mae modd cyflawni hyn drwy asesiadau o ansawdd ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir gan staff medrus iawn drwy hyfforddiant pwrpasol, cymorth a goruchwyliaeth ac a reolir drwy gyfrwng systemau sy'n caniatáu ar gyfer trosglwyddo sgiliau.

- ei gwneud yn ofynnol bod timau amlddisgyblaethol yn cael eu sefydlu i: fod yn gyfrwng i newid y system yn ymarferol yn ogystal â'r diwylliant sefydliadol; chwalu'r rhwystrau rhwng asiantaethau; a chreu a meithrin y berthynas rhwng asiantaethau ar draws gwasanaethau i blant ac oedolion a disgyblaethau proffesiynol.

Bydd y Timau Gwasanaethau Integredig yn cyflawni nifer o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gysylltiedig â'i gilydd, gan gynnwys: Bywydau Bodlon, Niwed Cudd, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar Iechyd Meddwl ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth ac mae'n allweddol yn natblygiad y Strategaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Agored i Niwed. Hefyd, bydd y Timau Gwasanaethau Integredig yn gwneud y cysylltiadau ac yn hyrwyddo

mynediad mwy eang at y gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd a chymunedau difreintiedig gan gynnwys: Dechrau'n Deg, Cymorth, Cymunedau yn Gyntaf a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol etc. Hefyd, bydd y Timau Gwasanaethau Integredig yn cysylltu â'r cynlluniau perthnasol ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a'r Cynllun Cymunedol.

Bwriedir y bydd y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gael i ddechrau ar gyfer rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau ac i blant sydd mewn angen neu mewn perygl gan gynnwys aduno plant sy'n derbyn gofal yn wirfoddol gan awdurdod lleol. Caiff y Timau ICID eu cyflwyno mewn tair ardal arloesi yng Nghymru gan ddechrau yn 2010. Bydd y paratoadau yn 2009 ar gyfer cyflawni yn cynnwys: sefydlu'r seilwaith, dewis yr ardaloedd arloesi, recriwtio, contractio a hyfforddi staff TICID mewn amryfal dechnegau. Caiff effeithiolrwydd y TICID ei bwyso a'i fesur yn llym o ran y manteision a'r canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd a gwerth gorau. Os bydd y gwerthusiad yn awgrymu fod y TICID wedi gwella'r gwasanaethau ar gyfer teuluoedd ag anghenion cymhleth, drwy ddarparu gwasanaethau holistaidd pwrpasol, bydd yn ofynnol sefydlu TICID drwy Gymru gyfan. Y nod hirdymor yw ymestyn y rhai sydd â'r hawl i ddefnyddio'r TICID i grwpiau ehangach a ragnodir yn y Mesur neu mewn rheoliadau a wnaed yn unol â'r Mesur. I wneud hyn bydd angen digon o amser i feithrin gallu ac arbenigedd ar y rhychwant o ymyriadau mwyaf effeithiol i'w cymhwyso mewn amgylchiadau gwahanol, er enghraifft cam-drin domestig.

3.2.3. Rhan 4: Amrywiol a Chyffredinol

Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaeth ehangach am wasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd. Rhaid i awdurdodau lleol ddynodi swyddog i fod yn Swyddog Safonau Gwaith Cymdeithasol Teuluol yn yr awdurdod.

Yr effaith y bwriedir ei chael yw sicrhau fod hyrwyddwr arferion da ym mhob awdurdod lleol a all herio ymarferwyr a dangos arweiniad o ran sicrhau mai'r ymyriadau a ddefnyddir yw'r rhai mwyaf effeithiol.

Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion plant wrth asesu anghenion gofal cymunedol oedolion sy'n rhieni neu oedolion sydd â chyfrifoldebau rhianta. Yna rhaid i'r awdurdod lleol dalu sylw i'r ystyriaeth honno mewn unrhyw benderfyniad a wneir ganddo am ddarparu gwasanaethau gofal cymunedol i'r oedolyn dan sylw.

Yn yr un modd mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar gyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol wneud y trefniadau hynny y mae'n barnu sy'n gweddu i sicrhau, lle darperir gwasanaethau iechyd penodedig, y rhoddir ystyriaeth i effaith unrhyw anghenion iechyd sydd gan yr oedolyn ar unrhyw blentyn y mae'r person hwnnw yn gofalu amdano ac a oes angen ei atgyfeirio i wasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol ai peidio.

Caiff Gweinidogion Cymru bennu'r gwasanaethau iechyd penodol lle byddai Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff gwasanaethau iechyd arall dan ddyletswydd i wneud trefniadau amgenach i sicrhau fod ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth i effaith unrhyw anghenion iechyd sydd gan oedolyn ar unrhyw blentyn y mae'r person hwnnw yn gofalu amdano ac a oes angen ei atgyfeirio i wasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol ai peidio.

Yr effaith y bwriedir ei chael yw bod ymarferwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hysgogi i wneud cysylltiad rhwng anghenion oedolion ac effaith yr anghenion hynny ar allu'r oedolion i rianta. Bydd yn ofynnol i ymarferwyr ystyried anghenion y teulu cyfan; y rhieni a'r plentyn i sicrhau yr ymdrinnir â hwy'n holistaidd.

Drwy bontio gwasanaethau plant ac oedolion yn gyfreithiol ac yn ymarferol bydd modd adnabod problemau sy'n datblygu mewn teuluoedd ag anghenion cymhleth yn gynt er mwyn gwella diogelwch a lles plant.

Swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r TICID ac yn Rhan 4 yw swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

4. Ymgynghori

Mae'r adran hon yn unol â Rheol Sefydlog 23.18(iv).

Ymgynghorwyd ar y cynigion polisi yn y Mesur fel dwy ddogfen ymgynghori ar wahân. Cyn y broses ymgynghori ffurfiol yn 2008, cafodd y rhanddeiliaid allweddol eu cynnwys wrth ddatblygu'r polisi.

Ymdriniwyd â Rhan 1 (Tlodi Plant, Chwarae a Chymryd Rhan) o'r Mesur drwy'r ddogfen ymgynghori 'Gweithredu ar Dlodi Plant' a ddaeth i ben ar 30 Medi 2008. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori 'Gweithredu ar Dlodi Plant' ar y wefan:

http://wales.gov.uk/consultations/closedconsultations/childrenyoungpeople/takingaction/?lang=en
http://wales.gov.uk/consultations/closedconsultations/childrenyoungpeople/takingaction/?skip=1&lang=cy

Ymdriniwyd â Rhan 2 a Rhan 3 o'r Mesur drwy'r ddogfen ymgynghori 'Teuluoedd Cryfach – Dull newydd o ddarparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd' a ddaeth i ben ar 3 Hydref 2008 a gellir gweld y ddogfen ymgynghori 'Teuluoedd Cryfach – Dull newydd o ddarparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd' ar y wefan:

http://wales.gov.uk/consultations/closedconsultations/childrenyoungpeople/strongerfamilies/?lang=cy

4.1. Rhan 1: Tlodi Plant - Gweithredu ar Dlodi Plant

Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfarfod â'r prif randdeiliaid i archwilio effaith cyflwyno dyletswydd o ran tlodi plant ar asiantaethau cyhoeddus. Ymhlith y rhanddeiliaid hyn roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a chynrychiolwyr ymddiriedolaethau'r GIG.

Prif fyrdwn y trafodaethau oedd gwerth deddfwriaeth i roi dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i gyfrannu at ddileu tlodi plant ac i arddangos hynny. Y trafodaethau hyn fu'r sail i ddatblygu cynigion polisi ar gyfer y Mesur.

Ymgynghorwyd ynghylch y cynigion polisi ar gyfer tair agwedd ar y Mesur yn y ddogfen 'Gweithredu ar Dlodi Plant' yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y tair agwedd ganlynol yn berthnasol i Ran 1 o'r Mesur:

- Dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i gyfrannu at ddileu tlodi plant ac i arddangos hynny;
- Dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu lleoedd gofal plant di-dâl a gwasanaethau eraill ar gyfer y blynyddoedd cynnar mewn mannau penodol;
- Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a fydd yn cyfateb i'r canllawiau ar gyfer darparu'r grant Cymorth.

Roedd y ddogfen hefyd yn cynnwys cynnig bod cytundeb anstatudol ar dlodi plant yn cael ei drefnu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau cyhoeddus.

Dechreuodd yr ymgynghori ar 11 Mehefin 2008 a daeth i ben ar 30 Medi 2008, ac roedd yn cynnwys dau ddigwyddiad ymgynghori yn Llandrindod. Ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yr oedd: awdurdodau lleol, partneriaethau plant a phobl ifanc; Comisiynydd Plant Cymru; fforymau ieuenctid; awdurdodau heddlu a heddluoedd, awdurdodau tân ac achub; y trydydd sector, byrddau iechyd lleol; ymddiriedolaethau'r GIG; Parciau Cenedlaethol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Cafwyd 65 o ymatebion gan ystod eang o randdeiliaid a chyrff perthnasol eraill, a dadansoddwyd yr ymatebion hynny. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y wefan:

Crynodeb o'r ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori ar Dlodi Plant - Saesneg;
http://wales.gov.uk/consultations/closedconsultations/childrenyoungpeople/takingaction/?lang=en

Crynodeb o'r ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori ar Dlodi Plant - Cymraeg – :
http://wales.gov.uk/consultations/closedconsultations/childrenyoungpeople/takingaction/?skip=1&lang=cy

Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynigion a nodwyd yn y papur ymgynghori ar roi dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus o ran tlodi plant ac roeddynt hefyd yn cytuno ei bod hi'n briodol creu deddfwriaeth. Cafwyd llawer o gefnogaeth hefyd i'r pwerau wrth gefn o fewn y cynigion polisi. Roedd y cyrff iechyd a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r fframwaith a gynigiwyd ar gyfer y ddyletswydd o ran tlodi plant. Roedd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru hefyd yn cefnogi'r ddyletswydd ar ran y gwasanaethau heddlu yng Nghymru, a hefyd y cymdeithasau chwarae a sefydliadau yn y trydydd sector. Roedd y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a oedd wedi ymateb hefyd o blaid rhoi'r ddyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus. Roedd rhai o'r ymatebwyr uchod, gan gynnwys CLILC, wedi gofyn am sicrwydd na fyddai'r ddyletswydd hon yn creu baich ariannol ychwanegol ar y Partneriaethau o ystyried nad oes arian ychwanegol yn cael ei neilltuo.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gyffredinol mewn egwyddor i'r ddyletswydd newydd arfaethedig ar awdurdodau lleol i ddarparu lleoedd gofal plant di-dâl a gwasanaethau eraill i'r blynyddoedd cynnar mewn mannau penodol, ac ar gyfer yr hyn a fydd yn cyfateb i'r canllawiau sy'n sail i grant Cymorth.

Roedd nifer o'r ymatebion yn awgrymu y dylai digon o adnoddau gael eu darparu fel bod awdurdodau lleol yn bodloni'r dyletswyddau newydd hyn, ac awgrymwyd hefyd diffinio'r ardaloedd penodol lle dylid darparu gofal plant yn ddi-dâl. Bydd angen i'r materion hyn gael eu hystyried yn fanylach yng ngoleuni canlyniad y broses ymgynghori a'r gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg sydd ar y gweill.

Ar ôl yr ymgynghori, ni wnaed unrhyw newidiadau mawr i'r cynigion polisi yn y ddogfen 'Gweithredu ar Dlodi Plant' ac mae'r rhain yn gyson â'r cynigion yn y Mesur.

4.2. Rhan 2 – Pwerau Gorfodi Rheoleiddiol Uwch ar gyfer gwarchod plant a gofal dydd i blant.

Ymgynghorwyd ar y cynigion i gryfhau'r pwerau gorfodi yn achos gwarchodwyr plant a gwasanaethau gofal dydd cofrestredig fel rhan o'r ymgynghori ehangach ar 'Teuluoedd Cryfach'.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r cynigion i alinio'r trefniadau gorfodi ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant ac i roi mwy o hyblygrwydd i weithredwyr ymateb. Serch hynny, roeddynt hefyd o'r farn fod angen bod yn fwy clir ym mha amgylchiadau y bydd yr opsiynau arfaethedig ar gyfer gorfodi rheoleiddiol uwch yn cael eu cymhwyso cyn bod unrhyw bwerau yn cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth.

Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad a'r rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy eu cyhoeddi fel rhan o adroddiad 'Teuluoedd Cryfach'.

4.3. Rhan 3: Teuluoedd Cryfach – Dull newydd o ddarparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Bu ymgynghori helaeth ar y cynnig i sefydlu Timau Gwasanaethau Integredig ar draws ystod o gyrff sydd â chyfrifoldeb statudol am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd (awdurdodau lleol, y GIG, Byrddau Iechyd Lleol a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn bennaf) a chyrff eraill sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gan gynnwys: y sector gwirfoddol ac annibynnol, prifysgolion, y rhai sy'n cynrychioli sgiliau proffesiynol a'r gweithlu a phrifysgolion.

Ymgynghorwyd ar y ddogfen - Teuluoedd Cryfach – dull newydd o ddarparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (y cyfeirir atynt bellach yn y Mesur arfaethedig fel Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd) am gyfnod o wyth wythnos rhwng 8 Awst 2008 a 3 Hydref 2008.

Cafwyd 70 o ymatebion**.** Roedd nifer o'r ymatebion hyn yn cynnwys safbwyntiau grwpiau cynrychiadol (er enghraifft, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, fforwm Plant yng Nghymru [200 o bobl]), felly mewn gwirionedd mae rhai cannoedd o sefydliadau a gweithwyr proffesiynol wedi cyfrannu. Cyhoeddwyd crynodeb o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar 5 Rhagfyr ac mae modd ei ddarllen ar y wefan:

Crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori IFSS – Saesneg:
http://wales.gov.uk/dhss/publications/children/reports/strongerfamilies/reportfamilysupporte.doc?lang=en

Crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori IFSS – Cymraeg – :
http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/reports/stongerfamilies/?skip=1&lang=cy

Hefyd, ar 11 ac 14 Tachwedd 2008, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ddau weithdy pwysig a fynychwyd gan dros 250 o gynrychiolwyr o'r sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol gan gynnwys ymchwilwyr ac academyddion. Bu'r gweithdai yn gyfle i gynrychiolwyr ystyried y cynigion yn fanwl a thrafod sut byddai'r Timau Gwasanaethau Integredig yn gweithio'n ymarferol. Cyhoeddwyd adroddiad am brif negeseuon y gweithdai ac fe'i dosbarthwyd yn eang ym mis Rhagfyr 2008. Mae'r adroddiad ar gael ar y wefan:

http://wales.gov.uk/docs//dhss/report/081215integratedfamilysupporten.doc?lang=cy

Roedd prif negeseuon yr ymgynghoriad a'r gweithdai yn cynnwys:

- Cefnogaeth gref ar gyfer gwasanaeth cymorth integredig statudol gyda gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol i ddarparu cymorth pwrpasol drwy ymyrraeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y gwelwyd ei bod yn effeithiol yn achos y rhan fwyaf o blant a theuluoedd agored i niwed.
- Derbyn mai mynd ati i newid pethau drwy ddeddfwriaeth fyddai orau i: gryfhau partneriaethau, symud agweddau a diwylliant y gwasanaeth tuag at fwy o integreiddio, ac adfywio gwerthoedd y gwasanaeth i hybu pwysigrwydd 'y teulu' fel uned.
- Pwysigrwydd y gyd-ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol ac ar iechyd (y prif ddarparwyr gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion) i wireddu'r weledigaeth, gan bwysleisio mor bwysig yw pontio gwasanaethau plant ac oedolion i ddarparu cymorth holistaidd i deuluoedd.
- Anogwyd pwyll yn achos y risg bosibl y gallai'r Timau Gwasanaethau Integredig ddatblygu'n wasanaeth arbenigol cul ei olygon oni bai fod y weledigaeth o raeadru sgiliau a phrosesau i bartneriaid ehangach yn y gweithlu wedi'i gosod o fewn fframwaith y trefniadau cyfredol.
- Croesawyd y newidiadau arfaethedig a'r strwythur gyrfa ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, ac roeddent o'r farn fod datblygu rôl "Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol" yn gam pwysig ymlaen yn ogystal â'r newid mewn pwyslais a'r buddsoddi mewn cynyddu sgiliau a chapasiti'r gweithlu gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i deuluoedd sy'n agored i niwed.
- Yr angen am arweinyddiaeth glir a chraffu ar lefel genedlaethol a lleol i baratoi, rheoli a monitro'r drefn o roi'r Timau Gwasanaethau Integredig ar waith, yn enwedig yn y tair ardal arloesi (y bwriedir iddynt ddechrau yn 2010) i sicrhau nad oes llithriad ar draws amryw o feysydd.

Ar awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd fydd y prif effaith. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Prif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau a'r Byrddau Iechyd Lleol) wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ers dechrau paratoi'r polisi, y fframwaith deddfwriaethol a'r meini prawf ar gyfer dewis yr ardaloedd arloesi. Bydd y drafodaeth yn parhau tra bydd pwerau'r Timau Gwasanaethau Integredig yn mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol ac er mwyn paratoi ar gyfer

gweithredu'r Timau Gwasanaethau Integredig yn y tair ardal arloesi erbyn 2010.

Gofynnodd yr ymgynghoriad ar y TICID hefyd am farn yr ymgyngoreion am ddefnyddio pwerau'r Mesur i bontio gwasanaethau plant ac oedolion. Roedd y rhanddeiliaid yn gryf o'r farn fod angen cryfhau'r trefniadau presennol i leihau'r perygl i blant ac i gefnogi anghenion y teulu cyfan yn holistaidd. Bellach, caiff hyn ei gyflawni drwy'r dyletswyddau asesu ac atgyfeirio newydd a osodwyd ar awdurdodau lleol a'r GIG yn Rhan 4 o'r Mesur.

5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r adran hon yn unol â Rheolau Sefydlog 23.18 (vii) (a, b ac c).

Pwerau Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau a Gorchmynion

5.1.

Yn y Mesur mae nifer o ddarpariaethau sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â swyddogaethau penodol o dan y Mesur. Ym mhob achos, mae'r pŵer i'w arfer gan Weinidogion Cymru o dan offeryn statudol. Rhestrir y pwerau isod:

Adran 1(5): pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer penderfynu amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol;

Adran 4(3): o dan strategaethau i'w paratoi gan awdurdodau gwasanaethau plant Cymru, diwygir adran 26 o Ddeddf Plant 2004, gan roi pŵer i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno i wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau plant;

Adran 5(3): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch strategaethau a gaiff eu paratoi gan awdurdodau Cymreig eraill, gan gynnwys y cyfnod y mae'r strategaeth i ymwneud ag ef; cyhoeddi'r strategaeth; adolygu ac ymgynghori ar y strategaeth cyn ei chyhoeddi;

Adran 6(1)(a); pŵer i wneud rheoliadau ynghylch dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael yn ddi-dâl; rhagnodi'r math o ofal plant sydd i'w ddarparu; rhagnodi disgrifiad o blant sydd â hawl iddo ac oed y plant hynny;

Adran 9(1): pŵer i wneud rheoliadau i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu mathau penodol o wasanaethau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd ar gyfer mathau penodol o blant neu rieni; pŵer i'w gwneud hi'n ofynnol bod y ddyletswydd sy'n deillio o wneud rheoliadau o dan adran 6(1) neu ddyletswydd mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i rieni neu wasanaethau cymorth iechyd, yn gymwys i ran neu rannau o ardal awdurdod lleol;

Adran 9(2): pŵer i wneud rheoliadau am yr ardaloedd lle y mae gwasanaethau a bennir gan y rheoliadau i'w darparu naill ai yn y rheoliadau neu drwy ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau eu hunain bennu'r ardaloedd.

Adran 9A: pŵer i wneud rheoliadau ynghylch yr asesiadau y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei wneud o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn ei ardal.

Adran 9C: pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth i arolygu'r modd y caiff y swyddogaethau yn adran 6 i 9B eu harfer gan awdurdod lleol ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. Caiff y rheoliadau ddarparu y bydd yr arolygiadau yn cael eu trefnu naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan Estyn

neu gan unrhyw berson arall o dan drefniadau a wnaed gyda Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau ddarparu at ddibenion cyfraith difenwi bod unrhyw adroddiad a gyhoeddir o dan y rheoliadau yn 'freintiedig' oni ddangosir bod y cyhoeddiad wedi'i wneud yn faleisus.

Adran 18(2)(a) ac (c): pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gan geisydd i gofrestru yn warchodwr plant, ynghyd â'r ffi berthnasol;

Adran 19: pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth bellach sydd i'w darparu gan geisydd i'w gofrestru yn warchodwr plant;

Adran 20(2)(a) ac (c): pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gan geisydd i'w gofrestru yn ddarparwr gofal dydd ynghyd â'r ffi berthnasol;

Adran 21: pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gan geisydd i'w gofrestru yn ddarparwr gofal dydd;

Adran 22: pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi gwybodaeth am faterion a ragnodir, sydd i'w cynnwys ar dystysgrif cofrestru: pŵer i ragnodi ffi am roi tystysgrif yn lle un sydd wedi mynd ar goll;

Adran 24(1),(2),(3) a (4): pŵer i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau personau a gofrestrwyd yn warchodwyr plant neu'n ddarparwyr gofal dydd, gan gynnwys lles a datblygiad plant; addasrwydd; cymwysterau a hyfforddiant; mwyafswm nifer y plant y caniateir iddynt dderbyn gofal; y lefelau staffio; mangreoedd; y weithdrefn gwynion; goruchwylio staff; cadw cofnodion; darparu gwybodaeth; rhwymedigaethau trydydd parti (o dan adran 23(3)) ac (o dan adran 24(4)), tramgwyddau a chosbau;

Adran 25(5): pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r amgylchiadau pan geir diddymu cofrestriad person;

Adran 26(1): pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r amgylchiadau pan geir cofrestriad person ei atal;

Adran 32(2),(3),(4) a (5): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch anghymwyso person rhag cofrestru (adran 32(2)); i ragnodi amgylchiadau penodol pan gaiff person ei anghymwyso rhag cofrestru (adran 32(3)); darpariaeth bellach mewn perthynas â pherson sy'n byw ar yr un aelwyd â pherson a gafodd ei anghymwyso (adran 32(4)) a phŵer Gweinidogion Cymru i gydsynio na chaiff person ei anghymwyso (adran 32(5));

Adran 34(1),(2) a (3): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch arolygu darpariaeth gwarchod plant a gofal dydd; cyhoeddi adroddiadau (adran 34(1)); arolygu gan Weinidogion Cymru neu Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant neu berson arall (adran 34(2)). At ddibenion cyfraith difenwi bydd unrhyw adroddiad a gyhoeddir o dan y rheoliadau yn 'freintiedig' oni ddangosir bod y cyhoeddiad wedi'i wneud yn faleisus (adran 34(3).

Adran 37(1),(2) a (3): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau lleol; Gweinidogion Cymru i gyflenwi gwybodaeth a ragnodwyd i awdurdodau lleol os ydynt yn cymryd camau penodol;

Adran 39(2) a (5): pŵer i ragnodi tramgwyddau sy'n dramgwyddau cosb benodedig; y cyfnod pryd na chaiff achos ei godi am y tramgwydd;

Adran 40(1) a (2): pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth atodol o ran hysbysiadau cosb; y symiau sydd i'w talu am gosbau penodedig;

Adran 44(1)(a) a (b): pŵer i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch gwarchod plant a gofal dydd ac i sicrhau darparu hyfforddiant ynghylch darparu gwarchod plant a gofal dydd;

Adran 45(1) a (2): pŵer i wneud rheoliadau o ran y ffioedd sydd i'w talu gan bersonau cofrestredig: swm y ffioedd a hepgoriadau;

Adran 48(1) a (2): pŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer marwolaeth person cofrestredig;

Adran 50(2) a (9): pŵer i wneud rheoliadau sy'n pennu pa swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y caiff awdurdod lleol eu rhoi i dimau integredig cymorth i deuluoedd a phŵer i roi swyddogaethau i'r tîm ac i ganiatáu atgyfeirio i dimau integredig cymorth i deuluoedd mewn gwahanol amgylchiadau.

Adran 51(2): pŵer i wneud rheoliadau o ran y modd y caiff timau integredig cymorth i deuluoedd eu hariannu.

Y weithdrefn ar gyfer y rheoliadau hyn yw'r **weithdrefn negyddol.**

Mae rheoliadau o dan y pwerau hyn yn ymwneud â materion technegol neu weithdrefnol neu â manylion. Ni fyddai natur a chynnwys darpariaethau a wneir o dan unrhyw reoliadau o'r fath yn briodol i'w cynnwys ar wyneb y Mesur. Mae hefyd yn ddymunol bod Gweinidogion Cymru yn cael hyblygrwydd i ddiwygio darpariaethau am faterion ar frys, megis y rhai hynny sy'n ymwneud â rheoleiddio gwarchod plant a gofal plant. Mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn gyfle i'r Cynulliad graffu i'r fath raddau ag sy'n briodol ar y math cyfyngedig o ddarpariaeth ag y caiff ei gwneud yn y rheoliadau hyn.

Ym mhob un o'r achosion uchod, mae'r rhesymeg ar gyfer cymhwyso is-ddeddfwriaeth yn gorffwys ar yr angen am osgoi gormod o fanylion neu i ganiatáu hyblygrwydd, o fewn cyfyngiadau'r egwyddorion a gyflwynir yn y Mesur ei hun. Bydd llawer o fanylion yn y rheoliadau hyn, a byddant yn cael eu hadolygu a'u diwygio o dro i dro os bydd angen, ac oherwydd hynny ystyrir

y byddai'n fwy priodol iddynt gael eu cynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Mesur.

5.2
Mae adran 67 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gychwyn darpariaethau'r Mesur. Fel sy'n arferol yn achos gorchmynion cychwyn, **ni fydd unrhyw weithdrefn** yn berthnasol i orchmynion o'r fath.

Adran 59B: pŵer i ragnodi drwy orchymyn gyrff gwasanaethau iechyd penodol a chyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol penodol sy'n darparu'r gwasanaethau hynny, y mae'n rhaid i'r corff GIG wneud trefniadau priodol mewn perthynas â hwy i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i effaith unrhyw anghenion iechyd sydd gan oedolyn ar unrhyw blentyn ac atgyfeirio achosion i'r awdurdod lleol mewn achosion priodol. Nid oes gweithdrefn yn berthnasol i wneud gorchmynion o'r fath.

5.3
Mae Adran 1(8) yn rhoi pŵer i ddiwygio'r pethau hynny a restrwyd yn 'nodau eang' sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yn adran 1(2).

Mae Adran 2(5) yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i bennu amcanion ar gyfer awdurdod Cymreig mewn perthynas â'r nodau eang yn adran 1 a swyddogaethau'r awdurdod Cymreig. Darperir yn adran 2(6) y gall y rheoliadau hefyd ddatgymhwyso'r amcanion a ddewiswyd gan yr awdurdod i'r graddau a bennir.

Mae Adran 5A(2) yn rhoi pŵer i ddiwygio'r rhestr o gyrff a enwyd yn 'awdurdodau Cymreig' ac sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth tlodi plant.

Mae adran 13(4) yn rhoi pŵer i ddiwygio'r diffiniad o'r hyn sy'n golygu 'gwarchod plant' a 'gofal 'plant' ac mae felly'n gwneud y person sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn atebol i gofrestru gyda'r awdurdod cofrestru.

Y weithdrefn ar gyfer y pwerau hyn i wneud rheoliadau yw'r **weithdrefn gadarnhaol**. Ym mhob achos maent yn rhoi pŵer i ddiwygio agwedd benodol ar y Mesur ei hun. Mae effaith bosibl y diwygiadau a wneir yn unol â'r pwerau hyn yn fwy pellgyrhaeddol boed mewn perthynas â'r ddyletswydd o ran tlodi plant neu o ran rheoleiddio'r sector gwarchod plant a gofal dydd.

5.4 Darpariaethau

Rhan 1, Pennod 1: Dileu Tlodi Plant

Adran 1: Y nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant

(5) Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer penderfynu amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol mewn perthynas ag aelwyd at ddibenion yr is-adran hon.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 1: Y nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant

(7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn —

(a) diwygio neu hepgor unrhyw baragraff o is-adran (2);

(b) ychwanegu paragraffau at yr is-adran honno;

(c) diwygio neu hepgor paragraffau ychwanegol o'r fath;

(d) diwygio neu hepgor isadrannau (3), (4), (5),a (6);

(e) ychwanegu isadrannau sy'n ymwneud ag is-adran (2);

(f) diwygio neu hepgor y cyfryw isadrannau ychwanegol.

(g) gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Rhan hon sy'n angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan baragraffau (a) i (f).

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd gweithdrefn y Cynulliad mewn perthynas â'r pŵer o dan adran 1(8) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Ystyrir ei bod yn briodol i'w wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hon oherwydd bod y pŵer yn caniatáu Gweinidogion i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ar ffurf darpariaethau penodol yn y Mesur.

Adran 2: Strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant

Caiff Gweinidogion Cymru bennu amcanion ar gyfer awdurdod Cymreig –

(a) os yw'r amcanion yn ymwneud ag un o'r nodau eang neu fwy ohonynt ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant, a

(b) os caniateir i awdurdod Cymreig ddilyn yr amcanion wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (5) hefyd ddarparu nad yw is-adran (1)(a) a pharagraff (c) o'r is-adran honno (fel y mae'n ymwneud ag is-adran (a)) yn gymwys i awdurdod Cymreig i'r graddau a bennir yn y rheoliadau.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol oherwydd y bydd yn rhoi

pŵer hyblyg i bennu amcanion mewn perthynas â nodau eang ar gyfer awdurdodau.

Adran 4: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau lleol (awdurdodau gwasanaethau plant)

(3) Yn adran 26 (cynlluniau plant a phersonau ifanc)—

(a) yn lle is-adran (1), rhodder—

“(1A) A children’s services authority in Wales must, in accordance with regulations made by the Welsh Ministers, prepare and publish a plan setting out the authority’s strategy for discharging their functions in relation to children and relevant young persons.

Mae Adran 4 o'r Mesur yn diwygio adran 26 o Ddeddf Plant 2004, drwy, yn ogystal â darpariaethau eraill, fewnosod adran 1A newydd sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch paratoi cynlluniau plant gan Awdurdodau Gwasanaethau Plant yng Nghymru. Mae'r pŵer i gael ei arfer gan Weinidogion Cymru.

Adran 5: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau Cymreig eraill

(3) Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer -

(a) y cyfnod y mae'r strategaeth i ymwneud ag ef;

(b) pryd a sut y mae'n rhaid cyhoeddi strategaeth;

(c) cadw golwg gyson ar strategaeth;

(d) ymgynghori cyn cyhoeddi strategaeth.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 5A: Yr awdurdodau Cymreig

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn —

(a) diwygio neu hepgor unrhyw baragraff yn is-adran (1), ac eithrio paragraff (a) a (b);

(b) ychwanegu paragraffau at yr is-adran honno;

(c) diwygio neu hepgor y cyfryw baragraffau ychwanegol;

(d) gwneud unrhyw ddiwygiadau i adran 5 sy'n angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan baragraffau (a) i (c).

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd gweithdrefn y Cynulliad mewn perthynas â'r pŵer o dan adran 12(2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Ystyrir ei bod yn briodol i'w gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hon oherwydd bod y pŵer yn caniatáu Gweinidogion i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ar ffurf darpariaethau penodol yn y Mesur.

Adran 6: Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod gofal plant ar gael yn ddi-dâl

(1) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod gofal plant o ddisgrifiad rhagnodedig ar gael yn ddi-dâl am y cyfryw gyfnodau ag a ragnodir ar gyfer pob plentyn o ddisgrifiad rhagnodedig yn ei ardal -

(a) sydd wedi cyrraedd y cyfryw oedran ag a ragnodir, ond

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 9: Rheoliadau am wasanaethau i fynd i'r afael â thlodi plant

(1) Caiff rheoliadau -

(a) ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn sicrhau darparu gwasanaethau cymorth i rieni o ddisgrifiad rhagnodedig yn ddi-dâl i rieni plant rhagnodedig yn ei ardal;

(b) ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn sicrhau darparu gwasanaethau cymorth iechyd o ddisgrifiad rhagnodedig yn ddi-dâl i blant rhagnodedig neu i rieni rhagnodedig plant yn ei ardal;

(c) darparu bod y ddyletswydd yn adran 6(1) i fod yn gymwys yn unig mewn rhan neu rannau o ardal awdurdod lleol;

(d) darparu bod gofyniad mewn rheoliadau o dan baragraff (a) neu (b) i fod yn gymwys yn unig mewn rhan neu rannau o ardal awdurdod lleol.

(2) Caiff rheoliadau o dan baragraff (c) neu (d) o is-adran (1) (ymysg pethau eraill) -

(e) pennu ardal neu ardaloedd o fewn ardal awdurdod lleol;

(f) darparu ar gyfer pennu ardal neu ardaloedd gan awdurdod lleol.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Rhan 1, Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan

Adran 9A: Dyletswyddau awdurdod lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant

(1) Rhaid i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn ei ardal yn unol â rheoliadau.

(2) Caiff rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) y materion i'w hystyried wrth asesu digonolrwydd;

(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'r asesiad cyntaf i'w gyflawni;

(c) amlder asesiadau;

(d) adolygu asesiadau;

(e) cyhoeddi asesiadau.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Rhan 1, Pennod 3: Arolygu, Canllawiau a Chyfarwyddiadau

Adran 9C: Arolygu

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth i arolygu'r modd y caiff y swyddogaethau yn adrannau 6 i 9B eu harfer gan awdurdod lleol ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. Caiff y rheoliadau ddarparu y bydd yr arolygiadau yn cael eu trefnu naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu gan unrhyw berson arall o dan drefniadau a wneir gyda Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau ddarparu at ddibenion cyfraith difenwi bod adroddiadau arolygu yn 'freintiedig' oni ddangosir bod y cyhoeddiad wedi'i wneud yn faleisus.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Dyma lefel briodol o graffu ar gyfer y math cymharol cyfyngedig o ddisgresiwn sydd i'w harfer wrth wneud y rheoliadau hyn.

Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant

Adran 13: Ystyr 'gwarchod plant' a 'gofal dydd i blant'

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn —

(a) diwygio is-adran (2) neu (3) i amnewid oedran gwahanol;

(b) darparu, o dan yr amgylchiadau a bennir yn y gorchymyn, nad yw person yn gweithredu fel gofalydd plant at ddibenion y Rhan hon.

(c) darparu, o dan yr amgylchiadau a bennir yn y gorchymyn, nad yw person yn darparu gofal dydd at ddibenion y Rhan hon.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd gweithdrefn y Cynulliad mewn perthynas â'r pŵer o dan adran 13(4) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Ystyrir ei bod yn briodol i'w gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hon oherwydd bod y pŵer yn caniatáu Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ar ffurf darpariaethau penodol yn y Mesur.

Adran 18: Ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant

(2) Rhaid i gais—

(a) rhoi unrhyw wybodaeth a ragnodwyd am faterion a ragnodwyd,

(c) cynnwys gydag ef unrhyw ffi a ragnodwyd.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 19: Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant

Caiff y gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant gynnwys gofynion sy'n ymwneud â'r canlynol -

(a) y ceisydd;

(b) y fangre y darperir y gwasanaeth gwarchod plant ynddi;

(c) y trefniadau ar gyfer gwarchod plant yn y fangre honno;

(d) unrhyw berson a all fod yn gofalu am blant yn y fangre honno;

(e) unrhyw berson a all fod yn y fangre honno.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 20: Ceisiadau i gofrestru: gofal dydd i blant

(2) Rhaid i gais—

(a) rhoi unrhyw wybodaeth a ragnodwyd am faterion a ragnodwyd,

(c) cynnwys gydag ef unrhyw ffi a ragnodwyd.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 21: Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru darparwyr gofal dydd i blant

Caiff y gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel darparwyr gofal dydd i blant gynnwys gofynion sy'n ymwneud â'r canlynol -

(a) y ceisydd;

(b) y fangre y darperir y gofal dydd ynddi;

(c) y trefniadau ar gyfer gofal dydd yn y fangre honno;

(d) unrhyw berson a all fod yn gofalu am blant yn y fangre honno;

(e) unrhyw berson arall a all fod yn y fangre honno.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 22: Cofnodi ar y gofrestr a thystysgrifau

(3) Rhaid i dystysgrif gofrestru a roddir i geisydd o dan is-adran (1) neu (2) gynnwys gwybodaeth a ragnodwyd ynghylch materion a ragnodwyd.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod tystysgrif gofrestru wedi cael ei cholli neu ei difa, rhaid i Weinidogion Cymru roi copi i'r person cofrestredig, pan fydd y person cofrestredig yn talu'r ffi a ragnodwyd.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 24: Rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau personau cofrestredig sy'n gweithredu fel gwarchodwyr plant, neu'n darparu gofal dydd, mewn mangre yng Nghymru.

(2) Caiff y rheoliadau o dan yr adran hon ymdrin â'r materion canlynol (ymhlith eraill)—

(a) lles a datblygiad y plant o dan sylw;

(b) addasrwydd i ofalu am blant o'r oed perthnasol, neu fod mewn cyswllt rheolaidd â hwy;

(c) cymwysterau a hyfforddiant;

(d) mwyafswm nifer y plant y caniateir iddynt dderbyn gofal a nifer y personau sy'n ofynnol i gynorthwyo i ofalu amdanynt;

(e) cynnal a chadw, diogelwch ac addasrwydd y fangre a'r cyfarpar;

(f) y gweithdrefnau i drafod cwynion;

(g) goruchwylio staff;

(h) cadw cofnodion;

(i) darparu gwybodaeth.

(3) Os yw'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson (heblaw Gweinidogion Cymru) roi sylw i neu fodloni ffactorau, safonau neu faterion eraill a ragnodwyd gan y rheoliadau neu y cyfeirir atynt yn y rheoliadau, cânt hefyd ddarparu fod unrhyw honiad bod person wedi methu â gwneud hynny yn cael ei gymryd i ystyriaeth—

(a) gan Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon, neu

(b) mewn unrhyw achos cyfreithiol o dan y Rhan hon.

(4) Caiff Rheoliadau ddarparu—

(a) bod person cofrestredig sydd heb esgus rhesymol yn mynd yn groes i unrhyw ofyniad yn y rheoliadau, neu fel arall yn methu â chydymffurfio ag ef, yn euog o dramgwydd; a

(b) bod person sy'n euog o'r tramgwydd yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 25: Diddymu cofrestriad

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi amgylchiadau eraill pan geir diddymu cofrestriad person cofrestredig o dan y Rhan hon.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 26: Atal cofrestriad

(1) Caiff rheoliadau ddarparu bod cofrestriad unrhyw berson o dan y Rhan hon yn cael ei atal.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) gynnwys (ymysg pethau eraill) ddarpariaeth ynghylch -

(a) cyfnod yr ataliad;

(b) yr amgylchiadau y ceir atal cofrestriad ynddynt;

(c) atal cofrestriad ar gais y person cofrestredig.

(3) Rhaid i reoliadau o dan is-adran (1) gynnwys darpariaeth yn rhoi i'r person cofrestredig hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn ataliad.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer

oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 32: Anghymwyso rhag cofrestru

(2) Caiff rheoliadau ddarparu fod person wedi'i anghymwyso rhag cofrestru.

(3) Caiff y rheoliadau, yn benodol, ddarparu bod person i'w anghymwyso rhag cofrestru—

(a) os yw'r person wedi ei wahardd rhag gweithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hawdd eu Niweidio 2006 (p 47);

(b) os gwnaed gorchymyn o fath a ragnodwyd ynglŷn â'r person;

(c) os gwnaed gorchymyn o fath a ragnodwyd ar unrhyw adeg ynglŷn â phlentyn a fu dan ofal y person;

(d) os gosodwyd gofyniad o fath a ragnodwyd ar unrhyw adeg ynglŷn â'r cyfryw blentyn, o dan neu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad;

(e) os gwrthodwyd cofrestru'r person ar unrhyw adeg o dan y Rhan hon o'r Mesur hwn, Rhan 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p 21) neu o dan Ran 10 neu Ran 10A o Ddeddf Plant 1989 (p 41) neu unrhyw ddeddfiad a ragnodwyd, neu os diddymwyd y cyfryw gofrestriad ar ei gyfer;

(f) os cafodd y person ei gollfarnu o dramgwydd o fath a ragnodwyd neu os cafodd ryddhad diamod neu ryddhad amodol am y cyfryw dramgwydd;

(g) os cafodd y person rybudd ynglŷn â thramgwydd o fath a ragnodwyd;

(h) os cafodd y person ar unrhyw adeg ei anghymwyso rhag maethu plentyn yn breifat (o fewn ystyr Deddf Plant 1989 (p 41));

(i) os gosodwyd gwaharddiad ar y person ar unrhyw adeg o dan adran 69 o Ddeddf Plant 1989 (p.41), adran 10 o Ddeddf Plant Maeth (yr Alban) 1984 (p. 56) neu unrhyw ddeddfiad a ragnodwyd;

(j) os cafodd hawliau a phwerau person ynglŷn â phlentyn ar unrhyw adeg eu breinio mewn awdurdod a ragnodwyd o dan ddeddfiad a ragnodwyd.

(4) Caiff rheoliadau ddarparu i berson gael ei anghymwyso rhag cofrestru—

(a) os yw'r person yn byw ar yr un aelwyd â pherson arall sydd wedi'i anghymwyso rhag cofrestru, neu

(b) os yw person yn byw ar aelwyd y mae person arall sydd wedi'i anghymwyso yn cael ei gyflogi yno.

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) neu (4) ddarparu nad yw person i'w anghymwyso rhag cofrestru (ac yn benodol cânt ddarparu nad yw person i'w anghymwyso rhag cofrestru at ddibenion adran 33) o achos unrhyw ffaith a fyddai fel arall yn peri bod y person yn cael ei anghymwyso—

(a) os yw'r person wedi datgelu'r ffaith i Weinidogion Cymru, a

(b) os yw Gweinidogion Cymru wedi cydsynio'n ysgrifenedig nad yw'r person wedi'i anghymwyso rhag cofrestru ac nad ydynt wedi tynnu eu cydsyniad yn ôl.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 34: Arolygu

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu—

(a) ar gyfer arolygu gwarchod plant a ddarperir yng Nghymru gan bersonau cofrestredig a gofal dydd a ddarperir gan bersonau cofrestredig mewn mangreoedd yng Nghymru;

(b) ar gyfer cyhoeddi adroddiadau o'r arolygiadau mewn modd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu bod yr arolygiadau yn cael eu trefnu—

(a) gan Weinidogion Cymru, neu

(b) gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, neu gan unrhyw berson arall, o dan drefniadau a wneir gyda Gweinidogion Cymru.

(3) Caiff y rheoliadau ddarparu at ddibenion cyfraith difenwi bod unrhyw adroddiad a gyhoeddir o dan y rheoliadau yn ‘freintiedig’ oni ddangosir bod y cyhoeddiad wedi'i wneud yn faleisus.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 37: Cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau lleol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybodaeth a ragnodwyd i'r awdurdod lleol perthnasol, os ydynt yn cymryd unrhyw un neu unrhyw rai o'r camau canlynol o dan y Rhan hon—

(a) caniatáu cais cofrestru i berson;

(b) rhoi hysbysiad o'u bwriad i ddiddymu cofrestriad person;

(c) diddymu cofrestriad person;

(d) atal cofrestriad person;

(e) tynnu person oddi ar y gofrestr ar gais y person hwnnw.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd roi gwybodaeth a ragnodwyd i'r awdurdod lleol perthnasol os gwneir gorchymyn o dan adran 28(2).

(3) Yr wybodaeth y gellir ei rhagnodi at ddibenion yr adran hon yw gwybodaeth a fyddai'n cynorthwyo'r awdurdod lleol wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p. 21).

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 39: Hysbysiadau o gosb

(2) Tramgwydd cosb benodedig yw unrhyw dramgwydd perthnasol a ragnodwyd at ddibenion yr adran hon.

(5) Os yw person yn cael hysbysiad o gosb, ni cheir codi achos am y tramgwydd y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef cyn diwedd y cyfryw gyfnod ag a ragnodir.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 40: Hysbysiadau o gosb: darpariaethau atodol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth am unrhyw un neu unrhyw rai o'r canlynol—

(a) ffurf a chynnwys yr hysbysiadau o gosb;

(b) swm ariannol y gosb ac erbyn pa bryd y mae i'w thalu;

(c) penderfynu'r dulliau y gellir talu cosbau drwyddynt;

(d) y cofnodion sydd i'w cadw o ran hysbysiadau o gosb;

(e) tynnu hysbysiad o gosb yn ôl, mewn amgylchiadau a ragnodwyd, gan gynnwys—

(i) ad-dalu unrhyw swm a dalwyd am gosb o dan hysbysiad o gosb a dynnir yn ôl, a

(ii) gwahardd codi achos cyfreithiol neu barhau ag ef am y tramgwydd y mae'r hysbysiad a dynnir yn ôl yn ymwneud ag ef;

(f) tystysgrifau sydd i'w derbyn yn dystiolaeth—

(i) sy'n honni eu bod wedi'u llofnodi gan neu ar ran person a ragnodwyd, a

(ii) sy'n datgan bod taliad o unrhyw swm a dalwyd am gosb wedi dod i law neu, yn ôl y digwydd, heb ddod i law ar ddyddiad a bennir yn y dystysgrif neu cyn y dyddiad hwnnw;

(g) camau sydd i'w cymryd os na thelir cosb yn unol â hysbysiad o gosb;

(h) unrhyw beth arall o ran cosbau neu hysbysiadau o gosb y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

(2) O ran rheoliadau o dan is-adran (1)(b)—

(a) cânt ddarparu ar gyfer cosbau o symiau gwahanol i fod yn daladwy mewn achosion gwahanol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer y gosb sy'n daladwy o dan hysbysiad o gosb i wahaniaethu yn unol â'r amser erbyn pryd y telir hi, ond

(b) rhaid iddynt sicrhau nad yw swm unrhyw gosb sy'n daladwy o ran unrhyw dramgwydd yn fwy nag un hanner mwyafswm y ddirwy y byddai person sy'n cyflawni tramgwydd yn atebol amdani ar gollfarn ddiannod.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 44: Swyddogaethau awdurdodau lleol

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol, yn unol â'r hyn a ddarperir yn y rheoliadau, yn sicrhau darparu -

(a) gwybodaeth neu gyngor ynghylch gwarchod plant a gofal dydd i blant;

(b) hyfforddiant ynghylch darparu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd i blant.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 45: Ffioedd

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i bersonau a gofrestrwyd o dan y Rhan hon dalu i Weinidogion Cymru ar adegau a ragnodwyd neu erbyn yr adegau hynny y symiau a ragnodwyd o ran bod Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ragnodi amgylchiadau—

(a) pan ellir amrywio swm y ffi sy'n daladwy o dan y rheoliadau yn unol â'r rheoliadau;

(b) pan ellir hepgor y ffi sy'n daladwy o dan y rheoliadau.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 48: Marwolaeth person cofrestredig

(1) Caiff rheoliadau—

(a) darparu bod darpariaethau'r Rhan hon i fod yn gymwys gydag addasiadau rhagnodedig mewn achosion lle y mae person, sef yr unig berson a oedd wedi'i gofrestru ynglŷn â busnes gofal dydd, wedi marw;

(b) ei gwneud yn ofynnol bod cynrychiolwyr personol person a fu farw a oedd wedi'i gofrestru ynglŷn â gwarchod plant neu ofal dydd i blant yn hysbysu Gweinidogion Cymru o'r farwolaeth.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a) yn benodol—

(a) darparu bod y busnes gofal dydd yn cael ei gyflawni am gyfnod rhagnodedig gan berson na chafodd ei gofrestru ar ei gyfer; a

(b) cynnwys darpariaeth y gellir estyn y cyfnod rhagnodedig gan y cyfryw gyfnod pellach ag a ganiateir gan Weinidogion Cymru.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Adran 50: Swyddogaethau timau integredig cymorth i deuluoedd.

(2) Swyddogaethau cymorth i deuluoedd yw—

(a) swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol rhagnodedig (o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (p .42)), neu

(b) swyddogaethau rhagnodedig—

(i) Bwrdd Iechyd Lleol, neu

(ii) ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42)

(9) Caiff rheoliadau—

(a) dosbarthu swyddogaethau cymorth i deuluoedd i dîm integredig cymorth i deuluoedd;

(b) caniatáu i awdurdodau lleol wneud atgyfeiriadau i'r tîm integredig cymorth i deuluoedd mewn amgylchiadau nas crybwyllir yn yr adran hon.

Adran 51: Adnoddau ar gyfer timau integredig cymorth i deuluoedd

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ar gyfer cyllido timau integredig cymorth i deuluoedd ac mewn cysylltiad â hwy, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) darpariaeth ynghylch gwariant—

(a) ar gyfer swyddi neu gategorïau o swydd mewn timau integredig cymorth i deuluoedd;

(b) ar gyfer gwasanaethau penodol cymorth i deuluoedd neu wasanaethau o'r fath yn gyffredinol;

(c) ar gyfer gweinyddu timau integredig cymorth i deuluoedd;

(d) at unrhyw ddiben arall sy'n gysylltiedig â thimau integredig cymorth i deuluoedd.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer

oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 52: Cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd

(1) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod tîm integredig cymorth i deuluoedd yn cynnwys personau rhagnodedig.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 54: Swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd

(2) Mae bwrdd integredig cymorth i deuluoedd i gael y cyfryw swyddogaethau o ran ei amcanion ag a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 55: Rheoliadau ynghylch timau a byrddau integredig cymorth i deuluoedd

Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer -

(a) adolygu achosion a atgyfeirir i dimau integredig cymorth i deuluoedd;

(b) cwynion ac anghydfodau ynghylch arfer swyddogaethau gan dimau integredig cymorth i deuluoedd;

(c) darparu gwybodaeth ynghylch timau integredig cymorth i deuluoedd;

(d) rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, timau a byrddau integredig cymorth i deuluoedd;

(e) cyfrifon ac archwilio o ran swyddogaethau a ddosbarthwyd i dimau integredig cymorth i deuluoedd;

(f) y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan fwrdd integredig cymorth i deuluoedd.

Gweinidogion Cymru yw'r person y rhoddir y pŵer iddo. Mae'r pwerau i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Bernir yn briodol i ddirprwyo'r pŵer oherwydd y bydd yn rhoi hyblygrwydd; yn darparu'r gallu i addasu i

amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi cyfle i ymgynghori o dro i dro gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Adran 66: Gorchmynion a Rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer -

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion neu ardaloedd gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(c) i wneud y gyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed ag y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn addas.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Nid yw is-adran (3) yn gymwys i orchmynion y mae is-adran (5) yn gymwys iddynt.

(5) Ni cheir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan reoliadau 2(5) neu orchymyn o dan adran 1(8), 5A(2) neu 13(4) oni chafodd drafft o'r offeryn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Adran 2 - Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r adran hon yn unol â Rheolau Sefydlog 23.18(vi)

6. Rhan 1, Pennod 1: Dileu Tlodi Plant (Adrannau 1 – 5A)

6.1 Opsiynau

Ystyrir y tri opsiwn canlynol mewn perthynas â'r dyletswyddau arfaethedig newydd:

- Opsiwn 1: Gwneud dim - peidio â chyflwyno Mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol neu awdurdodau Cymreig eraill lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru;

- Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol yn unig lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru;

- Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i 'awdurdodau Cymreig' gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill a chanddynt swyddogaethau perthnasol lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Opsiwn 1: Gwneud dim - peidio â chyflwyno Mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol neu awdurdodau Cymreig eraill lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

O dan Opsiwn 1, ni fyddai'r Mesur yn mynd rhagddo ac ni fyddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant. Ni fyddai'n ofynnol iddynt lunio eu strategaeth gyntaf erbyn 2010 na chadw golwg ar eu strategaeth yn gyson na'i hail-lunio na'i hadolygu. Ni fyddai'n ofynnol iddynt gyhoeddi'r strategaeth pan fyddant yn ei llunio, ei hail-lunio neu ei hadolygu ac ni fyddai'n ofynnol iddynt osod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni fyddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o'r graddau y maent wedi bodloni eu hamcanion neu i ba raddau y gwnaed cynnydd tuag at fodloni eu hamcanion, a hynny bob tair blynedd gan ddechrau yn 2013. Ni fyddai'n ofynnol iddynt osod copi o'r adroddiad hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai awdurdodau lleol a'u partneriaid yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

O ran yr awdurdodau Cymreig hynny nad ydynt wedi ymrwymo mewn trefniant o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004, ni fyddai'n ofynnol iddynt lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant.

Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol yn unig lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru

O dan Opsiwn 2, byddai deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant. Byddai'r strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewiswyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phob un o'r nodau eang a nodir yn Adran 1.

Byddai'n ofynnol iddynt lunio eu strategaeth gyntaf erbyn 2010 a chadw golwg ar eu strategaeth yn gyson a'i hail-lunio a'i hadolygu. Byddai'n ofynnol iddynt gyhoeddi'r strategaeth pan fyddant yn ei llunio, ei hail-lunio neu ei hadolygu a byddai'n ofynnol iddynt osod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn cynnwys asesiad o'r graddau y maent wedi cyflawni eu hamcanion neu i ba raddau y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion, a hynny bob tair blynedd gan ddechrau yn 2013. Byddai'n ofynnol iddynt osod copi o'r adroddiad hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant a byddai'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni pan fyddai'r awdurdod yn cyhoeddi cynllun o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004. Byddai'r strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewiswyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phob un o'r nodau eang a nodir yn Adran 1.

Bwriedir y dylai'r amcanion y bydd awdurdod lleol yn eu pennu mewn perthynas â chymorth rhianta (Adran 1 (2) (f) a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd (Adran (1) (2) (g)) a chyfranogi mewn addysg, hyfforddiant a'r gymuned yn ogystal â chynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth (Adran 1(2)(k-m)) gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy grant penodol Cymorth a chaiff canllawiau eu llunio i'r perwyl hwn. Mae'r ddarpariaeth hon yn un o'r dulliau a ddefnyddir i gynnal lefel gyfredol y ddarpariaeth mewn perthynas â gweithgareddau Cymorth. Ymdrinnir ag eraill mewn perthynas â Rhan 1, Adrannau 7-9 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Ni fyddai'n ofynnol i 'awdurdodau Cymreig', heblaw am Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i 'awdurdodau Cymreig' gan gynnwys Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

O dan Opsiwn 3, byddai deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant. Byddai'r strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewiswyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phob un o'r nodau eang a nodir yn Adran 1 ac yn cynnwys

amcanion sy'n berthnasol i'w pwerau i ddarparu cyllid i unrhyw berson sy'n hyrwyddo'r nodau eang.

Byddai'n ofynnol iddynt lunio eu strategaeth gyntaf erbyn 2010 a chadw golwg ar eu strategaeth yn gyson a'i hail-lunio a'i hadolygu. Byddai'n ofynnol iddynt gyhoeddi'r strategaeth pan fyddant yn ei llunio, ei hail-lunio neu ei hadolygu a byddai'n ofynnol iddynt osod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn gwneud asesiad o'r graddau y maent wedi cyflawni eu hamcanion neu i ba raddau y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion, a hynny bob tair blynedd gan ddechrau yn 2013. Byddai'n ofynnol iddynt osod copi o'r adroddiad hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant a byddai'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni pan fyddai'r awdurdod yn cyhoeddi cynllun o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004. Byddai'r strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewiswyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phob un o'r nodau eang a nodir yn Adran 1.

Bwriedir y dylai'r amcanion y bydd awdurdod lleol yn eu pennu mewn perthynas â chymorth rhianta (Adran 1 (2) (f) a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd (Adran (1) (2) (g)) a chyfranogi mewn addysg, hyfforddiant a'r gymuned yn ogystal â chynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth (Adran 1(2) (k-m) gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy grant penodol Cymorth a chaiff canllawiau eu llunio i'r perwyl hwn. Mae'r ddarpariaeth hon yn un o'r dulliau a ddefnyddir i gynnal lefel gyfredol y ddarpariaeth mewn perthynas â gweithgareddau Cymorth. Ymdrinnir ag eraill mewn perthynas â Rhan 1, Adrannau 7-9 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

O ran yr 'awdurdodau Cymreig' hynny sydd wedi ymrwymo mewn trefniant o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004, byddai'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yn cael ei chyflawni os yw'r strategaeth yn rhan annatod o gynllun a gyhoeddir o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004 gan bob awdurdod lleol y maent wedi ymrwymo mewn trefniant ag ef o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004.

O ran yr awdurdodau Cymreig hynny nad ydynt wedi ymrwymo mewn trefniant o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004, byddai gofyn iddynt lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant.

6.2 Costau a manteision

Opsiwn 1: Gwneud dim - peidio â chyflwyno Mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol neu awdurdodau Cymreig eraill lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

<u>Costau</u>

Mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc o dan Ddeddf Plant 2004.

Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd y rhan arweiniol wrth hyrwyddo cydweithredu â phartneriaid 'perthnasol' a chyrff eraill sydd, yn nhyb yr awdurdod lleol, yn briodol er mwyn gwella llesiant plant yn ardal pob awdurdod lleol.

Mae Adran 26 o Ddeddf Plant 2004 a'r rheoliadau a ddaw o dan yr adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid i lunio Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI) sy'n amlinellu eu gweledigaeth strategol ar y cyd ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn ogystal â'u blaenoriaethau a'u targedau.

O 2008 ymlaen, mae'n ofynnol bod gan bob ardal awdurdod lleol Gynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed ynghyd â gwasanaethau mamolaeth.

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn oherwydd nid oes gofynion newydd ar awdurdodau lleol y mae eisoes yn ddyletswydd arnynt o dan Ddeddf Plant 2004 i weithredu ar dlodi plant ac sydd eisoes wedi derbyn cyllid i roi hyn ar waith.

Manteision

Byddai awdurdodau lleol a'u partneriaid yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

O ran yr awdurdodau Cymreig hynny nad ydynt wedi ymrwymo mewn trefniant o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004, ni fyddai'n ofynnol iddynt lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant. Ni fyddai unrhyw fantais yn deillio o'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol yn unig lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru

Costau

Bydd y ddyletswydd newydd i lunio a chyhoeddi strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant yn gosod beichiau ychwanegol ar Weinidogion Cymru. Mae costau cydymffurfio yn deillio o'r gofyniad newydd y dylai strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant gael eu llunio a'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru a hefyd o'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae'r amcanion sydd yn y strategaeth wedi'u cyflawni.

O fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd goblygiadau i hyn o ran adnoddau ar gyfer yr Uned Tlodi Plant y bydd yn rhaid ei chryfhau at ddibenion cyflenwi strategaeth statudol, cadw golwg arni'n gyson a chyflwyno adroddiadau yn ei

chylch. Yn ogystal â hyn, byddai gan yr Uned rôl bwysig i'w chyflawni wrth roi Canllawiau i awdurdodau lleol a byddai angen cyflwyno systemau cadarnach ar gyfer ystyried y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

Bydd angen adnoddau ychwanegol i gryfhau'r Uned Tlodi Plant er mwyn ei galluogi i ymgymryd â'r gwaith strategol yn y dyfodol a rheoli cyfrifoldebau gweithredol newydd mewn perthynas â'r ddyletswydd hon. Amcangyfrifir y bydd y costau'n £55,000 ar gyfer adnoddau staffio ychwanegol, yn seiliedig ar gostau staffio rhagamcanol ar gyfer 2009/2010.

Mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc o dan Ddeddf Plant 2004 ac o dan adran 4(1) o'r Mesur byddai'r ddyletswydd hon sydd ar awdurdod lleol i gyhoeddi strategaeth o dan adran 2(1) yn cael ei chyflawni pan fyddai cynllun yn cael ei gyhoeddi o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion sy'n ymwneud â gweithgareddau Cymorth. Mae'r dadansoddiad cost a budd sy'n gysylltiedig ag adrannau 6-11 yn ymdrin â hyn yn fanylach.

Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd y rhan arweiniol wrth hyrwyddo cydweithredu â phartneriaid 'perthnasol' a chyrff eraill sydd, yn nhyb yr awdurdod lleol, yn briodol er mwyn gwella llesiant plant yn ardal pob awdurdod lleol.

Mae Adran 26 o Ddeddf Plant 2004 a'r rheoliadau a ddaw o dan yr adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid i lunio Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI) sy'n amlinellu eu gweledigaeth strategol ar y cyd ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn ogystal â'u blaenoriaethau a'u targedau.

O 2008 ymlaen, mae'n ofynnol bod gan bob ardal awdurdod lleol Gynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed ynghyd â gwasanaethau mamolaeth.

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn i awdurdodau lleol; nid oes gofynion newydd ar awdurdodau lleol y mae eisoes yn ddyletswydd arnynt o dan Ddeddf Plant 2004 i weithredu ar dlodi plant ac maent eisoes wedi derbyn cyllid i roi hyn ar waith.

<u>Manteision</u>

O dan Opsiwn 2, byddai deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant. Byddai'r strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewiswyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phob un o'r nodau eang a nodir yn Adran 1 ac yn cynnwys amcanion sy'n berthnasol i'w pwerau i ddarparu cyllid i unrhyw berson sy'n hyrwyddo'r nodau eang. Byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio eu strategaeth gyntaf erbyn 2010 a chadw golwg ar eu strategaeth yn gyson a'i hail-lunio neu ei hadolygu. Byddai'n ofynnol iddynt gyhoeddi'r strategaeth pan

fyddant yn ei llunio, ei hail-lunio neu ei hadolygu a byddai'n ofynnol iddynt osod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn cynnwys asesiad o'r graddau y maent wedi cyflawni eu hamcanion neu i ba raddau y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion, a hynny bob tair blynedd gan ddechrau yn 2013. Byddai'n ofynnol iddynt osod copi o'r adroddiad hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant a byddai'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni pan fyddai'r awdurdod yn cyhoeddi cynllun o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

Ni fyddai'n ofynnol i 'awdurdodau Cymreig', heblaw am Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant. Mae'r opsiwn hwn yn fwy manteisiol nag Opsiwn 1 ond nid yw mor fanteisiol ag Opsiwn 3.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i 'awdurdodau Cymreig' gan gynnwys Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Costau

Bydd y ddyletswydd newydd i lunio a chyhoeddi strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant yn gosod beichiau ychwanegol ar Weinidogion Cymru. Mae costau cydymffurfio yn deillio o'r gofyniad newydd y dylai strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant gael eu llunio a'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru a hefyd o'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae'r amcanion sydd yn y strategaeth wedi'u cyflawni.

O fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd goblygiadau i hyn o ran adnoddau ar gyfer yr Uned Tlodi Plant y bydd yn rhaid ei chryfhau at ddibenion cyflenwi strategaeth statudol, cadw golwg arni'n gyson a chyflwyno adroddiadau yn ei chylch. Yn ogystal â hyn, byddai gan yr Uned rôl bwysig i'w chyflawni wrth roi Canllawiau i awdurdodau lleol a byddai angen cyflwyno systemau cadarnach ar gyfer ystyried y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

Bydd angen adnoddau ychwanegol i gryfhau'r Uned Tlodi Plant er mwyn iddi ymgymryd â'r gwaith strategol yn y dyfodol a rheoli cyfrifoldebau gweithredol newydd mewn perthynas â'r ddyletswydd hon. Amcangyfrifir y bydd y costau'n £55,000 ar gyfer adnoddau staffio ychwanegol, yn seiliedig ar gostau staffio rhagamcanol ar gyfer 2009/2010.

Mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc o dan Ddeddf Plant 2004 ac o dan adran 4(1) o'r Mesur byddai'r ddyletswydd sydd ar awdurdod lleol i gyhoeddi strategaeth o dan adran 2(1) yn cael ei chyflawni pan fyddai cynllun yn cael ei gyhoeddi o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd y rhan arweiniol wrth hyrwyddo cydweithredu â phartneriaid 'perthnasol' a chyrff eraill sydd, yn nhyb yr awdurdod lleol, yn briodol er mwyn gwella llesiant plant yn ardal pob awdurdod lleol.

Mae Adran 26 o Ddeddf Plant 2004 a'r rheoliadau a ddaw o dan yr adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid i lunio Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI) sy'n amlinellu eu gweledigaeth strategol ar y cyd ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn ogystal â'u blaenoriaethau a'u targedau.

O 2008 ymlaen, mae'n ofynnol bod gan bob ardal awdurdod lleol Gynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed ynghyd â gwasanaethau mamolaeth.

Nid oes costau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn i awdurdodau lleol; nid oes gofynion newydd ar awdurdodau lleol y mae eisoes yn ddyletswydd arnynt o dan Ddeddf Plant 2004 i weithredu ar dlodi plant ac sydd eisoes wedi derbyn cyllid i roi hyn ar waith.

O ran yr 'awdurdodau Cymreig' hynny sydd wedi ymrwymo mewn trefniant o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004, byddai'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yn cael ei chyflawni os yw'r strategaeth yn rhan annatod o gynllun a gyhoeddir o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004 gan bob awdurdod lleol y maent wedi ymrwymo mewn trefniant ag ef o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004. Mae'r ddyletswydd hon yn niwtral o ran cost i awdurdodau lleol a'u partneriaid ac nid oes beichiau ychwanegol.

O ran yr awdurdodau Cymreig eraill a nodir yn Adran 5A nad ydynt wedi ymrwymo mewn trefniant o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004, byddai'n ofynnol iddynt lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant felly mae'n debyg y bydd rhywfaint o gostau cydymffurfio'n deillio o'i gwneud hi'n ddyletswydd arnynt i lunio a chyhoeddi strategaeth. Rhagwelir na fydd y gofynion ychwanegol hyn yn rhai sylweddol ac y gellir darparu ar eu cyfer o fewn eu dyraniadau presennol. Rhagwelir hefyd y bydd y gofynion ychwanegol hyn yn gymesur â maint y sefydliad ac yn adlewyrchu'r cyfraniad tebygol y gallai awdurdod Cymreig ei wneud.

Mae CNLCau yn cael eu hariannu drwy gymorth grant ac ar hyn o bryd mae'n ofynnol iddynt gynnwys yn eu cynlluniau corfforaethol ddatganiad yn esbonio sut y bydd y CNLC yn prif ffrydio nifer o swyddogaethau statudol, gan gynnwys cyfle cyfartal i bawb, a nodau strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys cynhwysiant cymdeithasol, er nad oes unrhyw sôn yn benodol am dlodi plant.

Lle bo CNLCau yn cael eu cynnwys yn Adran 5A, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o oblygiadau o ran adnoddau i'r rhannau hynny o Lywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio gyda'r CNLCau neu'n darparu cymorth ar eu cyfer naill ai o safbwynt ariannu neu o ran gweithredu polisi. Rhagwelir na fydd y

gofynion ychwanegol hyn yn rhai sylweddol ac y gellir darparu ar eu cyfer o fewn eu dyraniadau presennol.

Lle na ellir cynnwys CNLCau yn Adran 5A gall Gweinidogion Cymru ystyried ymgorffori'r cyrff hyn o fewn eu strategaethau a mynd i'r afael ag unrhyw gamau y bwriedir iddynt gael eu cymryd drwy eu llythyron cylch gwaith.

Manteision

O dan Opsiwn 3, byddai deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant. Byddai'r strategaeth yn cynnwys amcanion a ddewiswyd gan Weinidogion Cymru yn ymwneud â phob un o'r nodau eang a nodir yn Adran 1 ac yn cynnwys amcanion sy'n berthnasol i'w pwerau i ddarparu cyllid i unrhyw berson sy'n hyrwyddo'r amcanion eang. Byddai'n ofynnol iddynt lunio eu strategaeth gyntaf erbyn 2010 a chadw golwg ar eu strategaeth yn gyson a'i hail-lunio neu ei hadolygu. Byddai'n ofynnol iddynt gyhoeddi'r strategaeth pan fyddant yn ei llunio, ei hail-lunio neu ei hadolygu a byddai'n ofynnol iddynt osod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn cynnwys asesiad o'r graddau y maent wedi cyflawni eu hamcanion neu i ba raddau y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion, a hynny bob tair blynedd gan ddechrau yn 2013. Byddai'n ofynnol iddynt osod copi o'r adroddiad hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant a byddai'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni pan fyddai'r awdurdod yn cyhoeddi cynllun o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

O dan Opsiwn 3, byddai'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cymreig eraill lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant. O ran yr 'awdurdodau Cymreig' hynny sydd wedi ymrwymo mewn trefniant o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004, byddai'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yn cael ei chyflawni os yw'r strategaeth yn rhan annatod o gynllun a gyhoeddir o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004 gan bob awdurdod lleol y maent wedi ymrwymo mewn trefniant ag ef o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004.

O ran yr awdurdodau Cymreig hynny nad ydynt wedi ymrwymo mewn trefniant o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004, byddai'n ofynnol iddynt lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant.

Gall Gweinidogion Cymru ystyried ymgorffori CNLCau nad oes modd eu cynnwys yn Adran 5A yn rhan o'u strategaethau a mynd i'r afael ag unrhyw gamau y bwriedir iddynt gael eu cymryd drwy eu llythyron cylch gwaith.

Opsiwn 3 yw'r opsiwn mwyaf manteisiol o ran cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru ac, yn ogystal â'r effeithiau byrdymor, bwriedir i'r strategaethau helpu i gyflawni nifer o ymyriadau sylweddol yn y tymor canol i'r tymor hir.

6.3 Asesu'r Gystadleuaeth

Mae'r prawf ar gyfer hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal ac mae wedi dangos nad oes unrhyw bryderon o ran y gystadleuaeth, ac felly bod y risg o gael effaith niweidiol ar y gystadleuaeth yn isel. Nid oes goblygiadau yn gysylltiedig â'r darpariaethau hyn o ran y farchnad ac ni fydd cyflwyno Mesur Cynulliad yn arwain at unrhyw newidiadau i'r gystadleuaeth bresennol. Caiff hyn ei adolygu a'i ailystyried wrth i wybodaeth fwy penodol ddod i law.

7. Rhan 1 Pennod 1: Dileu Tlodi Plant (Adrannau 6-9) Rhan 1 Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan (Adrannau 9A a 9B) Rhan 1 Pennod 3: Arolygu, Canllawiau a Chyfarwyddiadau (Adrannau 9C-9F, 10 ac 11)

Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi dyletswyddau ychwanegol ar Awdurdodau Lleol o ran:

1. darparu gofal plant rhagnodedig yn ddi-dâl yn unol â rheoliadau a chanllawiau;
2. ystyried rheoliadau a/neu ganllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau cymorth i rieni;
3. ystyried rheoliadau a/neu ganllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd;
4. asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol;
5. gwneud trefniadau i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod lleol a allai effeithio arnynt.

Hefyd, bydd y Mesur yn cynnwys darpariaeth i arolygu arfer y swyddogaethau newydd hyn gan awdurdod lleol.

Diben y ddeddfwriaeth yn bennaf yw caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant yn ddi-dâl i blant dwy flwydd oed ynghyd â gwasanaethau eraill gan gynnwys mwy o ddosbarthiadau gan ymwelwyr iechyd a dosbarthiadau rhianta mewn ardaloedd penodol os penderfynir trosglwyddo'r cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg i'r Grant Cynnal Refeniw yn y dyfodol.

Y mae hefyd yn un o'r dulliau yn y Mesur hwn y gall awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio yng nghyd-destun gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd drwy grant penodol Cymorth, yn benodol pwerau awdurdodau lleol i sicrhau darparu gwasanaethau a phwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau'r gwasanaethau hynny.

Y symiau ariannol a ddyfynnir drwy'r ddogfen hon fydd y symiau hynny a neilltuir ar gyfer costau rhaglenni oni nodir fel arall. Nodir y ffigurau fel arfer ar ffurf £k (miloedd) a £m (miliynau) ac fe'u talgrynnir i fyny neu i lawr i un lle degol, fel y bo angen.

Y Cefndir – Dechrau'n Deg

Y nod cyntaf o blith Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc, yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yw ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd. Caiff hyn ei nodi yn Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Tlodi Plant *Dyfodol Teg i'n Plant* - lle gwnaed darpariaeth y byddai cyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer ardaloedd difreintiedig yn seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol ynghylch effeithiolrwydd gwasanaethau o safon uchel yn y blynyddoedd cynnar. Mae hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ddogfen *Cymru'n Un* lle nodir ymrwymiad i "symud ymlaen gyda darparu gofal plant cyffredinol a fforddiadwy, ac yn benodol gofal plant o ansawdd uchel ac yn ddi-dâl i blant dwy oed yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf". Dechrau'n Deg yw'r cyfrwng i wireddu'r ymrwymiadau hyn.

Lansiwyd y rhaglen Dechrau'n Deg yn 2006-07. Mae ar hyn o bryd yn y broses o gael ei gwerthuso a chaiff y polisi sy'n sail i'r rhaglen hon ei ddatblygu ymhellach yng ngoleuni'r gwerthusiad hwnnw a thrwy ymgynghori â phartneriaid. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil a wnaed bod gwasanaethau dwys ac o safon uchel yn arwain at well canlyniadau yn y tymor hir. Mae'r rhaglen yn darparu buddsoddiad wedi'i dargedu at blant hyd at dair blwydd oed yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru a'i nod yw gwella'r cyfleoedd ym mywydau'r plant hyn. Diffinnir yn y canllawiau yr hawliau y dylai teuluoedd yn yr ardaloedd a dargedir fedru manteisio arnynt. Penderfynir ar y cydbwysedd rhwng y gwahanol elfennau gan y disgresiwn a ganiateir yn y lleol, yn eu plith:-

- gofal plant rhan amser o safon ar gyfer plant dwy flwydd oed (o'r tymor cyntaf yn dilyn eu pen-blwydd yn ddwy oed hyd at y tymor cyntaf yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed);
- mwy o wasanaethau ymwelwyr iechyd (gydag uchafswm y gymhareb rhwng ymwelwyr iechyd a phlant yn 1 ymwelydd iechyd am bob 110 o blant);
- rhaglenni rhianta.

Denodd y rhaglenni Dechrau'n Deg ledled Cymru £27m yn 2008-09 gan gynorthwyo dros 16,000 o blant. Mae hyn yn cynyddu i £28.1m yn 2009-10 a £31m yn 2010-11. Yn ogystal â hynny, mae cyllid cyfalaf o £3.9m y flwyddyn ar gael am y blynyddoedd rhwng 2008 a 2011 ar gyfer rhaglenni Dechrau'n Deg. Yn 2010-11 bydd swm ychwanegol o £7m yn cael ei drosglwyddo o'r rhaglen Cymorth gan arwain at ddyraniad refeniw o £38m ar gyfer Dechrau'n Deg am y flwyddyn honno.

Nid oes bwriad ar hyn o bryd i drosglwyddo'r cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg i'r Grant Cynnal Refeniw.

Ceir darpariaeth yng Nghanllawiau Dechrau'n Deg ar gyfer 2009-10 bod cyllid i'w dargedu at y dalgylchoedd mwyaf difreintiedig, fel arfer dalgylchoedd ysgolion. Rhaid i'r cyllid dargedu ardaloedd lle bo amddifadedd lluosog. Nid yw dalgylchoedd ysgolion, fodd bynnag, yn cyfateb bob tro â daearyddiaeth

leol amddifadedd lluosog. Yn yr achos hwn, gall partneriaethau gyflwyno addasiadau i ardaloedd targed dalgylchoedd ysgolion er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad gytuno arnynt. Diffinnir ardaloedd o'r fath ar sail cod post a/neu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Bu cryn ddadlau ynghylch y trefniadau ar gyfer targedu adeg yr ymgynghori ar y ddogfen *Gweithredu ar Dlodi Plant* ac mae'r adolygiad yn eu cylch yn mynd rhagddo o hyd.

Y Cefndir: Cymorth

Nod Cymorth yw defnyddio gwaith partneriaeth a buddsoddiad wedi'i dargedu mewn cymunedau difreintiedig i hyrwyddo'r Saith Nod Craidd ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn chwalu'r cylch amddifadedd sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc.

Mae'r grant Cymorth yn cynnwys y pum thema canlynol ar gyfer gweithgareddau:

A – Cymorth i deuluoedd (sicrhau bod teuluoedd yn medru cael gafael ar gymorth a fydd yn meithrin perthynas gadarnhaol rhwng rhieni a phlant)

B – Hybu iechyd (hybu datblygiad iach plant (gan gynnwys cyn iddynt gael eu geni) a phobl ifanc drwy ddarparu cymorth iechyd cymunedol mwy dwys neu chwalu'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cael gwasanaethau iechyd prif ffrwd)

C – Chwarae, hamdden a chyfoethogi (datblygu cyfleoedd chwarae sy'n briodol i'r oedran, a thrwy hynny gynorthwyo gyda'u datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, deallusol a chreadigol)

D – Grymuso, cyfranogi a dinasyddiaeth weithgar (datblygu a chynnal ffurfiau o gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n eu grymuso i gyfranogi'n llawn yn eu cymuned leol ac yn y gymuned ehangach)

E - Hyfforddi, mentora a gwybodaeth (sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad at ystod eang o gyfleoedd addysg, hyfforddi a dysgu, gan gynnwys datblygu sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol)

Trosglwyddwyd chweched thema - Creu darpariaeth gofal plant *(*Creu darpariaeth gofal plant o ran ei hansawdd, ei hamrywiaeth, ei hwylustod a sicrhau bod pobl yn gallu ei fforddio, yn enwedig o fewn ardaloedd targed Cymorth ond nid o fewn yr ardaloedd hynny yn unig) – i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2008/09.

Wrth asesu a yw'r gwasanaethau a gynigir yn briodol i'w hariannu drwy'r rhaglen Cymorth, caiff model sy'n cael ei gydnabod yn eang, sef y model 'haenau angen', ei ddefnyddio. Mae gwasanaethau Cymorth yn cael eu darparu fel rheol ar Haen 2 er bod Themâu C a D, sy'n deillio o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ar Haen 1. Gwelir isod fersiwn o'r model a addaswyd ar gyfer Cymorth:

- Haen 1 – gwasanaethau sydd ar gael i bawb megis gwybodaeth gyffredinol a chyngor cyffredinol ei natur, tai, hawliau lles, dysgu, cyflogaeth, iechyd y cyhoedd, hunanofal, hybu iechyd - sef y gwasanaethau hynny y byddwn ni i gyd yn eu defnyddio ar ryw adeg neu'i gilydd.

- Haen 2 – gwasanaethau ymyrryd cynnar neu wasanaethau ataliol (ymyriadau gan yr unigolyn ei hun â chymorth); efallai y bydd angen gwasanaethau o'r fath ar 20% o'r boblogaeth ar ryw adeg neu'i gilydd yn ystod eu hoes. Nodweddion sy'n perthyn i'r grŵp hwn yw bod ganddynt anghenion ychwanegol, bod risg isel i ganolig y cânt eu hallgáu a'u bod yn ddibynnol ar eraill. Gall yr ymyriadau hyn gynnwys y rheini sy'n cael eu cynnig i bawb sy'n perthyn i gymuned ddifreintiedig neu mewn ysgol sy'n gwasanaethu cymuned o'r fath, gan mai dyna'r ffordd orau o gyrraedd y bobl hynny y mae angen y gwasanaethau arnynt.

- Haen 3 - gwasanaethau mwy dwys sy'n anelu at osgoi sefyllfa'n dwysáu i'r lefel uchaf o ran angen neu adfer lefel yr annibyniaeth i'r hyn y gall yr unigolyn dan sylw ei gyflawni. Gallai'r gwasanaethau hyn gynnwys gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o gyflyrau hirdymor neu sydd ag anghenion hirdymor lle bo risg i ddiogelwch, annibyniaeth a chynhwysiant. Bydd hyn yn golygu rhoi cymorth wedi'i gynllunio dros gyfnod byr er mwyn iddynt adennill eu hannibyniaeth. Maent yn cynnwys plant mewn angen a phlant y mae angen eu hamddiffyn a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae'n bosibl y bydd angen gwasanaethau o'r fath ar 15% o'r boblogaeth. Maent yn cynnwys asesiadau o anghenion arbenigol neu amlddisgyblaethol a rheoli achosion.

- Haen 4 - gwasanaethau ar gyfer anghenion arbenigol, acìwt a chymhleth gan gynnwys ymyriadau dwys byrdymor mewn argyfwng ac ymyriadau statudol.

Mae'r ddyletswydd arfaethedig newydd ar awdurdodau lleol i bennu amcanion mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd a chyfranogiad yn ogystal â'r pwerau arfaethedig newydd a'r dyletswyddau posibl sy'n gysylltiedig â phwerau gwneud rheoliadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau cymorth i rieni'n cael eu darparu; bod gwasanaethau cymorth iechyd yn cael eu darparu i rieni a phlant; bod cyfleoedd chwarae digonol yn cael eu darparu a bod plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol, yn cwmpasu gweithgareddau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal o dan Thema A Cymorth (Cymorth i Deuluoedd), Thema B (Hybu Iechyd), Thema C (Chwarae, hamdden a chyfoethogi) a Thema D (Grymuso, cyfranogi a dinasyddiaeth weithgar).

Ar hyn o bryd mae Cymorth yn cefnogi tua 1,100 o brosiectau ledled Cymru yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y canllawiau fel a ganlyn:-

- Gweithredu ar y blaenoriaethau a nodir yn y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc drwy fuddsoddi'r grant Cymorth fel y nodir yn y canllawiau.

- Canolbwyntio ar yr elfennau o risg sy'n arwain at anghydraddoldeb o ran canlyniadau (Themâu A a B Cymorth)
- Sicrhau darparu cyfleoedd chwarae digonol a mynediad iddynt ar gyfer plant a phobl ifanc drwy gynnal asesiadau lleol o'r ddarpariaeth a'r angen.
- Sicrhau bod seilwaith yn ei le yn lleol i gefnogi'r broses lle bo plant a phobl ifanc 0-25 oed yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd hyn yn cynnwys, fan leiaf, gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu a rhoi yn ei lle Strategaeth Cyfranogiad Lleol fel y nodir yn y Canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys gweithio i sicrhau bod y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cael eu bodloni'n lleol.

Yn 2007-08 neilltuwyd £51.7m i bartneriaethau awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys swm o £335k ar gyfer pob awdurdod gyda'r gweddill yn cael ei gyfrif ar sail y fformiwla am yr elfen dybiannol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant o fewn yr Asesiad o Wariant Safonol. Yn 2008-09, bydd £51.7m yn cael ei ddarparu gydag atodiad trosiannol ychwanegol a fydd yn codi'r swm hwn i £52.3m, sy'n adlewyrchu'r angen i ailgomisiynu portffolio gwasanaethau Cymorth o fewn y gyllideb sydd ar gael am y ddwy flynedd nesaf. Gwerth y grant am 2009-10 yw £51.7m ac yn 2010-11 caiff y grant ei ostwng i £46.2m gan adlewyrchu trosglwyddo swm o £7m i'r rhaglen Dechrau'n Deg. Cafodd Dechrau'n Deg ei ariannu i ddechrau ar y dybiaeth y câi hanner y buddsoddiadau cyfredol yn y rhaglen Cymorth ar gyfer y grŵp oedran 0-3 ei addasu er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o gyflwyno Dechrau'n Deg. Er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i'r rhaglen Dechrau'n Deg gyflawni ei hamcanion mae Llywodraeth y Cynulliad felly yn trosglwyddo £7m (oddeutu 13.5% o'r dyraniadau ar gyfer Cymorth) o'r rhaglen Cymorth i'r rhaglen Dechrau'n Deg am y flwyddyn ariannol 2010-11. Bydd hyn yn sicrhau bod Dechrau'n Deg yn parhau'n rhaglen sy'n cael ei thargedu'n benodol a bydd yn caniatáu i ychydig mwy o fuddsoddiad sef £2,100 y plentyn gael ei wneud. Bydd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau dros gyfnod o amser ac yn gwarantu'r adnoddau sydd ar gael yn ardaloedd Dechrau'n Deg.

O ran targedu'r cymorth hwn, mae'n ofynnol i bartneriaethau ganolbwyntio ar wardiau sydd wedi'u dynodi'n ardaloedd targed Cymorth (a ddylai fel rheol gynnwys ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf/Cymunedau Nesaf). Mae ganddynt hefyd y disgresiwn i gynnig rhai gwasanaethau yn ehangach - er enghraifft er mwyn adlewyrchu cymunedau angen nad ydynt yn ddaearyddol eu natur, er enghraifft plant anabl; neu lle gwelir mai gwasanaeth a ddarperir y tu allan i gymuned y teulu agos yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â dadrithiad ac allgau.

Ar hyn o bryd, mae Cymorth yn cael ei dalu i awdurdodau lleol fel grant penodol drwy ddefnyddio'r pŵer rhoi grant sydd yn Neddf Addysg 2002. Fodd bynnag, mae pwysau yn gyffredinol ar i Lywodraeth Cynulliad Cymru drosglwyddo cynlluniau grant penodol i'r setliad cyffredinol (hynny yw, y Grant Cynnal Refeniw) ac uno a symleiddio pa rai bynnag sy'n weddill. Ar ôl ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), dechreuodd y symudiad tuag at y Grant Cynnal Refeniw drwy drosglwyddo adnoddau a

oedd ynghlwm wrth thema Cymorth ‘Creu darpariaeth gofal plant’ ar gyfer 2008. Y cytundeb a wnaed gyda CLlLC yw y bydd gweddill Cymorth yn cael ei symud yn raddol, dros dair blynedd ariannol, gan ddechrau yn 2011-12, i’r Grant Cynnal Refeniw cyn belled ag y bo darpariaeth ddeddfwriaethol briodol wedi’i rhoi yn ei lle i sicrhau y bydd y gwaith o ddarparu’r gwasanaethau hyn yn mynd yn ei flaen. Yn y cyd-destun hwn, dylid nodi bod darpariaeth ddeddfwriaethol eisoes yn ei lle ar gyfer Thema E Cymorth (Hyfforddi, mentora a gwybodaeth) yn adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Y bwriad yw y bydd y ddarpariaeth mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn pennu amcanion fel Adran 2 (3) yn ategu hyn.

Dyletswydd bosibl ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael yn ddi-dâl

Mae’r ddyletswydd bosibl hon yn adlewyrchu’r gweithgareddau y mae’r rhaglen Dechrau’n Deg yn eu hariannu ar hyn o bryd.

Mae’r adran hon yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau, drwy reoliadau, i’w gwneud hi’n ddyletswydd ar i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant yn ddi-dâl mewn rhai ardaloedd penodol. Y bwriad yw y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio pwerau a roddwyd iddynt yn yr adran hon i wneud rheoliadau a fyddai’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant yn ddi-dâl i blant rhwng dwy a thair blwydd oed mewn ardaloedd a dargedwyd yn ardaloedd difreintiedig fel y nodir mewn rheoliadau a chanllawiau. Ni chaiff rheoliadau o'r fath eu gwneud oni wneir penderfyniad i symud y cyllid sydd ar hyn o bryd yn gysylltiedig â Dechrau'n Deg i'r Grant Cynnal Refeniw. Byddai'r rheoliadau a'r canllawiau hefyd yn lliwio'r math o ddarpariaeth sydd i'w chynnig. Bydd pob is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Ni fwriedir i’r ddyletswydd bosibl ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal plant o ddisgrifiad rhagnodedig yn ddi-dâl mewn ardaloedd penodol roi unrhyw feichiau newydd ar awdurdodau lleol heblaw'r rheini sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r rhaglen Dechrau'n Deg ar y lefelau cyfredol.

Gwasanaethau cymorth i rieni

Mae’r adran hon yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol sicrhau darparu gwasanaethau cymorth i rieni a chaiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â hwy. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, drwy reoliadau (a chanllawiau), sicrhau bod y cyfryw wasanaethau ar gael i rieni yn ddi-dâl mewn ardaloedd a bennir naill ai Weinidogion Cymru neu gan awdurdodau lleol yn unol â chanllawiau. Caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau a roddir iddynt yn yr Adran hon i wneud rheoliadau ac i gyhoeddi canllawiau a fydd yn adlewyrchu'r gweithgareddau a gyflawnir ar hyn o bryd yn y cyd-destun hwn o dan grantiau penodol Dechrau'n Deg. Cânt eu defnyddio hefyd i ragnodi gwasanaethau i’w sicrhau gan awdurdodau lleol yng nghyd-destun gweithgareddau mewn perthynas â rhaglen Cymorth.

Mae gweithgareddau rhianta Dechrau'n Deg yn cydnabod mai'r rhieni, ym mhob achos o'r bron, yw'r dylanwad allanol cyntaf a phwysicaf ar y ffordd y mae babanod a phlant bach yn datblygu. Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n cael perthynas gynnes, sicr a chariadus gydag o leiaf un prif ofalwr yn fwy tebygol o ffynnu a bod yn gryf yn wyneb unrhyw anawsterau yn y dyfodol, na'r rhai sydd heb berthynas o'r fath. Mae'r modd y mae rhieni ac eraill sy'n rhoi gofal yn trin plant, yn cynnal perthynas â hwy ac yn ymateb i'w hanghenion corfforol ac emosiynol yn medru dylanwadu ar eu llesiant a'u hymddygiad, a bydd y dylanwad hwnnw'n parhau drwy eu plentyndod, drwy gyfnod y glasoed a phan fyddant yn oedolion.

Nod Thema A Cymorth 'cymorth i deuluoedd' yw sicrhau bod teuluoedd yn medru cael gafael ar gymorth a fydd yn meithrin perthynas gadarnhaol rhwng rhieni a phlant. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Nodau Craidd er mwyn: 'Sicrhau bod pob plentyn yn cael dechrau da mewn bywyd a'r sylfeini gorau posibl ar gyfer ei dwf a'r datblygiad yn y dyfodol', a; 'Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio'.

Ni fwriedir i'r ddyletswydd arfaethedig ar awdurdodau lleol i sicrhau darparu gwasanaethau cymorth i rieni roi unrhyw feichiau newydd ar awdurdodau lleol heblaw'r rheini sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r elfennau perthnasol o raglenni Dechrau'n Deg a Chymorth.

Gwasanaethau cymorth iechyd

Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol sicrhau darparu gwasanaethau cymorth iechyd a chaiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â hwy. Mae hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, trwy reoliadau (a chanllawiau), sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael i rieni a phlant yn ddi-dâl mewn ardaloedd a bennir naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdodau lleol yn unol â chanllawiau. Caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau a roddir iddynt yn yr Adran hon i wneud rheoliadau ac i gyhoeddi canllawiau a fydd yn adlewyrchu'r gweithgareddau a gyflawnir ar hyn o bryd yn y cyd-destun hwn o dan grantiau penodol Dechrau'n Deg. Cânt eu defnyddio hefyd i ragnodi gwasanaethau i'w sicrhau gan awdurdodau lleol yng nghyd-destun gweithgareddau mewn perthynas â rhaglen Cymorth.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cydnabod y gall cynyddu'r cymorth ymwelwyr iechyd ddod â manteision i deuluoedd sydd angen y cymorth hwnnw. Mae crynhoad uwch o adnoddau sydd wedi'u targedu at blant agored i niwed a'u teuluoedd yn helpu yn y frwydr yn erbyn anfantais gymdeithasol ac economaidd.

Diben Thema B Cymorth - Hybu Iechyd - yw hybu datblygiad iach plant (gan gynnwys cyn iddynt gael eu geni) a phobl ifanc drwy ddarparu cymorth iechyd cymunedol mwy dwys neu chwalu'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cael gwasanaethau iechyd prif ffrwd. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r Nod Craidd,

sef 'sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio'.

Ni fwriedir i'r ddyletswydd arfaethedig ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd a gwasanaethau ataliol [rhagnodedig] roi unrhyw feichiau newydd ar awdurdodau lleol heblaw'r rheini sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r elfennau perthnasol o raglenni Dechrau'n Deg a Chymorth.

Dyletswyddau awdurdodau lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant

Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn ac yn enwedig Erthygl 31.1. sy'n datgan fel a ganlyn: "State Parties recognise the right of the child to rest and leisure, to engage in play and recreational activities appropriate to the age of the child and to participate freely in cultural life and the arts." a hefyd Erthygl 31.2 sy'n datgan fel a ganlyn "State Parties shall respect and promote the right of the child to participate fully in cultural and artistic life and shall encourage the provision of appropriate and equal opportunities for cultural, artistic, recreational and leisure activity". Caiff yr ymrwymiad hwn ei adlewyrchu mewn gweithgareddau a wneir yng nghyd-destun Thema Cymorth sef Chwarae, Hamdden a Chyfoethogi ac yn nogfen Llywodraeth y Cynulliad sef *Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae.*

Mae'r ddyletswydd yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i sicrhau y darperir cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth ynghylch y broses hon a chasglu tystiolaeth o'i heffaith drwy gyflawni asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardal yn unol â rheoliadau a chanllawiau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae hyn yn unol â'r flaenoriaeth a nodir yng nghanllawiau Cymorth y dylai awdurdodau lleol sicrhau darparu cyfleoedd chwarae digonol a mynediad iddynt ar gyfer plant a phobl ifanc drwy gyflawni asesiadau lleol o'r ddarpariaeth a'r angen. Ceir darpariaeth yn y canllawiau hefyd y dylai cyllid Cymorth gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i ddatblygu cyfleoedd chwarae sy'n briodol i'r oedran a, thrwy hynny, gynorthwyo â'u datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, deallusol a chreadigol. Yn unol â hyn, bydd y ddyletswydd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a chyhoeddi Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn unol â rheoliadau a fydd yn pennu trefniadau ar gyfer ei gyhoeddi a pha mor aml y bydd yn rhaid ei gynnal ac yn unol â chanllawiau ar gynnwys yr Asesiad. Bydd y canllawiau yn gosod 'chwarae' (gan gynnwys hamdden) yng nghyd-destun Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae. Bwriedir y caiff y canllawiau gynnwys hefyd Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer darpariaeth chwarae yn ogystal â Chanllawiau Cymorth. Mae'r elfen hon o'r Mesur yn nodi'n benodol bod yn rhaid rhoi sylw i anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anableddau o ran cael mynediad i gyfleoedd chwarae ac anghenion plant o wahanol oedrannau.

Ni fyddai'r ddyletswydd arfaethedig ar awdurdodau lleol ynghylch chwarae yn rhoi unrhyw feichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol heblaw'r rheini sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r elfennau perthnasol o raglenni Cymorth a Dechrau'n Deg.

Plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod lleol

Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu ac yn deillio o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen wrth wneud polisïau ar gyfer plant (a phobl ifanc), ac yn arbennig Erthygl 12.1 sy'n datgan fel a ganlyn: "State Parties shall assure to the child which is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child, the views of the child being given due weight in accordance with the age and maturity of the child".

Mae'r ddarpariaeth yn y Mesur wedi'i chyfyngu i blant (0-8) oherwydd mae adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant yn cymryd rhan.

Nodir yng nghanllawiau Cymorth ar hyn o bryd y dylai awdurdodau lleol, fel blaenoriaeth, sicrhau bod seilwaith yn ei le yn lleol i gefnogi'r broses lle bo plant a phobl ifanc 0-25 oed yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd hyn yn cynnwys, fan leiaf, gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu a rhoi yn ei lle Strategaeth Cyfranogiad Lleol fel y nodir yn y Canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys gweithio i sicrhau bod y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cael eu bodloni'n lleol.

Nodir yn y canllawiau mai nod Thema D – Grymuso, Cyfranogi a Dinasyddiaeth Weithgar yw datblygu a chynnal ffurfiau o gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n eu grymuso i gyfranogi'n llawn yn eu cymuned leol ac yn y gymuned ehangach. Bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod sy'n effeithio arnynt ac, yn arbennig, bydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi gwybodaeth ynghylch y trefniadau hyn.

Mae'r Mesur hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i gyhoeddi canllawiau a allai gynnwys canllawiau ar ddatblygu Strategaethau Cyfranogiad Lleol gan ymgorffori'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Mae hyn eto yn unol â darpariaethau canllawiau Cymorth a ddywed y dylid eu darllen ar y cyd â'r Canllawiau ymgynghorol ar Strategaethau Cyfranogiad Lleol sydd ar hyn o bryd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau*. Ceir yng Nghanllawiau'r Strategaethau Cyfranogiad Lleol fanylion penodol ynghylch disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r seilwaith y mae angen i'r Partneriaethau ei sefydlu yn lleol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn effeithiol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Trefniadau Arolygu

Hefyd, mae'r Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag arolygu arfer dyletswyddau gan awdurdodau lleol yn achos:

- lleoedd gofal plant di-dâl
- gwasanaethau cymorth i rieni
- gwasanaethau cymorth iechyd
- cyfleoedd chwarae digonol
- trefniadau mewn perthynas â chymryd rhan

7.1 Opsiynau

Mae'r tri opsiwn canlynol yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r dyletswyddau newydd arfaethedig:

- Opsiwn 1: Gwneud dim (Trosglwyddo Cymorth i'r Grant Cynnal Refeniw o 2011 ymlaen, parhau i ariannu Dechrau'n Deg drwy grant penodol am y tro)
- Opsiwn 2: Gwneud cyn lleied â phosibl (Parhau i weithredu'r cynlluniau grant penodol Cymorth a Dechrau'n Deg heb ddeddfu)
- Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad a fydd yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau Cymru i:

    - ddarparu gofal plant rhagnodedig yn ddi-dâl yn unol â rheoliadau a chanllawiau;
    - ystyried rheoliadau a/neu ganllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau cymorth i rieni;
    - ystyried rheoliadau a/neu ganllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd;
    - sicrhau cyfleoedd chwarae digonol;
    - gwneud trefniadau i hybu a hwyluso cyfranogiad.

Bydd hefyd yn rhoi i awdurdod lleol y pŵer i sicrhau gwasanaethau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd.

Opsiwn 1: Gwneud dim (Trosglwyddo Cymorth i'r Grant Cynnal Refeniw o 2011 ymlaen)

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai deddfwriaeth yn cael ei datblygu i roi'r gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd gan raglenni grant penodol Cymorth a Dechrau'n Deg ar sail statudol. Tra bo Deddf Plant 2004, Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007, a chylchlythyr 35/2006 Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau, oll yn hyrwyddo cynllunio a chydweithredu cynhwysfawr er budd plant a phobl ifanc, nid oes deddfwriaeth benodol yn bod ar hyn o bryd sy'n sail i'r gwasanaethau a'r

rhaglenni arbennig sy'n derbyn cymorth drwy'r rhaglen Cymorth ar gyfer y plant mwyaf difreintiedig.

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cynlluniau i drosglwyddo cyllid Cymorth i'r Grant Cynnal Refeniw dros gyfnod o dair blynedd o 2011-12 ymlaen yn cael eu rhoi ar waith a byddai nifer y gweithgareddau sy'n derbyn cymorth ar hyn o bryd yn uniongyrchol gan y rhaglen Cymorth yn cael eu lleihau yn raddol dros y tair blynedd o 2011 ymlaen. O ystyried y pwysau o gyfeiriadau eraill ar y Grant Cynnal Refeniw, mae'n bosibl na fyddai awdurdodau lleol yn parhau i wario ar y lefelau presennol ar wasanaethau Cymorth. Yn hytrach, mae'n bosibl y gallai cyllid Cymorth gael ei ddefnyddio i ariannu blaenoriaethau eraill gan Awdurdodau Lleol o fewn haen 1 (darpariaeth gyffredinol) a/neu haenau 3 a 4 (ariannu mewn argyfwng) yn unol â dyletswyddau statudol cyfredol, gan olygu na fyddai digon o gyllid i barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Cymorth ar haen 2 (anstatudol o dan yr opsiwn hwn).

Gallai'r ymrwymiad yn y ddogfen Cymru'n Un sef "byddwn yn cefnogi'r nod o haneru tlodi ymhlith plant erbyn 2010 a diddymu tlodi ymhlith plant erbyn 2020" gael ei gyfaddawdu gan ddiffyg buddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, a gallai fod yn anos bodloni ymrwymiad Cymru'n Un i adeiladu ar yr hyn a gyflawnir gan y rhaglenni yn erbyn tlodi sydd ar waith ar hyn o bryd.

Gallai goblygiadau colli'r gwasanaethau hyn fod yn sylweddol o ran yr angen am wasanaethau ar Haenau 3 a 4 gan mai bwriad y gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd drwy'r rhaglen Cymorth yw cyfrannu at atal yr angen am ymyrryd yn ddiweddarach mewn argyfwng.

Yn yr un modd, yn absenoldeb deddfwriaeth, gallai gweithgareddau'n gysylltiedig â'r dyletswyddau arfaethedig ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chwarae a chyfranogiad fod o dan fygythiad. Gallai hyn gyfaddawdu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i erthyglau 12.1, 31.1 a 31.2 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Opsiwn 1 yw'r opsiwn lleiaf tebygol felly o gyflawni'r nodau a gyhoeddwyd yng nghyd-destun Cymorth a Dechrau'n Deg petai'r penderfyniad yn cael ei wneud i drosglwyddo'r cyllid sy'n gysylltiedig â Dechrau'n Deg ar ryw adeg neu'i gilydd yn y dyfodol. Gallai'r ymrwymiad yn y ddogfen Cymru'n Un sef "byddwn yn cefnogi'r nod o haneru tlodi ymhlith plant erbyn 2010 a diddymu tlodi ymhlith plant erbyn 2020" gael ei gyfaddawdu gan leihad yn y buddsoddiad mewn gwasanaethau ar Haen 2 ar gyfer plant a phobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt a byddai'n anos diwallu ymrwymiad Cymru'n Un i adeiladu ar yr hyn a gyflawnir gan y rhaglenni yn erbyn tlodi sydd ar waith ar hyn o bryd. Yng nghyd-destun Dechrau'n Deg, er nad yw'r amseru mor allweddol gan nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i symud o drefn ariannu sy'n seiliedig ar grantiau tuag at sylfaen ariannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ni fyddai'r opsiwn hwn yn hyrwyddo ymrwymiad Cymru'n Un "i ddatblygu darpariaeth gofal plant fforddiadwy i bawb, gan gynnwys gofal plant

o ansawdd uchel, yn rhad ac yn ddi-dâl i blant dwy oed yn yr ardaloedd mwyaf anghenus".

Opsiwn 2: Gwneud cyn lleied â phosibl (Parhau i weithredu'r cynlluniau grant penodol Cymorth a Dechrau'n Deg heb ddeddfu)

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cynlluniau grant penodol Cymorth a Dechrau'n Deg yn parhau i ariannu'r gweithgaredd hwn. Y mae, fodd bynnag, risg ynghlwm wrth wyrdroi cytundeb a wnaed eisoes i drosglwyddo Cymorth i'r Grant Cynnal Refeniw dros dair blynedd o 2011 ymlaen. Gwnaed y cytundeb hwn drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac, yn arbennig, CLlLC, a chytunwyd ar gynllun amlinellol ar gyfer ei drosglwyddo.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidogion eisoes wedi ymrwymo i drosglwyddo Cymorth i'r Grant Cynnal Refeniw o 2011-12 ymlaen. Cafodd y penderfyniad hwn ei ysgogi gan y gofyniad i barhau i adolygu pob un o'r grantiau penodol drwy'r protocol y cytunwyd arno eisoes gyda CLlLC ac, yn yr achos hwn, y cytundeb a wnaed eisoes gyda CLlLC y byddai'r gwaith o drosglwyddo Cymorth yn ei gyfanrwydd i'r Grant Cynnal Refeniw yn dechrau yn 2011. Seiliwyd y cytundeb hwn ar y ddealltwriaeth y byddai deddfwriaeth newydd yn rhoi gwaith Cymorth ar sail statudol.

Er na fyddai unrhyw oblygiadau negyddol i'r opsiwn hwn o ran diwallu'r amcanion polisi sy'n gysylltiedig â'r agenda Tlodi Plant, byddai effaith gwyrdroi cytundeb o'r fath, er hynny, yn peryglu colli'r ewyllys da â rhanddeiliaid allweddol. Y mae opsiwn 2 felly yn opsiwn sensitif yn wleidyddol a gallai danseilio'r berthynas â phartneriaid gan gynnwys CLlLC, awdurdodau lleol a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Nid oes goblygiadau i'r opsiwn hwn ar gyfer Dechrau'n Deg. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i drosglwyddo Dechrau'n Deg i'r Grant Cynnal Refeniw ac mae'n debygol o barhau'n grant penodol (tan 2011-2012 o leiaf). Byddai parhau â'r rhaglen hon ar ôl 2012 yn dibynnu ar y cyfeiriad i'w fabwysiadu gan Weinidogion a'r cyllid a fydd ar gael.

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad a fydd yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau Cymru i:

- bennu amcanion mewn perthynas â'r nodau eang;
- darparu gofal plant di-dâl a bennir yn unol â Rheoliadau a chanllawiau;
- ystyried rheoliadau a/neu ganllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau cymorth i rieni;
- ystyried rheoliadau a/neu ganllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd.
- sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol yng ngoleuni'r asesiadau lleol o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae;
- gwneud trefniadau i hybu a hwyluso cyfranogiad.

Bydd hefyd yn rhoi pŵer i awdurdod lleol sicrhau gwasanaethau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd, ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag arolygu arfer dyletswyddau gan awdurdodau lleol yn achos:

- lleoedd gofal plant di-dâl
- gwasanaethau cymorth i rieni
- gwasanaethau cymorth iechyd
- cyfleoedd chwarae digonol
- trefniadau mewn perthynas â chymryd rhan

Mae'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu amcanion mewn perthynas â'r nodau eang (gan gynnwys cymorth i rieni a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd, cyfranogi mewn addysg, hyfforddiant a'r gymuned yn ogystal â chynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth) ac mae'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol sicrhau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Byddai hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau a chyhoeddi canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Dechrau'n Deg petai adnoddau'n cael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw a phan fyddai hynny'n digwydd, ond hefyd mewn perthynas â gweithgareddau'n gysylltiedig â'r rhaglen Cymorth (yng nghyd-destun gwasanaethau cymorth i rieni a chymorth iechyd). Mae'r gweithgarwch hwn yn ategu Ymrwymiad Cymru'n Un i "gefnogi'r nod o haneru tlodi ymhlith plant erbyn 2010 a diddymu tlodi ymhlith plant erbyn 2020".

Er bod Deddf Plant 2004 yn hyrwyddo cynllunio a chydweithredu cynhwysfawr er budd plant a phobl ifanc, mae angen deddfwriaeth fwy penodol er mwyn ategu'r gwasanaethau penodol hyn ar gyfer y plant mwyaf difreintiedig.

Ni fyddai hyn yn effeithio ar y gwaith o weithredu Dechrau'n Deg i ddechrau gan y byddai'r rhaglen hon yn parhau i gael ei hariannu drwy grant penodol. Serch hynny, byddai cael pwerau deddfwriaethol newydd parthed gofal plant di-dâl a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â Dechrau'n Deg yn sicrhau trosglwyddiad didrafferth y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Dechrau'n Deg petai'r penderfyniad yn cael ei wneud rywbryd yn y dyfodol i drosglwyddo'r grant i'r Grant Cynnal Refeniw.

O'r herwydd opsiwn 3 sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r nodau cyhoeddedig yng nghyd-destun grant Cymorth ac o bosibl grant Dechrau'n Deg os penderfynir trosglwyddo cyllid Dechrau'n Deg i'r Grant Cynnal Refeniw.

7.2 Costau a Manteision

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth y rhaglen, pa bynnag opsiwn a ddewisir, gan fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn ceisio adlewyrchu'r gweithgareddau sydd eisoes yn mynd rhagddynt yng nghyd-destun grantiau penodol petai'r cyllid hwnnw'n cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw.

Cefndir Ariannol

Cymorth

Neilltuwyd £51.7m i'r rhaglen Cymorth yn 2007-08. Cynyddodd y swm hwn i £52.3m yn 2008-09, a bydd yn gostwng i £51.7m yn 2009-10.

Cyfanswm y buddsoddiad yn 2007-08 ar gyfer y themâu canlynol o fewn Cymorth - Cymorth i Deuluoedd, Hybu Iechyd, Chwarae, Hamdden a Chyfoethogi, a Grymuso, Cyfranogi a Dinasyddiaeth Weithgar oedd £44.2m. Gellir rhannu'r swm hwn yn ôl y themâu unigol fel a ganlyn:-

- Cymorth i Deuluoedd - £17.3m
- Hybu Iechyd - £7.1m
- Chwarae, Hamdden a Chyfoethogi - £6.3m
- Grymuso, Cyfranogi a Dinasyddiaeth Weithgar - £3.9m
- Hyfforddi, Mentora a Gwybodaeth - £9.6m

Mae'r gweddill yn cynnwys costau gwerthuso a chostau canolog, a oedd yn creu cyfanswm o £6.4m, a chostau buddsoddi yn Thema F (Creu Darpariaeth Gofal Plant), a oedd yn creu cyfanswm o £1.1m.

Golyga natur amrywiol y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen hon, sy'n deillio o'r ffaith bod pob awdurdod lleol yn defnyddio cyllid Cymorth ar gyfer rhaglenni a ddatblygir yn unol ag anghenion ac amgylchiadau lleol, nad yw'n bosibl rhoi trosolwg o'r costau a'r allbynnau ar lefel Cymru gyfan. Yn lle hynny, mae'r canlynol yn rhoi cipolwg o weithgarwch o fewn un awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol dan sylw sydd wedi darparu'r holl ddata:

Cyngor Dinas Casnewydd
Dyraniad Cymorth Casnewydd yn 2007-08: £3,455,946

Cod y brif thema	**Disgrifiad o'r brif thema**	**Swm**
A	Cymorth i Deuluoedd	£1,381,946
B	Hybu Iechyd	£415,000
C	Chwarae, Hamdden a Chyfoethogi	£424,000
D	Grymuso, Cyfranogi a Dinasyddiaeth Weithgar	£115,000
E	Hyfforddi, Mentora a Gwybodaeth	£488,000
F	Creu Darpariaeth Gofal Plant	£319,000
CC	Costau canolog	£223,000
EV	Gwerthuso	£90,000
	CYFANSWM	£3,455,946

O'r buddsoddiad hwn, mae'r sampl ganlynol yn amlinellu rhai o'r canlyniadau a nodwyd:-

Gwasanaeth	Cod y Thema	Buddsoddiad	Canlyniad
Cynllun Atgyfeirio Anghenion Arbennig Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (WPPA)	A	£45,000	Wedi galluogi dros 15 o blant ag anableddau i gymryd rhan yng ngweithgareddau eu grŵp chwarae lleol am 2 sesiwn yr wythnos yn ystod tymhorau ysgol ac i elwa arnynt.
Canolfan Integredig Duffryn	A	£145,000	Dosbarth meithrin ar gyfer 80 o blant. Lle i 48 o blant mewn grwpiau chwarae, annog rhagor o famau i fwydo eu babanod ar y fron.
Rhaglen Ddysgu Integredig ar gyfer Teuluoedd	A	£41,000	Dosbarthu 1000 o lyfrau Baban. 200 o deuluoedd yn mynychu cyrsiau laith a Chwarae (LAP), 2600 o fagiau llyfrau wedi'u darparu i'w dosbarthu i deuluoedd.
Datblygu Chwaraeon Diwylliannol Cymunedol	C	£114,000	1239 o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys 255 o ddefnyddwyr newydd.
Rhaglen Celfyddydau Cymunedol Diwylliannol	D	£40,000	3 o weithdai 2 awr o hyd bob wythnos, 10-15 o bobl ifanc anabl yn bresennol ymhob sesiwn. 1 gweithdy 2 awr o hyd bob wythnos, 10-15 o bobl ifanc sy'n Ffoaduriaid ac sy'n Ceisio Lloches.
Cynnwys Plant Anabl	C	£61,000	Bu 68 o blant yn rhan o gynlluniau gwyliau am 3 wythnos yn ystod yr haf, manteisiodd 35 o blant ar ddarpariaeth sy'n cynnig seibiant rheolaidd ar gyfer 36 o deuluoedd

Ystyrir y goblygiadau o ran dosbarthu sy'n deillio o drosglwyddo cyllid Cymorth i'r setliad refeniw. Yn yr un modd ag unrhyw newid o ran dosbarthu i'r cyllid a ddarperir i lywodraeth leol drwy'r setliad o refeniw heb ei neilltuo, caiff hyn ei ystyried drwy ymgynghori â llywodraeth leol drwy'r trefniadau partneriaeth penodol. Ymysg yr hyn a ystyrir fydd sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau.

Dechrau'n Deg

Y dyraniadau dangosol ar gyfer Dechrau'n Deg yn 2008/09, a thros y 2 flynedd ganlynol yw £27m; £28.1m; a £31m. Yn 2010-11, bydd £7m yn ychwanegol yn cael ei drosglwyddo i gyllideb Dechrau'n Deg o gyllideb Cymorth, gan gynyddu swm y grant i £38m. Yn 2008-09 neilltuwyd y cyllid fel a ganlyn:

- £12.3m ar gyfer lleoedd gofal plant di-dâl;
- £7.4m ar gyfer mwy o wasanaethau Ymwelwyr Iechyd
- £1.6m ar gyfer dosbarthiadau rhianta
- £1.1m ar gyfer dysgu a chwarae
- £1.7m ar gyfer y gweithlu
- £3.5m ar gyfer costau canolog/gwerthuso

Llwyddodd y buddsoddiad hwn i sicrhau 8,268 o leoedd gofal plant a darparodd dros 100 o ymwelwyr iechyd ychwanegol.

Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i drosglwyddo cyllid o'r rhaglen Dechrau'n Deg i'r Grant Cynnal Refeniw (RSG).

Opsiwn 1: Gwneud dim (cyllid Cymorth i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw o 2011, dim penderfyniad ar hyn o bryd ynghylch cyllid Dechrau'n Deg)

Ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu ar gyfer rhoi sail statudol i'r rhaglenni Cymorth a Dechrau'n Deg. Byddai cyllid ar gyfer y cynllun Cymorth yn cael ei drosglwyddo'n raddol i'r Grant Cynnal Refeniw dros dair blynedd o 2011 ymlaen. Nid oes unrhyw gynlluniau wedi'u gwneud hyd yma ar gyfer trosglwyddo cyllid Dechrau'n Deg i'r Grant Cynnal Refeniw.

Manteision

Byddai'r opsiwn hwn yn arbed adnoddau o fewn Llywodraeth y Cynulliad.

Amcangyfrifir mai'r trefniadau staffio presennol parthed gweinyddu grant a pholisi Cymorth yw G7 (cyfwerth â 0.3 amser llawn), HEO (cyfwerth â 0.2 amser llawn), ac EO (cyfwerth â 0.5 amser llawn). Byddai hyn yn cynrychioli arbediad o oddeutu £30,000 o safbwynt costau gwirioneddol.

Serch hynny, byddai trosglwyddo cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw yn galluogi awdurdodau lleol i reoli adnoddau'n fwy uniongyrchol a gallai leihau lefel y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynlluniau grant, gan gyflawni arbedion gweinyddol ar lefel awdurdod lleol.

Cyflawnir arbediad o safbwynt yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer datblygu'r Mesur. Yr adnoddau a neilltuir ar hyn o bryd i elfen APADGOS o'r Mesur yw 1 HEO cyfwerth ag amser llawn a Gradd 7 cyfwerth â 0.6 amser llawn. Ar sail y raddfa gyflog ac iddi dri phwynt, golyga hyn y byddai'r arbedion dangosol o ran costau rhedeg tua £56,000. Gellir barnu y bydd tua hanner y

gost hon - £28,000 – yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llunio'r Memorandwm Esboniadol a chyflwyno'r Mesur drafft.

Byddai'r manteision allweddol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys cynnal rhaglen grant benodol Dechrau'n Deg. Byddai disgwyl i fuddsoddiad wedi'i dargedu a buddsoddiad dwys barhau i sicrhau manteision hirdymor ar gyfer plant. Yn y pen draw, byddem yn disgwyl gweld canlyniadau fel gwell cyrhaeddiad addysgol, iechyd a llesiant, ac osgoi troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Er mwyn gallu lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ofal a'r system cyfiawnder ieuenctid ac sy'n derbyn gwasanaethau drud sydd wedi'u targedu mae angen strategaethau cadarn ynghylch ymyrraeth gynnar fel y gellir cynnig rhagor o gymorth i blant a theuluoedd agored i niwed. Mae angen dull system gyfan ar draws awdurdodau lleol ar gyfer mynd i'r afael â hyn a bydd angen i'w partneriaid ddarparu gwasanaethau ar draws y pedair haen o angen.

Dengys ymchwil y gall darparu ystod o ymyriadau cyffredin a rhai wedi'u targedu gael effaith bositif ar les plant. Gall arbedion sylweddol o ran costau drwy gynlluniau ataliol cynnar fel Dechrau'n Deg a Chymorth wneud cyfraniad cymdeithasol ac economaidd allweddol drwy gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol i gynnig cymorth i blant a theuluoedd difreintiedig.

Mae'r ymyriadau cynnar hyn hefyd yn creu'r cysylltiadau pwysig rhwng gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau mwy arbenigol er mwyn lleihau'r angen am ymyriadau mwy drud gan wasanaethau cymdeithasol. Byddai unrhyw leihad yn lefel y gwasanaeth ataliol yn arwain at alw cynyddol am wasanaethau arbenigol mwy dwys sy'n fwy costus. Er enghraifft, mae'r gwariant cyffredinol ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ôl grŵp cleient dros y cyfnod 2001-2007 wedi cynyddu o £745m i £1.25 biliwn. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ym maes anableddau dysgu (cynnydd o 67%) a gwasanaethau plant (cynnydd o 96%).

Mae gan y rhaglenni Dechrau'n Deg a Chymorth gyfraniad cymdeithasol ac economaidd allweddol o ran cynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol â chynnig cymorth i blant a theuluoedd difreintiedig a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at y cynigion ar gyfer teuluoedd mwy cadarn drwy Dimau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Costau

Mae'r costau uniongyrchol o ran adnoddau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi'u neilltuo i weinyddu'r grant Dechrau'n Deg oddeutu G7 cyfwerth â 0.3 amser llawn, HEO cyfwerth â 0.3 amser llawn ac 1 EO. Ar sail y raddfa gyflog ac iddi dri phwynt, cynrychiola hyn gost wirioneddol o £42,700.

Y costau a neilltuir i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i gynnal y seilwaith sylfaenol ar gyfer cyflawni'r cynllun yw £3.5 miliwn ar draws Cymru.

Mae hi'n fwy anodd mesur costau hirdymor yr opsiwn hwn ond ni ddylid eu hanwybyddu. O ran cyfranogiad, er enghraifft, gallai peidio â buddsoddi mewn darparu gwasanaethau Cymorth cysylltiedig olygu bod plant a phobl ifanc yn teimlo ar y cyfan eu bod yn ddi-rym a'u bod mewn gwirionedd yn ddi-rym mewn sawl sefyllfa yn eu bywydau gartref, yn yr ysgol/coleg ac yn y gymuned. Gall hyn arwain at ymddieithriad, dadrithiad, ymddygiad aflonyddgar, diwylliant o fwlio, ac o bosibl mewn rhai achosion trais/ fandaliaeth. Mae gweithio i feithrin eu sgiliau cyfranogi a chreu sefyllfaoedd lle y gall y sgiliau hynny gael eu defnyddio mewn modd buddiol arwain at ragor o hunan-fri a hunanhyder, y gallu i drafod, i wrando, i barchu barn pobl eraill hyd yn oed os yw'n wahanol i'w barn eu hunain ac i bolisïau sy'n well, gan olygu bod plant a phobl ifanc yn rhan o'r ateb yn hytrach na'r broblem.

Gallai'r costau cymdeithasol ac ariannol ehangach o safbwynt canlyniadau lles, capita cymdeithasol a gweithgarwch economaidd a allai ddeillio o leihau'r camau gweithredu ataliol a gynigir gan y rhaglenni Dechrau'n Deg a Chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc fod yn sylweddol a gallent arwain at gynnydd anghymesur yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol ac yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid.

Opsiwn 2: Gwneud cyn lleied â phosibl (Parhau i weithredu'r cynlluniau grant penodol Cymorth a Dechrau'n Deg heb ddeddfu)

Manteision

Mae'r seilwaith eisoes yn bodoli ar gyfer cyflawni'r rhaglenni hyn ac os byddant yn parhau i gael eu hariannu gan grant penodol byddai'r gweithgareddau sy'n deillio ohonynt yn parhau i gael eu diogelu.

Yn yr un modd ag Opsiwn 1, byddai'r rhaglen Dechrau'n Deg yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn ardaloedd a dargedir er mwyn ceisio gwella'r canlyniadau hirdymor ar gyfer plant. Yn ogystal, o dan yr opsiwn hwn, byddai'r gweithgareddau a ariennir gan y rhaglen Cymorth hefyd yn parhau. Disgwylir y bydd y canlyniadau hirdymor o fuddsoddiad Cymorth yn gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer plant a phobl ifanc.

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai costau o ran adnoddau a fyddai'n gysylltiedig â datblygu deddfwriaeth ac o'r herwydd byddai costau'n cael eu harbed. Yr adnoddau a neilltuir ar hyn o bryd i elfen APADGOS o'r Mesur yw 1 HEO cyfwerth ag amser llawn a G7 cyfwerth â 0.6 amser llawn. Ar sail y raddfa gyflog ac iddi dri phwynt, golyga hyn y byddai'r arbedion dangosol o ran costau rhedeg tua £56,000. Yn yr un modd ag Opsiwn 1, bydd tua hanner y gost hon - £28,000 – yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llunio'r Memorandwm Esboniadol a chyflwyno'r Mesur drafft.

Costau

Byddai costau gweithredu'r rhaglenni Cymorth a Dechrau'n Deg yn parhau fel y'u hamlinellir yn Opsiwn 1, uchod, heb unrhyw drosglwyddiad i'r Grant

Cynnal Refeniw.

Gallai penderfyniad i beidio â throsglwyddo cyllid y rhaglenni i'r Grant Cynnal Refeniw danseilio cytundebau blaenorol â rhanddeiliaid allweddol, a cholli ewyllys da – er byddai'n amhosibl mesur cost hyn. Bydd trafodaethau'n dechrau'n fuan rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol ynghylch trosglwyddo rhagor o grantiau i'r Grant Cynnal Refeniw. Byddai gwrthdroi'r penderfyniad i symud y grant hwn i'r Grant Cynnal Refeniw yn gwneud y trafodaethau hyn yn fwy anodd.

Ni fyddai costau gweinyddu is sy'n gysylltiedig â symud oddi wrth gyllid sy'n seiliedig ar grantiau yn cael eu hysgwyddo gan awdurdodau lleol na chan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad

Manteision

Byddai'r opsiwn hwn yn helpu i sicrhau y byddai'r gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd gan y rhaglenni Cymorth a Dechrau'n Deg yn parhau, os byddai'r cyllid grant penodol yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw a phan fyddai hynny'n digwydd. Gallai awdurdodau lleol gyflawni arbedion yn sgil trosglwyddo cyllid i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw gan y byddai'n bosibl iddynt reoli adnoddau yn fwy uniongyrchol.

Byddai'r gweithgareddau allweddol a ariennir ar hyn o bryd drwy raglenni grant penodol Cymorth a Dechrau'n Deg yn parhau. O'r herwydd byddem felly'n disgwyl i hyn arwain at welliant yng nghanlyniadau hirdymor plant a phobl ifanc.

Yn yr un modd ag Opsiwn 1, byddai arbedion o ran Costau Rhedeg o fewn Llywodraeth y Cynulliad petai cyllid Cymorth yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw. Amcangyfrifir mai'r trefniadau staffio presennol o safbwynt polisi Cymorth yw G7 (cyfwerth â 0.3 amser llawn), HEO (cyfwerth â 0.2 amser llawn) ac EO (cyfwerth â 0.5 amser llawn). Byddai hyn yn cynrychioli arbediad amcangyfrifol o ran costau gwirioneddol o £30,000.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2, mae'r seilwaith eisoes yn bodoli ar gyfer cyflawni'r rhaglenni hyn a byddai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn parhau i elwa arnynt. Yn y tymor canol/hir byddai hyn yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau ar Haenau 3 a 4.

Costau

Byddai costau adnoddau cyflawn ar gyfer elfen APADGOS o'r Mesur yn deillio o'r opsiwn hwn. Ar sail y raddfa gyflog ac iddi dri phwynt, golyga hyn y byddai'r Costau Rhedeg tua £56,000, sef 1 HEO cyfwerth ag amser llawn a G7 cyfwerth â 0.6 amser llawn.

Ni fyddai awdurdodau lleol yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol o ran darparu gwasanaethau o dan y dyletswyddau newydd gan eu bod eisoes yn

darparu gwasanaethau cysylltiedig o dan y rhaglenni Cymorth a Dechrau'n Deg.

O ran arolygu arfer y swyddogaethau newydd gan awdurdodau lleol, bwriedir y bydd y trefniadau'n dod yn rhan o'r gyfundrefn arolygu sydd eisoes yn bod. Caiff costau manwl eu cynnwys yn yr arfarniadau effaith rheoleiddiol a fydd yn rhan o'r broses o ddatblygu'r rheoliadau cysylltiedig.

Costau presennol y rhaglenni Dechrau'n Deg a Chymorth yn 2008-09 yw £79.3m - £27m ar gyfer Dechrau'n Deg a £52.3m ar gyfer Cymorth. Y buddsoddiad gwirioneddol yn y rhaglenni, o safbwynt y gweithgareddau a fyddai ynghlwm â'r dyletswyddau newydd, yw £55.6m:-

Dyletswydd/dyletswydd bosibl	**Buddsoddiad presennol Cymorth**	**Buddsoddiad presennol Dechrau'n Deg**	**Cyfanswm**
I sicrhau gofal plant di-dâl (rhagnodedig)	£0	£12.3m	£12.3m
I sicrhau gwasanaethau cymorth i rieni (rhagnodedig)	£17.2m	£1.6m	£18.8m
I sicrhau gwasanaethau cymorth iechyd (rhagnodedig)	£7.1m	£7.4m	£14.5m
I sicrhau cyfleoedd chwarae digonol	£6.2m	£0	£6.2m
Plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod lleol	£3.8m	£0	£3.8m
CYFANSWM			£55.6m

7.3 Asesu'r Gystadleuaeth

Mae'r prawf ar gyfer hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal ac mae wedi dangos nad oes unrhyw bryderon o ran y gystadleuaeth, ac felly bod y risg o gael effaith niweidiol ar y gystadleuaeth yn isel.

Nid yw'r Mesur ond yn cynnig rhoi sail statudol i'r gwasanaethau penodol hynny sydd eisoes yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol drwy gynlluniau grant penodol Cymorth a Dechrau'n Deg. O'r herwydd, gan fod y cynlluniau hyn eisoes wedi'u sefydlu, ni fydd cyflwyno Mesur Cynulliad yn arwain at unrhyw newidiadau i'r gystadleuaeth bresennol.

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	**Ateb ie neu na**
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw unrhyw gwmni yn meddu ar fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Na
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw unrhyw gwmni yn meddu ar fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Na
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn meddu ar o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Na
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau na'i gilydd?	Na
C5: Ydy'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Na
C6: A fyddai'r rheoliad newydd yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na
C8: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i bennu pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu nwyddau?	Na

8. Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd (adrannau 13 – 48)

Ni fydd y cynigion hyn yn effeithio ar allu pobl i gofrestru â Gweinidogion Cymru o dan Ran 10A o Ddeddf Plant 1989 ac ni fyddant ychwaith yn golygu unrhyw gostau rheoleiddio na chostau cydymffurfio ychwanegol. Bydd y cynigion yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym, yn bendant ac yn anghymesur i achos o dorri rheoliadau mewn perthynas â gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd.

Bernir nad yw'n ofynnol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer Rhan 2 y Mesur.

Bydd swyddogion y Cynulliad yn gwerthuso pa mor effeithiol yw unrhyw reoliadau newydd neu reoliadau diwygiedig a lunnir o dan y Mesur hwn o fewn eu 24 mis cyntaf o weithredu. Yn dilyn y gwerthusiad hwn byddwn yn ystyried diwygio'r rheoliadau ymhellach os pennir bod angen gwneud newid.

9. Rhan 3 : Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd – TICID (Adrannau 49 – 58 ac Adran 59)

9.1 Opsiynau

Opsiwn 1: Gwneud dim: Nid yw hyn yn gynaliadwy a bydd yn arwain yn anochel at atgyfeirio nifer cynyddol o blant i ofal eu hawdurdod lleol. Bydd hyn yn arwain at gostau cynyddol pellach i bwrs y wlad a byddai nifer uwch o blant a'u teuluoedd yn anghymesur ddifreintiedig o safbwynt cymdeithasol ac economaidd. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am oddeutu 4,686 o blant mewn gofal ac sy'n gadael gofal[1]. Er bod y niferoedd hyn yn gymharol fach mae'r gwariant ar blant mewn gofal yn rhoi pwysau sylweddol ar wariant awdurdodau lleol, a'r gost gyfartalog yw £32,000[2] y flwyddyn. Mae awdurdodau lleol wedi nodi cynnydd o 89% yng nghost gofal ers 2001. Yn 2008/09 nododd yr awdurdodau lleol eu bod yn gwario £375 miliwn ar fynd i'r afael â thlodi plant ac ar wasanaethau cymdeithasol i deuluoedd o'i gymharu â £180m yn 2001/2002.

Opsiwn 2: Bydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu TICID er mwyn gweithio mewn ffordd wahanol i gynnig cymorth cyfannol i'r teulu cyfan yn hytrach na grwpiau unigol o gleientiaid, gan gyflawni'r nodau polisi a chreu'r awyrgylch a'r diwylliant ar gyfer newid. Bydd y newid hwn yn golygu newid y modd y caiff gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd agored i niwed eu trefnu a'u cyflawni a'r modd y neilltuir adnoddau ar eu cyfer er lles y plant, y teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth a'r cyfraniad a wneir i gydlyniant cymdeithasol a symudedd economaidd cymunedau. Dros amser dylai ymyrraeth gynharach wella'r canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd a lleihau'r angen am wasanaethau drud sy'n fwy dwys. Dylai hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at y gweithlu o safbwynt recriwtio, cadw ac ysgogi gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd y ceir cymhlethdodau o'u mewn.

9.2 Costau a Manteision TICID

Bydd nifer o fanteision amlwg a manteision nad ydynt yn amlwg ynghlwm wrth yr opsiynau uchod. Bydd TICID yn ysgogi camau gweithredu gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol er mwyn ad-drefnu gwasanaethau fel eu bod yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, gan wella'r canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd.

Er mwyn gallu lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ofal a'r system cyfiawnder ieuenctid ac sy'n derbyn gwasanaethau drud wedi'u targedu mae angen strategaethau cadarn ynghylch ymyriadau cynnar fel y gellir cynnig rhagor o gymorth i blant a theuluoedd agored i niwed. At ddiben

[1] Gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau gadael gofal yn 2007/08 - £8.3m – Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

[2] Costau uned o Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2007, PSSRU
Mae'r costau wythnosol hyn yn seiliedig ar Gyfrifiad DCSF o Blant mewn Angen yn 2006 a uwchraddiwyd i gostau 2006/07

mynd i'r afael â hyn mae angen dull system gyfan ar gyfer yr holl awdurdodau lleol a'u partneriaid fel y gellir darparu gwasanaethau ar draws y pedair haen o angen. Bydd TICID yn llenwi'r bwlch o ran darparu gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n fwy penodol ar haen 3 a haen 4 lle y mae gan deuluoedd broblemau y mae'n anodd mynd i'r afael â hwy sy'n golygu bod angen ymyriadau mwy arbenigol gan ystod o weithwyr proffesiynol â lefel uchel o sgiliau.

Dengys ymchwil y gall darparu ystod o ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu gael effaith bositif ar les plant a gallant hefyd arwain at arbedion sylweddol o ran costau. Mae gan gynlluniau ataliol cynnar fel Dechrau'n Deg a Chymorth gyfraniad cymdeithasol ac economaidd allweddol o safbwynt cynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol i gynnig cymorth i blant a theuluoedd difreintiedig.

Mae'r ymyriadau cynnar hyn hefyd yn creu'r cysylltiadau pwysig rhwng gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau mwy arbenigol er mwyn lleihau'r angen am ymyriadau drutach gan wasanaethau cymdeithasol. Byddai unrhyw leihad yn lefel y gwasanaeth ataliol yn arwain at alw cynyddol am wasanaethau arbenigol mwy dwys y mae eu costau yn uchel. Er enghraifft, mae'r gwariant cyffredinol ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ôl grŵp cleient yn ystod y cyfnod 2001-2007 wedi cynyddu o £745m i £1.25 biliwn â'r cynnydd mwyaf ym maes anableddau dysgu (67%) a gwasanaethau plant (96%).

Gallai'r costau cymdeithasol ac ariannol ehangach o safbwynt canlyniadau lles, capita cymdeithasol a gweithgarwch economaidd a allai ddeillio o leihau'r camau gweithredu ataliol a gynigir gan Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a gwasanaethau ataliol ehangach sydd ar gael ar haenau 1 a 2 drwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Chymorth (gweler Rhan 1 y Mesur) fod yn sylweddol ar gyfer plant a phobl ifanc. Gallent hefyd arwain at gynnydd anghymesur yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol ac yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid.

Dengys ymchwil y gall darparu ystod o ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu gael effaith bositif ar les plant a gallant arwain at arbedion sylweddol o ran costau. Gwyddys y gall defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn systemau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer cynnig cymorth i deuluoedd arwain at fanteision positif o ran cost gofal plant a dychwelyd plant yn ôl i fyw'n ddiogel gyda'u rhieni yn fuan. Mewn amgylchedd lle y mae adnoddau'n brin mae'n hanfodol fod adnoddau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gwario yn y ffordd fwyaf effeithlon, gan sicrhau bod Cymru'n gwneud y defnydd gorau posibl o'r "bunt Gymreig". O'r herwydd mae'n allweddol fod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn defnyddio'r arian a fuddsoddir ar gyfer datblygu a defnyddio ymyriadau effeithiol sydd wedi'u gwerthuso'n drylwyr ac y gwyddys eu bod yn effeithiol wrth wella canlyniadau. Bydd TICID yn darparu systemau ar gyfer gweithredu'r newid a bydd yn rhoi rhagor o bwyslais ar gyfrifoldeb awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ar y cyd am ddiogelu plant ac am eu llesiant ac am ddarparu gwasanaeth di-dor ac integredig ar gyfer teuluoedd.

Mae gwerthusiad cynhwysfawr o Opsiwn 2 (ymyriad penodol ar gyfer teuluoedd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg lle y mae gan y rhieni broblem â chyffuriau neu alcohol a lle y mae plant mewn perygl o gael eu niweidio) wedi nodi ei fod wedi lleihau'n sylweddol yr amser a dreuliwyd mewn gofal 766 o ddyddiau i 958 o ddyddiau o'r grŵp a ddefnyddiwyd at ddibenion cymharu (a oedd yn derbyn math arall o wasanaeth). Mae hefyd yn nodi arbediad cyfartalog lleiaf o £1,178 fesul plentyn a bydd yn arbennig o effeithiol â theuluoedd â rhieni unigol lle'r oedd y rhiant yn camddefnyddio alcohol. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod gan Gymru gyfran uwch o rieni unigol na Lloegr (25% o'i gymharu â 23%) a nifer uchel o achosion o gamddefnyddio alcohol (ar draws y boblogaeth o oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau[3]). Yn anad dim arall y llwyddiant sydd ynghlwm wrth opsiwn 2 yw'r berthynas rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol medrus a oedd wedi llwyddo i ymwneud â theuluoedd yr oedd gweithwyr proffesiynol eraill wedi methu ag ymwneud â hwy. Gallai diffyg gwrando, ynghyd â'r sgiliau eraill sydd eu hangen ar gyfer ymwneud â phlant a theuluoedd, fod wedi bod yn rhwystr mawr i deuluoedd a oedd yn cytuno i dderbyn cymorth cynharach.

Awgryma'r adroddiad mai dyma'r gwerthusiad cyntaf o Brydain sydd â methodoleg gadarn ar gyfer dangos lleihad yn yr angen am ofal gan wasanaeth cymorth i deuluoedd. Mae'n datgan mai'r cyfnod dilynol hir (3.5 o flynyddoedd ar gyfartaledd) o'i gymharu â grŵp cymharu dilys sy'n gyfrifol am ei statws a'i effaith profedig ac yn dod i'r casgliad bod Opsiwn 2 yng Nghymru yn ased arloesol o arwyddocâd cenedlaethol a allai fod o bwys rhyngwladol.

Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i fesur nac amcangyfrif cyfanswm cost gweithredu holl ystod darpariaethau'r Mesur ar gyfer TICID. O safbwynt gweithredu adran 66 o'r Mesur, fe'i cyfyngir i ddechrau i atgyfeiriadau i TICID am gamddefnyddio sylweddau. Y brif gost fydd sefydlu TICID lle y mae'r rheoliadau'n pennu bod angen staff craidd. Rhagwelir y bydd angen o leiaf 5 o weithwyr proffesiynol ar gyfer y tîm. Mae'r gost flynyddol o ran cyflogau ar gyfer cynnal timau tebyg tua £400,000 - £500,000 y flwyddyn. Darperir grant o £0.6m i bob un o'r tair ardal arloesi ymhob un o'r tair blynedd ar gyfer sefydlu'r TICID. Yr ardal arloesi sy'n gyfrifol am lunio'r achos busnes cyflawn ac am bennu'r manteision penodol a fydd yn deillio o'r TICID ar lefel economaidd a chymdeithasol. Bydd angen i'r tair ardal arloesi, a'r gwerthusiad ohonynt, ystyried y gost lawn o ran y lleihad posibl yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal a/neu nifer uwch y plant sy'n dychwelyd adref yn gynharach. Yn ogystal bydd y manteision ehangach o ran y gweithlu a darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi'r dinesydd yn y canol a bydd yn ymateb i'r her o fodloni amgylchiadau a blaenoriaethau lleol.

9.3 Asesu'r Gystadleuaeth

TICID - Nid oes unrhyw oblygiadau i'r farchnad ynghlwm wrth y darpariaethau hyn. Bydd TICID yn rhoi dyletswyddau ar gyrff statudol i gyflenwi

[3] Yng Nghymru y mae'r gyfradd uchaf o feddwdod o'i chymharu â gwladwriaethau eraill Ewrop, gwledydd Gogledd America (Ffigur 3.12, 2002 adroddiad rhyngwladol HBSC)

gwasanaethau mewn ffordd wahanol er mwyn cynorthwyo teuluoedd yn hytrach na chleientiaid unigol lle gallai'r mesurau diogelu a lles y plant ynghyd â gallu'r rhieni i ofalu am y plentyn gael eu hanwybyddu. Yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol fydd yn bennaf gyfrifol am hyn. Byddant yn parhau i gaffael lle y bo'n briodol wasanaethau oddi wrth y trydydd sector (sefydliadau gwirfoddol ac annibynnol) er mwyn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd agored i niwed sydd ag anghenion cymhleth. Gall awdurdodau lleol hefyd ddewis defnyddio'r pŵer newydd ar gyfer cyfethol ymarferwyr o'r trydydd sector i fod yn rhan o'r tîm Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

9.4 Adolygiad ar ôl Gweithredu

Bydd y gwaith o weithredu'r TICID yn cael ei fonitro'n ofalus mewn sawl ffordd. I ddechrau, bydd yr ardaloedd arloesi yn profi'r trefniadau newydd o fewn maes penodol camddefnyddio sylweddau cyn i'r ddarpariaeth gael ei hestyn ar draws Cymru neu er mwyn cynnwys grwpiau ehangach, er enghraifft iechyd meddwl. Y nod yw y bydd y TICID yn datblygu'n wasanaeth craidd ym maes llywodraeth leol ac iechyd ac y caiff ei fesur drwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad Llywodraeth Leol; Y Fframwaith Gweithredu Blynyddol mewn Iechyd a'r fframwaith datblygu cynigion ar gyfer y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc sy'n gysylltiedig â'r gofynion cynllunio o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004. Caiff y TICID ei arolygu yn ogystal gan yr Arolygiaethau perthnasol. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) fydd yn arwain y gwaith hwn.

Asesu ac Atgyfeirio at Wasanaethau Plant

Bydd y dyletswyddau asesu ac atgyfeirio newydd yn achosi costau ychwanegol i awdurdodau lleol a chyrff Gwasanaethau Iechyd Gwladol yn yr ystyriaethau ychwanegol wrth asesu rhieni plant ac ymateb i'r anghenion teuluol ehangach, a gallai hyn gynyddu'r galw am wasanaethau. Mae mesur cyfanswm y gost/manteision yn anodd a bydd angen ystyried amryw o faterion unigol, gwasanaeth, cymunedol a chymdeithasol-economaidd. Serch hynny, fel y dangoswyd uchod mae tystiolaeth sylweddol sy'n awgrymu fod manteision wrth ymyrryd â theuluoedd yn gynt o ran lleihau perygl a gwella lles plant a theuluoedd.

Bwriedir profi'r dyletswyddau newydd yn yr ardaloedd arloesi fel rhan o'r TICID ond dim ond yn achos rhieni sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Dylai'r gwerthusiad o'r TICID a'r dyletswyddau asesu newydd roi gwell dadansoddiad o'r gost lawn yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Adran 3: Nodiadau Esboniadol

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) arfaethedig fel y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Mawrth 2009 ac y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2

Paratowyd y nodiadau hyn gan Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig ac i oleuo trafodaeth arno. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur drafft ac nid ydynt wedi eu hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae pedair rhan i'r nodiadau esboniadol:

Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chyfranogi
Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd ar gyfer Plant
Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd
Rhan 4: Amrywiol a Chyffredinol

Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, pan nad yw'n ymddangos bod angen esbonio unrhyw adran, ni roddir esboniad.

Cynhwysir y pwerau i wneud Mesur o'r fath ym Materion 5.8, 5.18, 15.2, 15.5, 15.6 ac 15.7 ac 16.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'u mewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008.

Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chyfranogi

Mae Rhan 1 o'r Mesur yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyfrannu at ddileu tlodi plant, yn darparu dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant ac yn gwneud darpariaeth ynghylch trefnu i blant gyfranogi mewn penderfyniadau gan awdurdodau lleol a allai effeithio arnynt hwy.

Rhan 1, Pennod 1: Dileu Tlodi Plant

Adran 1: Nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant

Yn yr adran hon gosodir cyfres o nodau eang sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant. Mae is-adran (2)(a) a (2)(b) yn cynnwys materion sy'n ymwneud ag incwm teuluol ac amddifadedd sylweddol, a materion sy'n adlewyrchu effeithiau tlodi ar blant yn ogystal â'i achosion. Mae'n pennu ym mha faes y

bydd yn rhaid lleoli'r amcanion a ddewisir yn rhan o'r strategaethau tlodi plant a fydd yn ofynnol o dan adran 2.

Mae is-adran (8) yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio'r nodau eang. Rhaid gwneud gorchmynion o dan yr adran hon drwy weithdrefn gadarnhaol (gweler adran 66 (5)).

Mae is-adrannau (3) a (4) yn pennu bod y cyfeiriadau at incwm canolrifol yn is-adrannau (2)(a) a (b) yn gyfeiriadau at gyfrannau o incwm canolrifol y DU.

Bydd yr incwm canolrifol a'r dangosyddion amddifadedd sylweddol yn cael eu pennu mewn rheoliadau.

Mae is-adran (6) yn gwneud darpariaeth os digwydd i'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau Cymreig i lunio strategaeth ddod i rym yn gynharach na'r rheoliadau sy'n ofynnol o dan is-adran (5). Os digwydd hynny, rhaid i'r awdurdodau Cymreig ffurfio barn eu hunain ynglŷn â'r hyn a olygir wrth amddifadedd sylweddol a dangosyddion perthynol i incwm canolrifol.

Adran 2: Strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant

Mae adran 2 yn gosod dyletswydd ar “awdurdodau Cymreig” i baratoi a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Rhaid i’r strategaeth nodi amcanion sydd i'w dewis gan yr awdurdod, yn ymwneud â'r nodau eang, yn berthnasol i swyddogaethau'r awdurdod ac yn amcanion y gellir ymgyrraedd atynt drwy arfer y swyddogaethau hynny. Rhaid i'r strategaeth hefyd gynnwys y gweithredoedd sydd i'w cyflawni a'r swyddogaethau sydd i'w harfer gan yr awdurdod at y diben o gyrraedd ei amcanion.

Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddewis amcanion o dan is-adran (1)(a) sy'n berthynol i'w pwerau i ddarparu cyllid i gyrff cyhoeddus ac yn hyrwyddo'r nodau eang ar gyfer dileu tlodi plant.

Mae is-adran (5) yn darparu pŵer wrth gefn, drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru bennu amcanion i awdurdod Cymreig pe ystyrid hynny yn angenrheidiol.

Rhoddir rhestr o'r awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o baratoi a chyhoeddi strategaeth yn adran 5A.

Gwneir darpariaethau ynglŷn â pharatoi a chyhoeddi strategaethau yn Adrannau 3 i 5 o’r Mesur hwn, ac yn adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

Adran 3: Strategaethau a lunnir gan Weinidogion Cymru

Mae adran 3 yn nodi manylion sy'n gymwys i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u strategaeth hwy. Yn yr adran hon darperir bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu strategaeth gyntaf o dan y Mesur yn 2010, a

bod rhaid iddynt gadw eu strategaeth o dan arolwg yn gyson; a chânt ail-lunio neu ddiwygio eu strategaeth o bryd i'w gilydd ar ôl ymgynghori.

Yn is-adran (3) darperir ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth (newydd neu ddiwygiedig) ac yn is-adran 4 darperir ar gyfer gosod y strategaeth newydd neu ddiwygiedig gerbron y Cynulliad. Ar ôl diwygio, caiff Gweinidogion Cymru naill ai gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r diwygiadau neu gyhoeddi'r strategaeth gyda'r diwygiadau wedi eu cynnwys ynddi.

Mae is-adran (5) yn darparu ar gyfer cyhoeddi adroddiad gan Weinidogion Cymru a fydd yn cynnwys asesiad i ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion, ac os na chyrhaeddwyd unrhyw amcan, y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd yr amcan hwnnw. Rhaid gosod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad.

Adran 4: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau lleol (awdurdodau gwasanaethau plant)

Mae adran 4 yn diwygio adran 26 o Ddeddf Plant 2004 er mwyn cysylltu'r ddyletswydd sydd ar yr awdurdod lleol o gael strategaeth â'r ddyletswydd o baratoi cynllun o dan yr adran honno. Mae is-adran (1) yn darparu y gellir cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol o gyhoeddi strategaeth drwy gyhoeddi cynllun o dan adran 26. Mae'r diwygiad yn is-adran (3) yn gwneud y gofyniad o dan adran 2(1), sef bod awdurdodau lleol yn paratoi a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru yn rhan integredig o'r trefniadau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc presennol o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004.

Yn ogystal â'i strategaeth ei hunan, caiff awdurdod lleol gynnwys strategaethau awdurdodau Cymreig eraill y gwnaeth drefniant â hwy o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004.

Adran 5: Strategaethau a lunnir gan Awdurdodau Cymreig eraill

Mae adran 5 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r strategaethau sydd i'w paratoi gan awdurdodau Cymreig eraill ac eithrio Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Mae is-adran (3) yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau gan Weinidogion Cymru ynglŷn â materion penodol mewn perthynas â'r strategaethau hynny.

Mae is-adran (5) yn darparu, pan fo swyddogaethau awdurdod Cymreig yn ymwneud ag un neu ragor o ardaloedd awdurdod lleol, ac os yw wedi ymuno mewn trefniadau partneriaeth o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004 gyda phob un o'r awdurdodau dan sylw, yna mae dyletswydd yr awdurdod Cymreig o dan adran 2 o'r Mesur wedi ei chyflawni os cynhwysir y strategaeth yn rhan integredig o gynlluniau pob un o'r awdurdodau lleol, a lunnir o dan adran 26 o'r Ddeddf honno.

Adran 5A: Yr Awdurdodau Cymreig

Mae adran 5A yn pennu pa rai yw'r awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 2 o'r Mesur. Mae is-adran (2) yn darparu ar gyfer diwygio'r rhestr, ac is-adran (3) yn darparu ar gyfer ymgynghori gydag unrhyw gorff cyhoeddus yr effeithir arno cyn diwygio'r rhestr. Yn is-adran (4) eglurir mai'r unig gyrff y ceir eu cynnwys ar y rhestr yw cyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau yn ymwneud ag un neu ragor o'r meysydd yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er mwyn cadw o fewn y cymhwysedd a roddir gan Fater 15.2 o'r Atodlen honno.

Adran 6: Dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael

Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau lleoedd gofal plant yn ddi-dâl ar gyfer rhai plant penodol sydd o dan oed ysgol. Ni fydd y ddyletswydd yn weithredol cyn paratoi'r rheoliadau cysylltiedig a fydd yn rhagnodi'r cyfnodau pan fydd y gofal hwnnw yn gymwys, y plant a fyddai'n cael budd ohono, a'r math o ofal y dylent ei gael. O'u cymryd ar y cyd â darpariaethau adran 9, gallai'r rheoliadau hefyd roi disgresiwn i wneud hynny mewn ardaloedd penodedig o fewn awdurdod lleol.

Mae is-adran (2) yn cysylltu'r darpariaethau ynglŷn â phennu ardal yn adran 9 â dyletswydd awdurdodau lleol i sicrhau bod mathau rhagnodedig o ofal plant di-dâl ar gael.

Yn is-adran (3) diffinnir 'Gofal Plant' fel naill ai gwarchod plant neu ofal dydd, pan yw'n ofynnol cofrestru'r ddarpariaeth ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, neu ofal a ddarperir gan berson a gymeradwyir yn unol chynllun a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Adran 7: Gwasanaethau cymorth i rieni: pwerau awdurdod lleol

Mae is-adran (1) yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol ddarparu, sicrhau y darperir, neu gyfranogi mewn darparu gwasanaethau cymorth i rieni fel y'u diffinnir yn is-adran (4). Gosodir y pwerau hyn yng nghyd-destun Rhan 1 er mwyn ategu y dylai awdurdodau lleol ymgymryd â chyflawni'r swyddogaethau hyn yng nghyd-destun eu dyletswydd i roi cyfrif am gyrraedd eu hamcanion o ran tlodi plant.

Mae is-adran (2) yn mynnu bod rhaid darparu pa bynnag wasanaethau cymorth i rieni a ddarperir gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio'u pwerau o dan is-adran (1) yn ddi-dâl.

Mae is-adran (3) yn darparu diffiniad o wasanaethau cymorth i rieni at ddibenion yr adran hon ac adran 9
.
Mae is-adran (4) yn darparu diffiniad o wasanaethau cymorth i rieni at ddibenion yr adran hon.

Adran 8: Gwasanaethau cymorth iechyd: pwerau awdurdod lleol

Mae is-adran (1) yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol ddarparu, sicrhau y darperir, neu gyfranogi mewn darparu gwasanaethau cymorth iechyd. Gosodir y pwerau hyn yng nghyd-destun Rhan 1, Pennod 1 er mwyn ategu y dylai awdurdodau lleol ymgymryd â chyflawni'r swyddogaethau hyn yng nghyd-destun eu dyletswydd i roi cyfrif am gyrraedd eu hamcanion o ran tlodi plant. Mae adran 10 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn ac yn pennu bod rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r canllawiau hynny wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn.

Mae is-adran (2) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol, wrth arfer eu pwerau o dan is-adran (1) i sicrhau gwasanaethau nyrsio, yn cael cydsyniad y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

Mae is-adran (3) yn pennu bod rhaid i wasanaethau cymorth iechyd a gwasanaethau ataliol a ddarperir gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio'u pwerau o dan is-adran (1) gael eu darparu yn ddi-dâl.

Mae is-adran (4) yn darparu diffiniad o wasanaethau cymorth iechyd at ddibenion yr adran hon ac adran 9, sy'n cwmpasu cymorth pa un ai ataliol neu o natur arall, mewn perthynas ag iechyd plant neu rieni.

Adran 9: Rheoliadau ynghylch gwasanaethau i drechu tlodi plant

Mae is-adran (1)(a) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud yn ofynnol, drwy reoliadau, bod awdurdodau lleol yn sicrhau y darperir gwasanaethau cymorth i rieni yn ddi-dâl. Caiff rheoliadau ddisgrifio'r mathau o wasanaethau cymorth i rieni sydd i'w darparu a'r mathau o rieni a ddylai gael budd o'r gwasanaethau hynny. O'u cymryd ar y cyd â darpariaethau is-adran (2) caiff y rheoliadau wneud yn ofynnol hefyd darparu'r gwasanaethau hynny mewn perthynas ag ardaloedd penodedig o fewn awdurdod lleol.

Mae is-adran (1)(b) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud yn ofynnol, drwy reoliadau, bod awdurdodau lleol yn sicrhau y darperir gwasanaethau cymorth iechyd yn ddi-dâl. Caiff rheoliadau ddisgrifio'r mathau o wasanaethau cymorth iechyd sydd i'w darparu a'r plant neu rieni a ddylai gael budd o'r gwasanaethau hynny. O'u cymryd ar y cyd â darpariaethau is-adran (2) caiff y rheoliadau wneud yn ofynnol hefyd darparu'r gwasanaethau hyn mewn perthynas ag ardaloedd penodedig o fewn awdurdod lleol.

Mae is-adran (1)(c) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gynnwys mewn rheoliadau ynglŷn â darparu gofal plant yn ddi-dâl, bod rhaid sicrhau'r gwasanaeth hwnnw mewn ardaloedd penodedig o fewn awdurdod lleol.

Mae is-adran (1)(d) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gynnwys mewn rheoliadau ynglŷn â darparu gwasanaethau cymorth i rieni a chymorth iechyd, bod rhaid sicrhau'r gwasanaethau hyn mewn ardaloedd penodedig o fewn awdurdod lleol.

Mae is-adran (2) yn ymwneud â phennu mewn rheoliadau yr ardaloedd hynny lle y ceir sicrhau gwasanaethau gofal plant yn ddi-dâl, cymorth i rieni a chymorth iechyd.

Mae is-adran (2)(a) yn darparu y caiff rheoliadau bennu bod rhaid rhoi'r gwasanaethau hyn ar gael mewn un neu ragor o ardaloedd o fewn awdurdod lleol.

Mae is-adran (2)(b) yn darparu y caiff rheoliadau bennu bod rhaid rhoi'r gwasanaethau hyn ar gael mewn ardaloedd a bennir gan yr awdurdod lleol.

Pennod 2: Chwarae a Chyfranogi

Adran 9A: Dyletswyddau awdurdod lleol mewn perthynas 6 chyfleoedd chwarae ar gyfer plant

Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol wneud asesiad o ddigonolrwydd y cyfleoedd chwarae yn ei ardal yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd yr asesiad hwn yn elfen bwysig o ran penderfynu'r hyn y bydd rhaid i'r awdurdod ei wneud i gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (3).

Mae is-adran (2) yn darparu y caiff y rheoliadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) bennu pa faterion sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth asesu digonolrwydd; erbyn pa ddyddiad y bydd rhaid gwneud asesiad digonolrwydd; amlder yr asesiadau; pa bryd y cyhoeddir yr asesiad; a pha bryd a sut y dylid ei adolygu.

Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn ei ardal, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol yng ngoleuni ei asesiad. Wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan yr is-adran, rhaid i awdurdod lleol ystyried anghenion plant sy'n anabl, anghenion plant o wahanol oedrannau, ac unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

Mae is-adran (4) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae yn eu hardal ac yn cadw'r wybodaeth honno'n gyfoes.

Mae is-adran (5) yn darparu y dylai awdurdod lleol, wrth sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn ei ardal, ystyried yn benodol anghenion plant sy'n anabl, anghenion plant o wahanol oedrannau, ac unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Bwriedir i'r canllawiau gynnwys, ymhlith pethau eraill, Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer darpariaeth chwarae.

Mae is-adran (6) yn egluro bod "chwarae" yn cynnwys gweithgareddau hamdden, a bod y cyfeiriad at "ddigonolrwydd" yn is-adran (1) yn gyfeiriad at nifer ac ansawdd y cyfleoedd chwarae. Bwriedir i'r canllawiau a ddyroddir ynglŷn â'r ddyletswydd hon gynnwys canllawiau ynghylch nifer ac ansawdd y cyfleoedd chwarae.

Adran 9B: Cyfranogiad plant mewn penderfyniadau gan awdurdod lleol

Mae is-adran (1) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant (0-18 mlwydd oed) yn y penderfyniadau gan awdurdodau sy'n effeithio ar y plant. Gwnaed darpariaeth gyfatebol mewn perthynas â phobl ifanc yn adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2001.

Mae is-adran (2) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi eu trefniadau ar gyfer cyfranogi ac yn eu cadw'n gyfoes.

Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn caniatáu darparu canllawiau ar faterion megis datblygu Strategaethau Cyfranogiad Lleol ac ymgorffori'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Mae is-adran (4) yn diddymu adran 176 o Ddeddf Addysg 2002 fel y'i diwygiwyd. Yr oedd adran 176 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru ar ymgynghori â disgyblion ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio ar y disgyblion. Mae'r ddyletswydd newydd yn gosod dyletswydd i wneud trefniadau sy'n hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad y plant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt. Mae'r hen ddyletswydd wedi ei goddiweddyd gan y ddyletswydd newydd ac eithrio mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n eiddo i lywodraethwyr yr ysgol yn hytrach nag i'r AALl. Mae'r penderfyniadau hynny bellach yn destun darpariaeth ar wahân yn adran 29A o Ddeddf Addysg 2002 (a fewnosodwyd gan adran 157 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008).

Rhan 1, Pennod 3: Arolygu, canllawiau a chyfarwyddiadau

Adran 9C: Arolygu

Mae adran 9C yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer arolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r swyddogaethau a roddir gan adrannau [ ] i [ ] ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. Caiff y rheoliadau ddarparu bod arolygiadau i'w trefnu naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan Estyn neu unrhyw berson arall o dan drefniant a wneir gyda Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau ddarparu bod adroddiad arolygu yn "freintiedig" at ddibenion y gyfraith ar ddifenwi, oni ellir dangos i'r adroddiad gael ei gyhoeddi gyda malais

Adran 9Ch: Pwerau i fynd i mewn i fangreoedd

Mae adran 9D yn darparu pŵer i fynd i mewn ar unrhyw adeg resymol i unrhyw fangre awdurdod lleol, neu fangre a ddefnyddir gan berson arall o dan drefniant gydag awdurdod lleol i gyflawni'r swyddogaethau perthnasol o dan y Rhan hon

Adran 9D: Pwerau arolygu

Mae adran 9E yn nodi'r pwerau arolygu sydd gan bersonau sy'n mynd i mewn i fangre at y diben hwnnw. Mae'r pwerau yn cynnwys y pŵer i ymafael mewn dogfennau neu unrhyw bethau eraill sy'n berthnasol i gyflawni'r swyddogaethau dan sylw, ac i'w symud o'r fangre. Mae'n cynnwys hefyd y pŵer i wneud yn ofynnol caniatáu mynediad at gofnodion neu dogfennau a fydd hwyrach wedi eu cadw ar gyfrifiadur. Mae unrhyw berson sy'n rhwystro arolygydd rhag arfer pŵer i fynd i mewn i fangre neu bŵer arolygu, neu'n peidio â chydymffurfio â gofyniad arolygydd, yn cyflawni tramgwydd.

Adran 9Dd: Cyflenwi gwybodaeth i Weinidogion Cymru

Caiff Gweinidogion Cymru wneud yn ofynnol bod awdurdod lleol neu unrhyw berson yr ymunodd yr awdurdod lleol mewn trefniadau gydag ef i arfer y swyddogaethau o dan adrannau 6 i 9, yn darparu gwybodaeth iddynt mewn cysylltiad â'r swyddogaethau. Mae'r pŵer hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a ystyrir yn angenrheidiol gan Weinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan y Rhan hon.

Adran 10: Canllawiau

Mae adran 10 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau statudol ar weithredu i hyrwyddo'r amcanion eang o ran cyfrannau at ddileu tlodi plant ac arfer swyddogaethau o dan adrannau 1 i 9. Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon mewn perthynas â swyddogaethau o dan adrannau 9A a 9B.

Adran 11: Cyfarwyddiadau

Mae adran 11 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod Cymreig i gymryd unrhyw gam i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan yr adrannau perthnasol, os credir bod yr awdurdod Cymreig yn methu, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd o dan adrannau 2, 6, 9, 9A a 9B.

Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant

Adran 13 Ystyr "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant"

Darperir diffiniad o "warchod plant" a "gofal dydd" ar gyfer plant sydd o dan wyth mlwydd oed. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn (a) i newid oedran y plant y caniateir rheoleiddio eu gofal,

(b) i bennu amgylchiadau pan nad yw person yn gweithredu fel gwarchodwr ac (c) i bennu amgylchiadau pan nad yw person yn darparu gofal dydd. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff gorchymyn o'r fath bennu'r amgylchiadau mewn perthynas â'r materion canlynol, ymhlith eraill: (a) y person sy'n darparu'r gwarchod plant neu'r gofal dydd; (b) y plentyn neu'r plant y'i darperir ar ei gyfer neu ar eu cyfer; (c) natur y gwasanaeth gwarchod plant neu'r gofal dydd; (ch) y fangre lle y'i darperir;(d) yr amseroedd pan y'i darperir; ac (dd) y trefniadau y'i darperir oddi tanynt. Mae is-adran (6) yn darparu diffiniad o "fangre ddomestig".

Adran 14 Cofrestr o warchodwyr plant

Mae adran 14 yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cadw cofrestr o'r holl bersonau a gofrestrir yn warchodwyr plant o dan y Rhan hon o'r Mesur.

Adran 15 Dyletswydd gwarchodwyr plant i gofrestru

Mae is-adran (1) yn darparu na chaiff person weithredu fel gwarchodwr plant yng Nghymru oni fydd wedi ei gofrestru yn warchodwr plant. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad gorfodi i unrhyw berson y credant ei fod yn gweithredu fel gwarchodwr plant ac yntau heb ei gofrestru i wneud hynny. Mae is-adran (3) yn pennu'r modd y ceir cyflwyno'r hysbysiad gorfodi hwnnw, ac is-adran (4) yn datgan y bydd yr hysbysiad gorfodi yn effeithiol am un flwyddyn o'r dyddiad y'i cyflwynir. Mae is-adran (5) yn datgan bod gwarchodwr plant anghofrestredig, y cyflwynwyd hysbysiad gorfodi iddo (fel a bennir yn is-adran (3)), yn cyflawni tramgwydd os yw wedyn, heb esgus rhesymol, yn gweithredu fel gwarchodwr plant. Mae is-adran (6) yn darparu bod person a geir yn euog o dramgwydd o dan is-adran (5) yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Adran 16 Cofrestr o ddarparwyr gofal dydd i blant

Mae adran 16 yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cadw cofrestr o'r holl bersonau a gofrestrwyd i ddarparu gofal dydd i blant o dan y Rhan hon o'r Mesur.

Adran 17 Dyletswydd darparwyr gofal dydd i gofrestru

Mae is-adran (1) yn gorchymyn na chaiff person ddarparu gofal dydd i blant mewn unrhyw fangre yng Nghymru onid yw'r person hwnnw wedi ei gofrestru i ddarparu gofal dydd i blant yn y fangre honno. Mae is-adran (2) yn datgan bod person sy'n mynd yn groes i is-adran (1) heb esgus rhesymol yn cyflawni tramgwydd. Mae is-adran (3) yn darparu bod person a geir yn euog o dramgwydd o dan is-adran (2) yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol

Adran 18 Ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant

Mae is-adran (1) yn darparu y caiff person sy'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant wneud cais i Weinidogion Cymru i gofrestru fel gwarchodwr plant. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cais i gofrestru, yn ogystal â'r pŵer i bennu ffi ymgeisio. Mae is-adran (3) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn caniatáu cais os nad yw'r ceisydd wedi ei anghymhwyso o dan adran 32 ac os yw'n ymddangos bod yr holl ofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant wedi eu bodloni ac yn debygol o barhau i gael eu bodloni. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wrthod unrhyw gais a wneir o dan is-adran (1) pan nad yw'n ofynnol eu bod yn cofrestru o dan is-adran (3).

Adran 19 Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel gwarchodydd plant

Caiff rheoliadau ragnodi'r gofynion ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant, a chânt gynnwys gofynion sy'n ymwneud â'r ceisydd; y fangre lle y darperir y gwasanaeth gwarchod plant; y trefniadau ar gyfer gwarchod plant yn y fangre honno; unrhyw berson a all fod yn gofalu am blant yn y fangre honno, ac unrhyw berson a all fod yn bresennol yn y fangre honno.

Adran 20 Ceisiadau i gofrestru: gofal dydd i blant

Mae is-adran (1) yn darparu y caiff person sy'n bwriadu darparu gofal dydd i blant mewn mangre benodol wneud cais i Weinidogion Cymru i gofrestru fel darparwr gofal dydd yn y fangre honno. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cais i gofrestru, yn ogystal â'r gallu i bennu ffi ymgeisio. Mae is-adran (3) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn caniatáu cais os nad yw'r ceisydd wedi ei anghymhwyso o dan adran 32 ac os yw'n ymddangos bod yr holl ofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel darparwr gofal dydd wedi eu bodloni ac yn debygol o barhau wedi eu bodloni. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wrthod unrhyw gais a wneir o dan is-adran (1) pan nad yw'n ofynnol eu bod yn cofrestru o dan is-adran (3).

Adran 21 Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru darparwyr gofal dydd i blant

Caiff rheoliadau ragnodi'r gofynion ar gyfer cofrestru darparwyr gofal dydd i blant, a chânt gynnwys gofynion sy'n ymwneud â'r ceisydd; y fangre lle y darperir y gofal dydd; y trefniadau ar gyfer gofal dydd yn y fangre honno; unrhyw berson a allai fod yn gofalu am blant yn y fangre honno; ac unrhyw berson a allai fod yn bresennol yn y fangre honno.

Adran 22 Cofnodi ar y gofrestr a thystysgrifau

Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, os caniateir cais o dan adran 18(1), gofnodi'r ceisydd ar y gofrestr gwarchodwyr plant a chyflwyno tystysgrif cofrestru i'r ceisydd sy'n datgan bod y ceisydd wedi ei gofrestru.

Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, os caniateir cais o dan adran 20(1), gofnodi'r ceisydd fel darparwr gofal dydd mewn perthynas â'r fangre dan sylw a chyflwyno tystysgrif cofrestru i'r ceisydd sy'n datgan bod y ceisydd wedi ei gofrestru.
Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau pa wybodaeth y mae'n rhaid i dystysgrif cofrestru ei chynnwys.
Mae is-adran (4) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn rhoi tystysgrif ddiwygiedig i berson cofrestredig os digwyddodd newid yn yr amgylchiadau sy'n peri bod angen diwygio'r dystysgrif.
Mae is-adran (5) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn darparu copi o'r dystysgrif os bodlonir hwy bod y dystysgrif wreiddiol wedi ei cholli neu ei dinistrio, os telir unrhyw ffi ragnodedig gan y person cofrestredig.

Adran 23 Amodau wrth gofrestru

Mae Adran 23 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru osod amodau ar gofrestriad person sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant, neu berson sy'n darparu gofal dydd i blant. Ceir gosod amodau wrth gofrestru o dan adran 18 neu adran 20 neu ar unrhyw adeg yn ddiweddarach, a chaiff Gweinidogion Cymru, o dan is-adran (3), amrywio neu ddiddymu unrhyw amod. Mae is-adran (4) yn darparu bod person cofrestredig yn cyflawni tramgwydd os yw'n peidio â chydymffurfio ag unrhyw amod, heb esgus rhesymol, Mae is-adran (5) yn darparu bod person a geir yn euog o dramgwydd o dan is-adran (4) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Adran 24 Rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau

Caiff rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau personau cofrestredig sy'n gweithredu fel gwarchodwyr plant, neu'n darparu gofal dydd i blant, mewn mangreoedd yng Nghymru, ymwneud â materion sy'n cynnwys (ymhlith eraill) lles a datblygiad y plant dan sylw; addasrwydd i ofalu am blant sydd yn yr oedran perthnasol, neu fod mewn cysylltiad rheolaidd â phlant o'r fath; cymwysterau a hyfforddiant; y nifer mwyaf o blant y caniateir gofalu amdanynt a'r nifer o unigolion sy'n ofynnol i gynorthwyo wrth ofalu; cynnal a chadw'r fangre a'r cyfarpar, a diogelwch ac addasrwydd y cyfryw; y gweithdrefnau i drafod cwynion; goruchwylio staff; cadw cofnodion; a darparu gwybodaeth.
Caiff y rheoliadau hefyd wneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn bodloni ffactorau, safonau neu faterion eraill y gellir eu rhagnodi neu gyfeirio atynt yn rheoliadau, a chaiff Gweinidogion Cymru gymryd i ystyriaeth unrhyw fethiant gan unrhyw berson, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon o'r Mesur ac mewn unrhyw achos llys, troseddol neu sifil. Mae is-adran (4) yn darparu bod person cofrestredig sydd, heb esgus rhesymol, yn mynd yn groes i, neu'n peidio â chydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y rheoliadau, yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Adran 25 Diddymu cofrestriad

Mae adran 25 yn pennu o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru ddiddymu cofrestriad person a gofrestrwyd yn warchodwr plant neu berson a gofrestrwyd i ddarparu gofal dydd i blant.

Yn benodol mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddiddymu cofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd os yw'r person hwnnw wedi ei anghymhwyso o dan adran 32 rhag cofrestru. Mae is-adran (2) yn darparu y ceir diddymu cofrestriad person os nad yw'r gofynion o dan adran 19 neu adran 21 bellach yn cael eu bodloni, neu os byddant yn peidio â chael eu bodloni, neu os yw'r person wedi peidio â chydymffurfio ag un o amodau ei gofrestriad, neu wedi peidio â thalu ffi ragnodedig. Mae is-adran (3) yn rhwystro diddymu os gosodwyd gofyniad ar y person cofrestredig i wneud unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i unrhyw wasanaethau, cyfarpar neu fangre, ac nad yw'r amser a bennwyd ar gyfer cydymffurfio â'r gofyniad wedi dod i ben, a phan fo'r unig ddiffyg neu annigonolrwydd i'w briodoli i'r ffaith nad yw'r newidiadau neu ychwanegiadau eto wedi eu cwblhau. Rhaid gwneud unrhyw ddiddymiad o dan yr adran hon mewn ysgrifen, ac y mae'n ddarostyngedig i'r gofynion o ran gweithdrefn a bennir yn adran 30.

Yn ychwanegol, mae is-adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, ragnodi amgylchiadau eraill pan ganiateir diddymu cofrestriad person.

Adran 26 Atal cofrestriad

Caiff rheoliadau bennu'r darpariaethau ar gyfer atal cofrestriad gwarchodwr plant neu berson a gofrestrwyd i ddarparu gofal dydd i blant, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, cyfnod yr ataliad; yr amgylchiadau pan ganiateir atal cofrestriad; ac atal cofrestriad ar gais y person cofrestredig.
Mae is-adran (3) yn caniatáu hawl apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn ataliad, ac eithrio mewn perthynas ag ataliad is-adran (4), sef ataliad gwirfoddol ar gais y person cofrestredig. Rhaid i berson cofrestredig beidio â gweithredu fel gwarchodwr plant, na darparu gofal bydd yn y fangre y'i cofrestrwyd ar ei chyfer tra bo wedi ei atal. Mae is-adran (7) yn darparu bod person yn euog o dramgwydd os yw'n gweithredu, heb esgus rhesymol, fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd mewn mangre tra bo'i gofrestriad wedi ei atal, ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Adran 27 Tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol

Mae adran 27 yn pennu o dan ba amgylchiadau y caiff person a gofrestrwyd yn warchodwr plant neu'n ddarparwr gofal dydd i blant dynnu ei enw oddi ar y gofrestr gwarchod plant, neu (yn ôl fel y digwydd) y gofrestr gofal dydd i blant.

Mae is-adran (3) ac is-adran (4) yn pennu'r amgylchiadau pan na chaiff Gweinidogion Cymru ganiatáu cais gan berson cofrestredig o dan adran 27, sef pan fo'r weithdrefn ar gyfer diddymu cofrestriad eisoes wedi ei chychwyn ar anogaeth Gweinidogion Cymru.

Adran 28 Amddiffyn plant mewn argyfwng: diddymu cofrestriad

Mae adran 28 yn darparu ar gyfer gwneud cais gan Weinidogion Cymru i ynad heddwch am orchymyn sy'n diddymu cofrestriad person os yw'n ymddangos bod plentyn sydd, neu y gall fod, yn cael ei warchod neu'n cael gofal dydd gan y person hwnnw, yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Ceir gwneud cais o'r fath heb roi rhybudd, a rhaid i'r gorchymyn fod mewn ysgrifen, a daw'r gorchymyn i rym ar unwaith. Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o'r gorchymyn i'r person cofrestredig mor fuan ag y bo modd, ynghyd ag unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a wnaed i gefnogi'r cais, a hysbysiad o'r hawl i apelio. Mae is-adran (7) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol ynghylch y gorchymyn.
Mae is-adran (8) yn diffinio ystyr "niwed" fel yr ystyr a roddir i “harm” yn Neddf Plant 1989 (p 41) ac yn pennu bod y cwestiwn a yw niwed yn sylweddol i'w benderfynu yn unol ag adran 31(10) o'r Ddeddf honno.

Adran 29 Amddiffyn plant mewn argyfwng: newidiadau i amodau

Bydd adran 29 yn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio neu ddiddymu amodau presennol, neu ychwanegu amodau newydd ar frys at gofrestriad person os bydd achos rhesymol gan Weinidogion Cymru dros gredu bod risg o niwed sylweddol i blentyn. Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad i berson cofrestredig bod eu penderfyniad i amrywio, diddymu neu osod amodau yn dod i rym ar unwaith. Rhaid i hysbysiad o'r fath gynnwys eu rhesymau dros gredu bod plentyn o dan risg o niwed sylweddol. Gwneir darpariaeth ar gyfer apêl gan y person cofrestredig i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn cam o'r fath.

Adran 30 Gweithdrefn ar gyfer cymryd camau penodol

Mae adran 30 yn nodi'r gweithdrefnau y mae’n rhaid eu dilyn os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu cymryd camau: i wrthod cais i gofrestru; gosod amod newydd ar gofrestriad person; amrywio neu ddiddymu unrhyw amod a osodwyd ar gofrestriad person; gwrthod caniatáu cais i amrywio neu ddiddymu unrhyw amod o'r fath; diddymu cofrestriad person.

Mae is-adran (2) yn cadarnhau nad yw adran 30 yn gymwys i weithredu o dan adran 29 (newid amodau mewn argyfwng).

Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'u bwriad, ac y mae is-adran (5) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru gymryd y camau a fwriadant cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad. Rhoddir cyfle i dderbynnydd yr hysbysiad wrthwynebu'r bwriad, naill ai ar lafar neu mewn ysgrifen, a rhaid i Weinidogion Cymru ei hysbysu o'u penderfyniad.

Mae is-adran (12) yn diffinio “amod newydd” fel amod a osodir ar adeg ac eithrio adeg cofrestru'r person.

Adran 31 Apelau

Mae is-adran (1) yn caniatáu i geisydd am gofrestriad neu berson cofrestredig (yn ôl fel y digwydd) apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn gweithredu gan Weinidogion Cymru i wrthod neu ddiddymu cais am gofrestriad, gosod, amrywio neu dynnu ymaith amodau ar gofrestriad, neu wrthod cais i amrywio neu dynnu ymaith amod.

Mae is-adran (2) hefyd yn caniatáu apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf gan geisydd am gofrestriad neu gan berson cofrestredig (yn ôl fel y digwydd) ynglŷn â
phenderfyniad gan Weinidogion Cymru ynghylch disgrifiad penodedig; person cofrestredig y gwneir gorchymyn yn ei erbyn o dan adran 28 (Amddiffyn plant mewn argyfwng: diddymu cofrestriad); a pherson cofrestredig y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 29 (Amddiffyn plant mewn argyfwng: newidiadau i amodau).
Mae is-adran (3) ac is-adran (4) yn nodi'r camau y caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf eu cymryd ar apêl.

Adran 32 Anghymhwyso rhag cofrestru

Caiff rheoliadau bennu o dan ba amgylchiadau y ceir anghymwyso person rhag cofrestru. Mae is-adran (3) yn nodi'r amrediad o amgylchiadau y ceir eu cynnwys mewn rheoliadau: pan fo'r person wedi ei wahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir mewn perthynas â phlant (o fewn ystyr adran 3(3) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 (p 47)); pan fo gorchymyn o fath rhagnodedig wedi ei wneud mewn perthynas â'r person; os gwnaed gorchymyn o fath penodedig ar unrhyw adeg mewn perthynas â phlentyn a fu yng ngofal y person; os gosodwyd gofyniad o fath rhagnodedig ar unrhyw adeg mewn perthynas â phlentyn o'r fath, o dan neu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad; os gwrthodwyd cofrestru'r person ar unrhyw adeg o dan y rhan hon o'r Mesur hwn, Rhan 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p 21) neu o dan Ran 10 neu Ran 10A o Ddeddf Plant 1989 (p 41) neu unrhyw ddeddfiad rhagnodedig, neu diddymwyd cofrestriad o'r fath; os yw'r person wedi ei gael yn euog o dramgwydd o fath rhagnodedig, neu wedi ei ryddhau yn absoliwt neu'n amodol am dramgwydd o'r fath; os yw'r person wedi cael rhybudd mewn perthynas â thramgwydd o fath rhagnodedig; os yw'r person, ar unrhyw adeg, wedi ei anghymhwyso rhag maethu plentyn yn breifat (o fewn ystyr Deddf Plant 1989 (p 41)); os gosodwyd gwaharddiad ar y person ar unrhyw adeg o dan adran 69 o Ddeddf Plant 1989 (gwahardd rhag maethu preifat), adran 10 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 (p 56) neu unrhyw ddeddfiad rhagnodedig; mae hawliau a phwerau'r person mewn perthynas â phlentyn wedi eu breinio, ar unrhyw adeg, mewn awdurdod rhagnodedig o dan ddeddfiad rhagnodedig, er enghraifft gorchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio.

Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau anghymhwyso person rhag cofrestru os yw rhywun sy'n byw gyda'r person hwnnw neu rywun sy'n gweithio ar ei aelwyd wedi ei anghymwyso.

Mae is-adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu eithriad rhag anghymhwyso os yw'r person wedi datgelu faith, a fyddai fel arall yn peri

ei anghymhwyso, i Weinidogion Cymru a Gweinidogion Cymru yn cydsynio mewn ysgrifen iddo beidio â chael ei anghymhwyso,

Adran 33 Canlyniadau anghymhwyso

Rhaid i berson a anghymhwyswyd o dan adran 32 rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd beidio â gweithredu fel gwarchodwr plant yng Nghymru na darparu gofal dydd yng Nghymru nac ymwneud yn uniongyrchol â rheoli unrhyw darpariaeth yng Nghymru; ni chaiff person cofrestredig, ychwaith, gyflogi person a anghymhwyswyd mewn perthynas â darparu gofal dydd neu warchod plant.
Mae is-adran (3) yn cadarnhau bod mynd yn groes i is-adran (1) neu (2) yn dramgwydd y gellir ei gosbi, yn dilyn collfarn ddiannod, â chyfnod o garchar na fydd yn hwy na 51 wythnos neu â dirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu'r ddau. Bydd yn amddiffyniad os gall person brofi na wyddai, ac nad oedd ganddo sail resymol dros gredu ei fod yn byw gyda, neu ar yr un aelwyd â, neu wedi cyflogi person a oedd wedi ei anghymhwyso.

Adran 34 Arolygu

Mae adran 34 yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i ddarparu drwy reoliadau ar gyfer arolygu darparwyr gwarchod plant a gofal dydd yng Nghymru ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. Cynhelir yr arolygiadau gan Weinidogion Cymru neu gan Estyn neu gan unrhyw berson arall o dan drefniadau a wneir gyda Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau ddarparu bod adroddiadau arolygu yn “freintiedig” at ddibenion y gyfraith ar ddifenwi oni ellir dangos bod adroddiad wedi ei gyhoeddi gyda malais.

Adran 35 Pwerau i fynd i mewn i fangreoedd

Mae adran 35 yn darparu ar gyfer pwerau mynediad ar unrhyw adeg resymol i unrhyw fangre yng Nghymru lle y gwarchodir plant neu y darperir gofal dydd ar unrhyw adeg, Mae is-adran (2) yn darparu y caiff person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru fynd i mewn ar unrhyw adeg resymol i unrhyw fangre yng Nghymru os oes achos rhesymol i gredu y gofelir am blentyn yno yn groes i'r Rhan hon.

Adran 35A Pwerau arolygu

Mae adran 35A yn nodi’r pwerau arolygu sydd gan bersonau sy’n mynd i mewn i fangre at y diben hwnnw. Mae’r pwerau yn cynnwys y pŵer i ymafael mewn dogfennau neu unrhyw bethau eraill a allai fod yn dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â gofynion rheoliadol, ac i’w symud o’r fangre. Mae’n cynnwys hefyd y pŵer i wneud yn ofynnol caniatáu mynediad at gofnodion neu dogfennau a fydd hwyrach wedi eu cadw ar gyfrifiadur. Mae unrhyw berson sy’n rhwystro arolygydd rhag arfer pŵer i fynd i mewn i fangre neu bŵer arolygu, neu’n peidio â chydymffurfio â gofyniad arolygydd, yn cyflawni tramgwydd.

Adran 35B Pŵer cwnstabl i gynorthwyo wrth arfer pwerau i fynd i mewn i fangre

Mae adran 35B yn darparu y caiff person, a awdurdodir i fynd i mewn i fangre o dan adran 35, wneud cais i lys am warant sy'n awdurdodi cwnstabl i gynorthwyo'r person awdurdodedig i arfer y pŵer i fynd i mewn i fangre, gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen.

Adran 36 Cyflenwi gwybodaeth i Weinidogion Cymru

Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod unrhyw warchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd cofrestredig yn darparu pa bynnag wybodaeth iddynt ynglŷn â gweithgareddau'r person hwnnw fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd, a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn angenrheidiol at ddibenion eu swyddogaethau o dan y Rhan hon.

Adran 37 Cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau lleol

Mae adran 37 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth ragnodedig i awdurdodau lleol wrth i Weinidogion Cymru gymryd camau i ganiatáu cofrestriad; cyhoeddi hysbysiad o'u bwriad i ddiddymu cofrestriad; diddymu cofrestriad; atal cofrestriad; tynnu enw person oddi ar y gofrestr ar gais y person hwnnw; neu pan fo ynad heddwch yn gwneud gorchymyn o dan adran 28(2). Diben gwybodaeth o'r fath yw cynorthwyo'r awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau o dan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p 21) (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch argaeledd darpariaeth gofal plant yn eu hardal). Mae is-adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth i berson sy'n arfer swyddogaethau statudol (at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny) ynglŷn ag a yw person wedi ei gofrestru ai peidio fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd.

Adran 38 Y tramgwydd o wneud datganiad anwir neu gamarweiniol

Bydd person yn euog o dramgwydd o dan is-adran (1) os yw'n gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol gan wybod hynny wrth wneud cais am gofrestriad, a bydd yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Adran 39 Hysbysiadau o gosb

Mae adran 39 yn darparu ar gyfer gosod hysbysiad cosb benodedig ar berson cofrestredig os bodlonir Gweinidogion Cymru bod y person cofrestredig wedi cyflawni tramgwydd a ddynodwyd yn dramgwydd cosb benodedig. Mae'r cynnig i osod hysbysiad cosb yn rhoi cyfle i'r person cofrestredig dalu cosb mewn perthynas â thoriad a ganfyddir. Ni chaniateir cychwyn achos ynglŷn â'r tramgwydd y cyfeirir ato yn yr hysbysiad cyn diwedd pa bynnag gyfnod a ragnodir yn yr hysbysiad, ac os bydd y person yn talu'r gosb yn unol â'r

hysbysiad, ni ellir ei gollfarnu am y tramgwydd y cyfeirir ato yn yr hysbysiad. Mae'r cosbau yn daladwy i Weinidogion Cymru.

Adran 40 Hysbysiadau o gosb: darpariaeth atodol

Caiff rheoliadau o dan adran 40 wneud darpariaeth ynglŷn â ffurf a chynnwys yr hysbysiadau cosb, gan gynnwys y symiau ariannol a'r terfynau amser ar gyfer talu, a'r camau sydd i'w cymryd os na thelir y gosb yn unol â'r hysbysiad. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer gwahanol gosbau a fyddai'n daladwy mewn gwahanol achosion, a hefyd ar gyfer amrywio'r swm os telir ef ar wahanol adegau. Ni chaiff y swm a ragnodir i'w dalu o dan hysbyseb o gosb fod yn fwy na hanner y ddirwy fwyaf y byddai'n rhaid ei thalu yn dilyn collfarn.

Adran 41 Terfyn amser ar gyfer achosion

Mae adran 41 yn pennu'r terfyn amser ar gyfer cychwyn erlyniad, sef un flwyddyn o'r dyddiad y daw tystiolaeth ddigonol i sylw'r erlynydd i warantu dwyn achos. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad cyffredinol na cheir cychwyn erlyniad ar ôl mwy na thair blynedd ar ôl cyflawni'r tramgwydd.

Adran 42 Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

Mae adran 42 yn darparu, pan fo tramgwydd wedi ei gyflawni gan gorff corfforaethol, bod swyddogion y corff hwnnw yn agored i'w herlyn ac i'w cosbi ynglŷn â hynny, os profir bod tramgwydd wedi ei gyflawni gyda'u cydsyniad neu'u hymoddefiad, neu fod y tramgwydd i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar eu rhan.

Adran 43 Cymdeithasau anghorfforedig

Mae adran 43 yn darparu, pan fo tramgwydd wedi ei gyflawni gan gymdeithas anghorfforedig, bod rhaid dwyn achos yn enw'r gymdeithas (ac nid yn enw unrhyw un o'i haelodau). Mae'n darparu hefyd bod swyddog neu aelod o'r gymdeithas yn euog o dramgwydd os cyflawnir tramgwydd gyda chydsyniad neu ymoddefiad y swyddog neu aelod, neu oherwydd unrhyw esgeulustod ar ran swyddog y gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu, a gall y swyddog neu aelod fod yn agored i'w erlyn, yn ogystal â'r gymdeithas. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r amgylchiadau pan gaiff cymdeithas ei chynrychioli mewn achos gan berson a awdurdodir yn briodol. Mae is-adran (4) yn darparu bod dirwy a osodir ar gymdeithas anghorfforedig i'w thalu allan o gronfeydd y gymdeithas.

.

Adran 44 Swyddogaethau awdurdodau lleol

Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon wneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn sicrhau y darperir gwybodaeth neu gyngor ynghylch gwarchod plant a gofal dydd, a sicrhau y darperir hyfforddiant ynglŷn â darparu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd i blant.

Adran 45 Ffioedd

Caiff rheoliadau bennu a gwneud darpariaethau ynglŷn â thalu ffioedd gan warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd cofrestredig i Weinidogion Cymru, gan gynnwys yr amgylchiadau pan ganiateir hepgor ffioedd o'r fath.

Adran 46 Cydweithredu rhwng awdurdodau

Mae adran 46 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud am gymorth gan awdurdod lleol er mwyn cyflawni eu swyddogaeth, a bod rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais hwnnw, os yw'n gydnaws â dyletswyddau statudol a dyletswyddau eraill yr awdurdod ac nad yw'n amharu yn ormodol ar gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

Adran 47 Hysbysiadau

Mae adran 47 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â dyroddi hysbysiadau i Weinidogion Cymru gan warchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan adran 27 (Tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol) ac adran 30 (Gweithdrefnau ar gyfer cymryd camau penodol).

Adran 48 Marwolaeth person cofrestredig

Mae adran 48 yn darparu pŵer i wneud rheoliadau i ymdrin â'r sefyllfa pan fydd farw yr unig berson cofrestredig, ar gyfer y camau sydd i'w cymryd gan gynrychiolydd personol gwarchodwr plant, ac ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaeth gofal dydd.

Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Adran 49 Sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd (TICD)

Mae adran 49 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu un neu ragor o dimau integredig cymorth i deuluoedd (TICD) yn eu hardal. Mae'n gosod dyletswyddau hefyd ar y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gweithredu dros yr ardal i gynorthwyo'r awdurdod lleol i sefydlu TICD, er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'n galluogi dau neu ragor o awdurdodau lleol i gydweithredu i sefydlu un neu ragor o TICDau ar gyfer eu dwy ardal (neu bob un o'u hardaloedd).

Adran 50 Swyddogaethau timau integredig cymorth i deuluoedd (TICDau)

Mae adran 50 yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i TICD ei wneud. Rhaid iddo gyflawni'r swyddogaethau cymorth i deuluoedd a bennir ar ei gyfer gan yr awdurdod lleol. Mae pwerau gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu pa swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y caniateir eu pennu ar gyfer TICD. Rhaid i'r awdurdod lleol gytuno gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol ar ba swyddogaethau sydd i'w pennu felly. Mae is-adran (3) yn gwneud

darpariaeth ynghylch pa Fwrdd Iechyd Lleol sy'n ymwneud ag ardal TICD benodol.

Yn is-adrannau (6) a (7) pennir y mathau o achosion y caniateir eu hatgyfeirio i TICD. Y rhain yw teuluoedd lle mae “rhiant” (fel y'i diffinnir) yn wynebu un o nifer o anawsterau penodedig, a phlentyn y rhiant hwnnw naill ai'n “blentyn mewn angen” fel y'i diffinnir neu'n “blentyn sy'n derbyn gofal” (fel y'i diffinnir). Mae'r darpariaethau yn cynnwys rhiant plentyn nad yw eto wedi ei eni, ac yn caniatáu atgyfeirio at unigolion eraill sy’n gysylltiedig â'r plentyn.

Mae is-adran (8) yn gosod dyletswydd benodol ar dîm i werthuso a chofnodi effeithiolrwydd ei waith. Mae is-adran (10) yn pennu bod yr atebolrwydd am gyflawni unrhyw swyddogaethau o eiddo'r awdurdod lleol neu'r byrddau iechyd lleol yn aros gyda'r cyrff hynny. Mae is-adran (11) yn gwneud yn eglur nad yw unrhyw swyddogaethau a bennir i'r tîm yn cael eu trosglwyddo iddo yn gyfan gwbl, ond yn hytrach yn parhau i gael eu harfer gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol mewn perthynas â'r rheini na chânt, neu na ellir, eu hatgyfeirio i TICD.

Adran 51 Adnoddau ar gyfer timau integredig cymorth i deuluoedd

Mae adran 51 yn galluogi awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol i wneud trefniadau i dalu am y gwariant a achosir wrth sefydlu a rhedeg TICD naill ai drwy wneud taliadau uniongyrchol neu dalu i gronfa a sefydlir ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae is-adran (2) yn caniatáu i reoliadau ddarparu ar gyfer gwahanol agweddau ymarferol ar gyllido TICDau. Mae is-adran (3) yn ymwneud ag adnoddau ac eithrio arian, er enghraifft cyfuno staff, a mangreoedd.

Adran 52 Cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd

Mae adran 52 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau bod TICD yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol perthnasol a ragnodir mewn rheoliadau. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i awdurdod lleol gyfethol personau eraill (yn ychwanegol at y rhai a ragnodir) i'r TICD, gyda chydsyniad y Bwrdd iechyd Lleol.

Adran 53 Sefydlu byrddau integredig cymorth i deuluoedd

Mae adran 53 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i sefydlu Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gyfer ei ardal. Rhaid i'r bwrdd gynnwys;

- cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol;
- cyfarwyddwr arweiniol statudol y gwasanaethau plant a phobl ifanc (o dan Ddeddf Plant 2004 (p 21)) os nad ef yw'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol;
- y swyddog arweiniol dros wasanaethau plant a phobl ifanc o'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r darpariaethau yn galluogi awdurdodau lleol i gyfethol aelodau eraill i'r Bwrdd gyda chydsyniad y Bwrdd Iechyd Lleol ac i dalu taliadau a lwfansau i aelodau cyfetholedig a benodir o dan is-adran (5).

Adran 54 Swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd

Mae adran 54 yn rhestru swyddogaethau bwrdd ICD ar ffurf amcanion. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy eu pwerau i wneud rheoliadau, i bennu swyddogaethau pellach i'r bwrdd ICD, mewn perthynas â'r amcanion. Yn y rhestr o amcanion y byrddau, mae is-adran 1(b) yn cynnwys amcanion ar gyfer yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol, sef hybu arferion da o fewn eu hardaloedd, a all estyn ymhellach na TICD, O fewn hyn, mae bwriad i gynnwys swyddogaeth hyfforddi yn y rhestr o swyddogaethau TICD, fel y gall aelodau o'r tîm ddarparu hyfforddiant a chymorth uniongyrchol yn ehangach, ledled y priod ardaloedd y tu allan i'r TICD. Bydd hyn yn sicrhau bod technegau arbenigol yn cael eu rhaeadru i'w defnyddio mewn ymyriadau uniongyrchol yn achosion plant a theuluoedd sydd ag anghenion cymhleth.

Adran 55 Rheoliadau ynghylch timau a byrddau integredig cymorth i deuluoedd

Mae adran 55 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwahanol agweddau ar y TICDau ac ar weithrediad y bwrdd ICD.

Adran 56 Adroddiadau blynyddol ar dimau integredig cymorth i deuluoedd

Mae adran 56 yn gosod dyletswydd ar TICDau i ddarparu adroddiad blynyddol ar eu heffeithiolrwydd. Rhaid rhoi'r adroddiad ar gael yn lleol i'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol a hefyd i Weinidogion Cymru.

Adran 57 Canllawiau ynghylch timau integredig cymorth i deuluoedd

Mae adran 57 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, y TICD a'r Bwrdd ICD i roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau / swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Mesur.

Rhan 4 – Amrywiol a chyffredinol

Adran 59 Swyddogion safonau gwaith cymdeithasol teuluol

Gosodir dyletswydd ar bob ardal awdurdod lleol i benodi swyddog dynodedig (swyddog safonau gwaith cymdeithasol teuluol) a fydd â chyfrifoldeb penodol am weithio ledled yr awdurdod i godi safonau mewn arferion gwaith cymdeithasol a hyrwyddo'r defnydd o ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth (mewn perthynas â plant a phersonau sy'n gofalu amdanynt), a fydd yn arwain at well canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Nid yw'r gofynion hyn yn gyfyngedig i swyddogaethau TICD, ac y mae iddynt gwmpas ehangach mewn perthynas â chyfrifoldebau cyffredinol yr awdurdodau lleol am wasanaethau i blant a theuluoedd.

Adran 59A Anghenion plant sy'n codi o anghenion gofal cymunedol aelodau o'r teulu

Mae adran 59A yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth asesu anghenion oedolion am wasanaethau gofal cymunedol, i ystyried hefyd anghenion unrhyw blant y mae'r oedolion hynny yn gyfrifol am ofalu amdanynt, ac ystyried a yw effaith anghenion yr oedolion ar eu gallu i rianta yn golygu bod plentyn, yn ei dro , yn "blentyn mewn angen" yn nhermau adran 17 o Ddeddf Plant 1989.

Ar ôl ystyried a yw'n ymddangos ai peidio bod plentyn yn blentyn mewn angen, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylid gwneud y plentyn yn destun asesiad o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ac wedyn a ddylid darparu unrhyw wasanaethau ai peidio.

Adran 59B Anghenion plant sy'n codi o anghenion gofal cymunedol aelodau o'r teulu

Mae'r adran hon yn ategu'r ddarpariaeth yn adran 59A drwy osod dyletswydd ar gyrff GIG, pan ddarperir gwasanaethau iechyd penodol, i wneud trefniadau addas ar gyfer ystyried a yw anghenion iechyd yr oedolyn yn peri bod unrhyw blant y mae'r oedolyn yn gofalu amdanynt yn gymwys i gael gwasanaethau gan awdurdod lleol o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 neu ddarpariaeth arall. Rhaid i'r corff iechyd hefyd wneud trefniadau addas ar gyfer atgyfeirio achosion priodol at yr awdurdod lleol perthnasol, ond mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd i'r plentyn neu i'r gofalwr ynglŷn â datgelu gwybodaeth, boed ddyletswydd cyfrinachedd o dan gyfraith gwlad neu ddyletswydd i'r sawl sy'n destun yr wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Adran 59C Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol

Mae adran 59C yn darparu ar gyfer newid canlyniadol yn Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, drwy ehangu ystyr "Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol" ("*social services functions*") i gynnwys TICDau a Byrddau ICD

Adran 62 Canllawiau

Mae adran 62 yn gwneud darpariaethau ynglŷn ag unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru i gyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau o'r fath.

Adran 63 Dehongli'n gyffredinol

Mae adran 63 yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Mesur.

Adran 64 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Nodir mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn Atodlen 1.

Adran 65 Diddymiadau

Nodir y diddymiadau yn Atodlen 2.

Adran 66 Gorchmynion a Rheoliadau

Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol. Mae is-adrannau (2) i (5) yn pennu'r trefniadau mewn perthynas â gorchmynion a rheoliadau. Ceir arfer y pŵer i wneud rheoliadau gan ddarparu'n wahanol ar gyfer gwahanol achosion neu ardaloedd neu ddibenion, a chan wneud darpariaeth gyffredinol neu ddarpariaeth ar gyfer achos penodol.

Adran 67 Cychwyn

Mae adran 67 yn pennu'r trefniadau ar gyfer cychwyn y Mesur o ran yr adrannau 1, 2, 3, 66, 67 a 68. Daw gweddill y darpariaethau sydd yn y mesur i gyd i rym pan gychwynnir hwy drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Adran 68 Enw byr

Enw byr y Mesur yw 'Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010'.